Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Os nad nawr, pryd?
## Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Mai 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Os nad nawr, pryd?
Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Mai 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



O'r chwith, James Evans AS (y Ceidwadwyr Cymreig); Sioned Williams AS (Plaid Cymru); Laura Anne Jones AS (y Ceidwadwyr Cymreig); Cadeirydd y Pwyllgor: Jayne Bryant AS (Llafur Cymru); Buffy Williams AS (Llafur Cymru); Ken Skates AS (Llafur Cymru).

---

Cyfrannodd yr Aelod a ganlyn hefyd at yr ymchwiliad hwn.



**Jayne Dodds AS**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **10**

**1. Cefndir** .......... **17**

Cipolwg ar y system ofal .......... 17

Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "archwilio diwygio radical" .......... 21

Ein hymchwiliad .......... 23

Llywio ein hadroddiad .......... 24

**2. Trawsbynciol** .......... **26**

Y gweithlu gofal cymdeithasol .......... 26

Gwahaniaethu, stigma a rhianta corfforaethol .......... 41

Cymorth ar gyfer iechyd meddwl .......... 48

Casglu data .......... 52

**3. Cyn gofal** .......... **59**

Y cylch gofal .......... 59

Ffactorau Risg .......... 65

Cael eu clywed ac eiriolaeth ar gyfer rhieni geni yn y system amddiffyn plant .......... 74

Materion pwysig eraill .......... 77

**4. Mewn gofal** .......... **85**

Cael eu clywed ac eiriolaeth i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal .......... 85

Gofal maeth .......... 91

Materion pwysig eraill .......... 97

**5. Ar ôl gofal** .......... **118**

Ymyl y dibyn ... 118

Pan Fydda i'n Barod ... 123

Tai ... 127

Materion pwysig eraill ... 132

**Atodiad 1: Rhestr ymgysylltu â dinasyddion ... 142**

**Atodiad 2: Rhestr o ddigwyddiadau bord gron i randdeiliaid ... 143**

**Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ... 145**

**Atodiad 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ... 148**

# Rhagair y Cadeirydd

Dywedir bod rhai pobl yn 'ddi-lais', neu fod angen i rywun mewn pŵer 'roi llais' iddynt. Ond dydy hynny ddim fel arfer yn wir. Y broblem yw nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi siarad â llawer o bobl ifanc o bob cwr o Gymru sydd â phrofiad uniongyrchol o'n system ofal. Mae gan y bobl ifanc hynny lais yn sicr, ac roedd ganddynt lawer iawn i'w ddweud.

A chyda'i gilydd, mae eu llais yn cryfhau. Mae nifer y bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system ofal ar gynnydd. Yn syfrdanol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 22.9% rhwng 2013 a 2022.

Mae'r gymuned sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn amrywiol. Ond mae pawb o fewn y gymuned honno yn rhannu'r profiad o weld eu teuluoedd yn cael eu chwalu. Roedd llawer o'r hyn a glywsom gan bobl ifanc yn hynod bersonol, ac yn taro tant gyda'r boen a'r trawma yr oeddent wedi'u profi drwy gydol eu bywydau. O ganlyniad, mae rhannau o'r adroddiad hwn yn peri cryn anesmwythyd wrth eu darllen.

Rydym wedi gwrando ar lawer o bobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal. Ond doedd dim modd i ni allu siarad â phawb. Nid ydym yn honni bod y safbwyntiau a nodir yn yr adroddiad hwn yn gynrychiadol o'r holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gwyddom y gallai fod llawer mwy o brofiadau cadarnhaol o ofal nag y clywsom yn ystod ein hymchwiliad.

Serch hynny, credwn fod yr hyn a glywsom gan bobl ifanc yn cyfleu darlun cywir o'r system ofal yng Nghymru. Credwn hyn gan fod yr hyn a glywsom gan bobl ifanc yn gyson â'r dystiolaeth arall rydym wedi'i chasglu: gan sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan arolygwyr a rheoleiddwyr, ac o'r data y gwnaethom ni lwyddo dod o hyd iddo, neu a gyflwynwyd i ni.

Dywedodd yr holl dystiolaeth hon wrthym y bydd tua chwarter y plant mewn gofal wedi cael 2 leoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Y bydd llai nag 1 o bob 5 plentyn sy'n derbyn gofal yn cyflawni 5 neu fwy o raddau A* - C ar lefel TGAU, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg. Y bydd hyd at 1 o bob 4 plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddigartref pan fyddant yn 18

oed. Ac y bydd tua chwarter y rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael o leiaf un o'u plant eu hunain wedi'i dynnu oddi arnynt.[1]

Dylai unrhyw un sy'n honni bod y wladwriaeth yn gwneud ei gwaith rhianta corfforaethol yn dda ystyried a fyddent yn hapus i'w plentyn eu hunain gael gofal gan y system honno. A fyddai *unrhyw* riant da yn dymuno hynny ar gyfer ei blentyn ei hun.

Dydyn ni ddim yn credu y bydden nhw. Rhaid i rieni corfforaethol yng Nghymru wneud llawer, llawer yn well.

Hoffai fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor a minnau ddiolch o galon ac yn ddiffuant i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn. Yn bennaf oll, hoffem ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rannodd eu safbwyntiau gyda ni. Bu'n fraint ac yn bleser cyfarfod â chymaint o bobl ifanc wych a greodd gryn argraff arnom. Bydd yr hyn a ddywedwyd wrthym yn aros gyda ni am byth, ac yn ein sbarduno i wthio am welliannau i'r system ofal gydol y Senedd.

Fy ngobaith yw y byddwch yn teimlo bod yr adroddiad hwn yn dangos ein bod ni wedi gwrando arnoch. Rwy'n gobeithio y byddwch yn teimlo ei fod yn adlewyrchu'r uchelgais sydd gennych ar eich cyfer chi eich hun ac ar gyfer eich teuluoedd.

Ac, yn anad dim, rwy'n gobeithio y bydd yn arwain at y diwygio radical rydych chi'n ei haeddu.

**Jayne Bryant AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

[1] Mae'r ystadegau hyn wedi'u nodi'n fanylach, gyda chyfeiriadau, yn adrannau perthnasol yr adroddiad.

## Diwygiadau trawsbynciol

**DIWYGIAD RADICAL #1:** Deddfu i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo y **uchafswm llwythi achosion diogel ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant**, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal yr uchafswm llwythi achosion ar gyfer holl weithwyr cymdeithasol plant, gan ddefnyddio dull deddfwriaethol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 fel templed.

**DIWYGIAD RADICAL #2:** Gwneud **'profiad o fod mewn gofal' yn nodwedd warchodedig** o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010..

**DIWYGIAD RADICAL #3:** Rhoi sylfaen ddeddfwriaethol gref i **rianta corfforaethol** drwy roi dyletswyddau rhianta corfforaethol penodol i amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i awdurdodau lleol, ac ymestyn eu dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal drwy:

- diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016 i nodi pa gyrff cyhoeddus sy'n rhieni corfforaethol, a pha ddyletswyddau penodol sydd gan bob rhiant corfforaethol;
- darparu hawl statudol i ofal therapiwtig sy'n ystyriol o drawma i bob plentyn â phrofiad o fod mewn gofal;
- rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n gadael gofal wrth ddyrannu tai a rhoi statws "angen blaenoriaethol" i bobl sydd wedi bod mewn gofal tan eu bod yn 25 oed os ydynt yn ddigartref; a
- gosod dyletswyddau ar y Comisiwn Addysg Drydyddol sydd newydd ei ffurfio i hyrwyddo addysg drydyddol i bobl sydd wedi bod mewn gofal.

**DIWYGIAD RADICAL #4:** RhoI **dyletswyddau casglu data** ffurfiol ar yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i gasglu data cynhwysfawr yn flynyddol o leiaf ar y system ofal, ac o leiaf bob chwarter ar y gweithlu gofal cymdeithasol.

Dylai'r data gael ei wirio a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru - yn flynyddol o leiaf ar gyfer data sy'n ymwneud â'r system ofal, ac yn chwarterol ar gyfer data sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol - at ddibenion datblygu, gweithredu a gwerthuso polisi.

**DIWYGIAD RADICAL #5:** Yr hawl statudol i **gymorth cofleidiol, dwys ar ffiniau gofal ar gyfer yr holl rieni geni sydd wedi bod mewn gofal** er mwyn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o'u gofal, gan gynnwys eiriolaeth arbenigol i rieni i lywio'r systemau gofal cymdeithasol a llysoedd teulu.

Dylid modelu'r cymorth ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Prosiect Undod NYAS, a dylai fod ar gael o'r sgan 12 wythnos o feichiogrwydd (neu'r pwynt cynharaf ar ôl 12 wythnos lle mae beichiogrwydd hyfyw yn cael ei gadarnhau).

Os yw plentyn yn cael ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gefnogi'r rhieni geni i ddod i delerau â'u colled.

## Cyn gofal

**DIWYGIAD RADICAL #6:**
Ymestyn ledled y wlad ac ar sail gyffredinol **wasanaethau ar ffiniau gofal** llwyddiannus, megis Baby & Me Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni.

**DIWYGIAD RADICAL #7:**
Yn amodol ar werthusiad llawn llwyddiannus, **cyflwyno'r model llys datrys problemau** (model y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, neu 'FDAC') ledled Cymru.

**DIWYGIAD RADICAL #8:**
Yr hawl statudol i 'gynnig gweithredol' o **weithiwr cymorth annibynnol pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant** neu pan fydd plentyn yn destun rhag-achosion i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu.

Os yw plentyn yn cael ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gyfeirio'r rhieni geni at wasanaethau a all eu helpu i ddod i delerau â'u colled.

## Mewn gofal

**DIWYGIAD RADICAL #9:**
Rhoi i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yr **hawl statudol i gymorth eiriolaeth hirdymor** drwy eiriolwr penodedig ar sail 'optio allan'.

Byddai eiriolwr yn cael ei neilltuo i bob plentyn pan fyddai'n mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a byddai'n parhau hyd nes y byddai'r plentyn yn gorffen bod yn 'ymadawr gofal'.

Gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) pe byddent am wneud hynny.

**DIWYGIAD RADICAL #10:**
Mandadu pob gofalwr maeth i gofrestru'n uniongyrchol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, yn unol â rolau eraill sydd â chyswllt dyddiol sylweddol â phlant, a chreu **cofrestr genedlaethol o'r holl leoliadau maethu a gofalwyr maeth cymeradwy** ledled yr awdurdod lleol a'r sector annibynnol.

## Ar ôl gofal

**DIWYGIAD RADICAL #11:**
**Ymestyn y trothwy ar gyfer y cymorth statudol a ddarperir i bawb sy'n gadael gofal** gan yr awdurdod lleol o 21 i 25, fel sy'n cael ei ddarparu i'r rhai sy'n gadael gofal mewn addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd.

**DIWYGIAD RADICAL #12:**
Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau maethu a chodau ymarfer a chanllawiau sy'n ymwneud â **Pan Fydda i'n Barod** i ymestyn y terfyn oedran i bawb sydd eisiau cyfranogi yn y cynllun i 25 oed, ac i gael gwared ar y rhwystrau ariannol a gweithredol y mae gofalwyr maeth yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau 'Pan Fydda i'n Barod'.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy’n defnyddio’r dull deddfwriaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant sy’n galluogi gwaith cymdeithasol effeithiol, sy’n canolbwyntio ar berthnasoedd, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal y llwythi achosion hynny ar gyfer holl weithwyr cymdeithasol plant.
........................................................................................................................Tudalen 40

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddechrau ymgynghori ar gynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr i lywio’r gwaith o ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth ar uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Dylai’r cynllun digonolrwydd dynnu ar ganfyddiadau adroddiadau a gwblhawyd yn ddiweddar ar y gweithlu gofal cymdeithasol, ac adeiladu arnynt, a dylai ystyried y canlynol:

- llwybrau i mewn i waith cymdeithasol, gan gynnwys prentisiaethau a mathau eraill o lwybrau galwedigaethol i gymhwyster;
- cyflog, telerau ac amodau, gan gynnwys dichonoldeb a manteision ymestyn gweithio hyblyg;
- llwybrau gyrfa, gan gynnwys sut i gadw ymarfer rheng flaen ochr yn ochr â chamu ymlaen i rôl reoli neu arbenigedd fel ffordd o gadw profiad llwyth achosion a blaenoriaethu amser cyswllt gyda theuluoedd; a
- dull cenedlaethol posibl o fynd i’r afael â chyflog ac amodau gweithwyr cymdeithasol, megis yr un sy’n goruchwylio cyflogau ac amodau staff addysgu yng Nghymru, er mwyn sicrhau cysondeb ac uniondeb ar draws awdurdodau lleol.............................................................................................................. Tudalen 41

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i ddiwygio adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ychwanegu ‘profiad o fod mewn gofal’ fel nodwedd warchodedig.................................................................................................Tudalen 46

**Argymhelliad 4.** Fel rhan o’r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical #3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy’n gwneud darpariaeth benodol yn ymwneud â rhianta corfforaethol. Dylai’r ddeddfwriaeth:.................................................................................................................Tudalen 48

**Argymhelliad 5.** Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gael gwasanaeth cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol. Dylai fod ganddynt yr hawl statudol i gael eu hanghenion wedi'u hasesu yn gyfnodol ac i'r anghenion hynny gael eu diwallu. Dylai'r gwasanaeth hwnnw fod ar gael o'r pwynt lle maent yn cael eu tynnu oddi ar eu rhieni geni i o leiaf y pwynt lle maent yn peidio â chael eu diffinio fel ymadawyr gofal. Dylai fod ar wahân ac yn annibynnol ar y gwasanaethau iechyd meddwl presennol, a dylai arbenigo mewn cymorth iechyd meddwl sy'n ystyriol o drawma. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn canllawiau statudol, neu fel arall, y gofynion ar gyrff cyhoeddus perthnasol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i gasglu a chyhoeddi data ar bob agwedd ar y system ofal, yn ychwanegol at y data sydd eisoes yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys y bylchau data a amlygir yn yr adroddiad hwn. Rhaid ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys academyddion fel mater o flaenoriaeth i lywio'r hyn sydd ei angen. Dylai'r canllawiau fod yn sensitif i bryderon nifer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal am eu statws gofal a'r stigma maent yn ei wynebu, a nodi'r canllawiau diogelu data arfer gorau yn unol â hynny. Dylai'r data gael ei wirio gan Lywodraeth Cymru, a chael ei gyhoeddi mewn fformat hygyrch bob chwarter o leiaf lle mae'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn flynyddol o leiaf ar gyfer yr holl ddata arall. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob rhiant geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl statudol i gael cymorth cofleidiol dwys er mwyn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o'u gofal. Dylai'r cymorth gynnwys eiriolaeth rhieni arbenigol i lywio'r systemau gofal cymdeithasol a llysoedd teulu, a dylid ei fodelu ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis Project Unity NYAS. Dylai'r cymorth fod ar gael o'r sgan 12 wythnos o feichiogrwydd (neu'r pwynt cynharaf ar ôl 12 wythnos lle mae beichiogrwydd hyfyw yn cael ei gadarnhau). Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gefnogi'r rhieni geni i ddod i delerau â'u colled. ........ Tudalen 64

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad cyffredinol, cenedlaethol at wasanaethau ar ffiniau gofal/ymyrraeth gynnar/ataliol llwyddiannus, megis Babi a Fi Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni. Hyd nes y bydd awdurdodau lleol yn gallu adennill manteision cost hirdymor y gwasanaethau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model ariannu cynaliadwy, hirdymor cenedlaethol ar eu cyfer, gan gydnabod eu potensial o ran budd ariannol ar draws gwahanol gyrff gwasanaethau cyhoeddus. ........ Tudalen 73

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o'r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gyflwyno model FDAC cyson ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg. ........ Tudalen 74

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i roi hawl statudol i rieni geni gael 'cynnig gweithredol' o weithiwr cymorth annibynnol pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu ei wneud yn destun rhag-achos i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gyfeirio'r rhieni geni at wasanaethau a all eu helpu i ddod i delerau â'u colled. ........ Tudalen 77

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd ac argaeledd lleoliadau asesu rhianta. Dylai'r adolygiad ystyried moeseg, defnydd a gwerth am arian lleoliadau preswyl a lleoliadau maethu rhiant a phlentyn, a nodi pa newidiadau y gellir eu gwneud i wella'r broses i deuluoedd, ac unrhyw rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn cymryd y camau hynny. Dylai'r adolygiad annibynnol gyflwyno ei adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. ........ Tudalen 83

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ddarparu hawl statudol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor ar sail 'optio allan'. Dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn pan fydd yn mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a dylai barhau hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â bod yn 'ymadawr gofal'. Gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) os dymunant, ond rhaid iddynt fod ag eiriolwr neu ddarparwr penodedig bob amser yn ystod eu cyfnod mewn gofal. ........ Tudalen 89

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob plentyn mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth breswyl ac eiriolaeth unigol drwy: ........ Tudalen 90

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ariannu a darparu (gan gynnwys deddfu yn ôl yr angen) cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, i'w chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai'r gofrestr nodi manylion am statws cymeradwyo gofalwyr maeth, dyddiad adolygu'r gymeradwyaeth, lleoliad yr awdurdod lleol, nifer y lleoliadau ac a ydynt yn awdurdod lleol neu'n ddarparwr annibynnol. Dylid datblygu'r gofrestr honno law yn llaw â rhanddeiliaid allweddol, megis y Rhwydwaith Maethu, a dylai

gynnwys ymgynghoriad trylwyr â gofalwyr maeth a darparwyr gwasanaethau maethu ledled Cymru. ........ Tudalen 96

**Argymhelliad 15.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad o gronfa ddata ar-lein '4 C' yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr rheng flaen, i nodi a gweithredu gwelliannau i'r gronfa ddata er mwyn symleiddio'r broses o gomisiynu lleoliadau. ........ Tudalen 97

**Argymhelliad 16.** Cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag Estyn a rhanddeiliaid allweddol eraill i archwilio'r canlyniadau cyrhaeddiad diweddaraf sy'n ymwneud â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, canfod i ba raddau mae ysgolion yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ei dogfen 2017 'Gwneud Gwahaniaeth', y rhwystrau mae ysgolion yn eu hwynebu wrth weithredu'r canllawiau hynny, a nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn gwella profiadau ysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. ........ Tudalen 113

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr sy'n berthnasau, sefydliadau'r trydydd sector, llywodraeth leol ac eraill i ddeall yn well i ba raddau mae gofal gan berthnasau yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel dewis amgen i leoli plant mewn gofal maeth neu breswyl, profiadau plant mewn gofal gan berthynas ac anghenion cymorth gofalwyr sy'n berthnasau. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r potensial o ddiwygio drwy reoliadau y meini prawf y mae'n ofynnol i ofalwyr sy'n berthnasau eu bodloni er mwyn bod â'r hawl i gael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth ........ Tudalen 114

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn atal y defnydd o lety anghofrestredig anghyfreithlon yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys dadansoddiad o'r troeon y mae wedi'i ddefnyddio yn ystod y 24 mis diwethaf, gydag amserlenni clir a dyraniadau cyllid i ddatblygu dewisiadau amgen diogel. ........ Tudalen 115

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o'r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar draws Cymru ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 21 oed. Dylai'r dadansoddiad nodi nifer y plant a phobl ifanc mewn llety heb ei reoleiddio, a dosbarthu hynny rhwng llety y mae o'r farn sy'n darparu llety a chymorth o ansawdd (megis llety â chymorth y mae'n ofynnol iddo fodloni safonau tai), a llety nad yw'n gwneud hynny (megis llety gwely a brecwast, AirBnBs, hosteli ac ati). Dylai'r dadansoddiad rannu'r data hwnnw ymhellach yn ôl oedran a statws cyfreithiol y plant a'r bobl ifanc i

ddangos yn glir faint sy'n destun gorchmynion gofal a faint sy'n gadael gofal. Ar ôl ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â llety heb ei reoleiddio, gan gynnwys y camau y mae'n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i leihau'r defnydd o lety heb ei reoleiddio amhriodol yng Nghymru. ........ Tudalen 116

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddadansoddi'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, yn ôl awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn, a dylid ei gyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn lleihau'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys amserlenni a dyraniadau cyllid clir. ........ Tudalen 116

**Argymhelliad 21.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r pryderon a godwyd gan NYAS Cymru yn ei dystiolaeth lafar ar 15 Chwefror 2023, a chan Gymdeithas y Plant yn ei hymateb ysgrifenedig i'n hymgynghoriad, mewn perthynas ag achosion o blant sydd ar goll o ofal. Wrth wneud hynny, dylai nodi'n glir yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid statudol eraill yn eu hymateb i achosion o blant sydd ar goll, a'i barn ar eu galwadau am gyfweliadau dychwelyd adref statudol. ........ Tudalen 117

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i godi'r trothwy uchaf ar gyfer yr holl gymorth a gynigir i bobl sy'n gadael gofal hyd nes eu bod yn 21 oed (fel y nodir yn adrannau 103 i 118 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau cysylltiedig, canllawiau a chodau ymarfer, gan gynnwys y cynllun Pan Fydda i'n Barod) i 25 oed ar gyfer pobl sy'n gadael gofal categori 3, categori 5 a chategori 6. ........ Tudalen 122

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau, canllawiau a'r cod ymarfer sy'n ymwneud â chynllun Pan Fydda i'n Barod i:

- ymestyn y terfyn oedran ar gyfer pob person ifanc sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun i 25 oed; a
- dileu rhwystrau i'r cynllun, gan gynnwys y potensial i ddileu cymeradwyaeth gofalwyr maeth; y gostyngiad mewn taliadau i ofalwyr maeth; ac

- ystyried sut y gallai pobl ifanc ymuno â’r cynllun a derbyn yr holl gymorth sydd ar gael iddynt heb orfod ymrwymo i gytundebau tenantiaeth gyda’u gofalwyr maeth. ........................................................ Tudalen 126

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad a chynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a rhanddeiliaid allweddol eraill i ganfod sut y gellir ymestyn Pan Fydda i’n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl, y rhwystrau ynghlwm wrth hynny a pha gamau y gellir eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny. Dylai’r adolygiad adrodd erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. ....... Tudalen 126

**Argymhelliad 25.** Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler Diwygiad Radical 3), ac fel rhan o’i diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth tai, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:

- Diwygio Deddf Tai 1996 i sicrhau mai pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd â’r brif flaenoriaeth wrth ddyrannu tai.
- Diwygio Deddf Tai 1996 i ddatgan y dylid diystyru ‘cysylltiad lleol’ ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod pobl dros 21 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cadw statws “angen blaenoriaethol” pan fyddant yn ddigartref.
- Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel na ellir cyfeirio pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy’n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail ‘cysylltiad lleol’ os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd. ........................................................................................................................................ Tudalen 131

**Argymhelliad 26.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o’r cymorth a gynigir i bobl ifanc gan Gynghorwyr Pobl Ifanc. Dylai’r adroddiad ystyried:

- y pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn sy’n ymwneud â Chynghorwyr Pobl Ifanc a’r broses cynllunio llwybr;
- yr effeithiau tebygol ar lwyth gwaith cyfunol Cynghorwyr Pobl Ifanc yn sgil y diwygiadau a nodir yn yr adroddiad hwn (yn enwedig y rhai sy’n ymwneud â therfyn oedran uchaf ar gyfer cymorth i’r rhai sy’n gadael gofal a’r rhai sy’n ymwneud â gwasanaethau eiriolaeth optio allan ar gyfer plant mewn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal); ac
- unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen o ganlyniad. ....... Tudalen 139

**Argymhelliad 27.** Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i wneud y canlynol:

- gosod dyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol i bobl â phrofiad o fod mewn gofal; ac
- ychwanegu amod cofrestru gorfodol sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad, cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad a chymorth i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal. ........ Tudalen 141


# 1. Cefndir

## Cipolwg ar y system ofal

### Nifer y plant yn derbyn gofal

**1.** Ar 31 Mawrth 2022 roedd 7,080 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, sy'n cymharu â 5,760 ar 31 Mawrth 2013, sef cynnydd o 22.9 y cant. Yn 2021 roedd 7,245 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, y nifer uchaf a gofnodwyd ers 2003. Rhwng 2021 a 2022 bu gostyngiad o 165 o blant oedd yn derbyn gofal, a hynny'n ostyngiad o 2.3 y cant.


**Ffigur 1.1: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth**
***Ffynhonnell: StatsCymru,*** *'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran'*




### Cymharu cyfraddau gofal awdurdodau lleol

**2.** O edrych ar nifer y plant o dan 18 yn derbyn gofal, fesul 10,000 o'r boblogaeth, fesul awdurdod lleol, ar 31 Mawrth 2022 dangosir mai Torfaen sydd â'r gyfradd uchaf, sef 209, a Sir Gaerfyrddin sydd â'r gyfradd isaf, sef 45 o blant yn derbyn gofal fesul 10,000 o boblogaeth o dan 18 oed. Yn Lloegr, cynyddodd nifer y plant a oedd yn derbyn gofal fesul 10,000 o bobl o dan 18 oed, o 64 ym mhob 10,000 yn 2018 i 67 ym mhob 10,000 yn 2021.


**Ffigur 1.2: Awdurdodau lleol â chyfraddau gofal cynyddol a gostyngol a ddewiswyd i'w cymharu (Adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 2021)**
***Ffynhonnell: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru,*** *'Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector',* ***11/03/22***




## Rhywedd ac Oedran

**3.** Bechgyn sydd i gyfrif am 53.7 y cant o gyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae dros hanner (56.4 y cant) y plant sy'n derbyn gofal yn 10 mlwydd oed neu'n hŷn.


**Ffigur 1.3: Canran y plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl rhyw ac oedran**
*Ffynhonnell: StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran'*




## Y rhesymau pam mae angen gofal ar blant

**4.** Mae'r data ar blant sy'n dechrau derbyn gofal yn dangos pam y dechreuodd plant gael gofal, a cham-driniaeth neu esgeulustod oedd y rheswm ar gyfer 61.5 y cant o blant (1,040), yna camweithrediad teuluol (13.0 y cant, 220) ac yna y teulu o dan straen dybryd (13.0 y cant, 220).

**Ffigur 1.4: Canran y plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ôl yr angen am ofal yng Nghymru; 2021-22**
*Ffynhonnell:* ***StatsCymru,*** 'Plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r angen am ofal'





Nid yw'n cynnwys aflonyddwch mabwysiadu a oedd yn llai na 5 o blant (0.3%).

## Math o leoliad

**5.** O'r 7,080 o blant a oedd yn derbyn gofal yn 2022, roedd y mwyafrif (69.4 y cant) mewn lleoliadau maethu, ac yn dilyn hynny, wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant (15.6 y cant) ac roedd 8.3 y cant mewn lleoliadau preswyl.


**Ffigur 1.5: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl math o leoliad; 2022**
**Ffynhonnell: StatsCymru,** 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad'




## Gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal

**6.** Dengys data rhwng 2012-13 a 2021-22 bod gwariant wedi cynyddu 67.3 y cant i £373 miliwn yn 2021-22. Mewn termau real (gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth) cynyddodd gwariant 40.7 y cant rhwng 2012-13 a 2021-22.

**Ffigur 1.6: Cyfanswm gwariant refeniw y gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau plant sy'n derbyn gofal; 2012-13 i 2021-22 (£ miloedd)**
*Ffynhonnell:* ***StatsCymru,*** 'Gwariant refeniw gwasanaethau cymdeithasol yn ôl grŵp cleientiaid (£ mil)'




## Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "archwilio diwygio radical"

**7.** Mae Erthygl 20 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud: "Bydd hawlogaeth gan blentyn sydd wedi ei amddifadu dros dro neu'n barhaol o'i amgylchfyd teuluol, neu nad oes modd caniatáu iddo, er lles pennaf ef ei hun, aros yn yr amgylchfyd hwnnw, i gael amddiffyniad a chymorth arbennig a ddarperir gan y Wladwriaeth".[2]

**8.** Mae plant sy'n derbyn gofal yn uchel ar yr agenda wleidyddol yn dilyn ymrwymiad personol y Prif Weinidog i leihau nifer y plant mewn gofal.[3] Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfres o ymrwymiadau perthnasol a phellgyrhaeddol:

- Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.

[2] Y Cenhedloedd Unedig, 'Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn'
[3] Mark Drakeford,'Mark Drakeford for leader', Tachwedd 2018, tudalen 31

- Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.
- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.
- Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches.
- Cefnogi ein cynllun Maethu Cymru cenedlaethol.[4]

**9.** Gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth am ei hymrwymiad i archwilio diwygio radical. Cawsom rywfaint o fanylion yn ei hymateb ym mis Ionawr 2022:

> *"Cymryd camau radical i ddiwygio gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal.*
>
> *Roedd ein Papur Gwyn ar Ddyfodol Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio at gyfleoedd i ddiwygio gwasanaethau plant fel rhan o gyflwyno newidiadau cynhwysfawr i wasanaethau cymdeithasol. Rydym yn awyddus i wireddu gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar arferion mwy cyson, arferion sy'n llai amharod i gymryd risg, a dulliau adferol sy'n cael eu rhagnodi a'u mabwysiadu ar draws Cymru. Mae datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a sefydlu Swyddfa Genedlaethol yn creu cyfle i fwrw ymlaen â'r gwaith o drawsnewid a diwygio gwasanaethau plant ar lefel genedlaethol."*[5]

**10.** Ar 10 Mai 2023, llofnododd y Prif Weinidog a phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cynrychioli Voices from Care Cymru 'ddatganiad ar y cyd'.[6] Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y datganiad "yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi llais plant a phobl ifanc wrth galon y trawsnewidiad o wasanaethau plant" a'i fod yn dod "wrth i Lywodraeth Cymru

[4] Llywodraeth Cymru, 'Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', Rhagfyr 2021, tudalennau 3 a 9
[5] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17/01/22
[6] Llywodraeth Cymru, 'Uwchgynhadledd Diwygio Radical: Datganiad', 18/05/23

ymgymryd â thrawsnewidiad radical o wasanaethau plant yng Nghymru".[7] Yn ôl Llywodraeth Cymru:

> "Delivering the Vision will be one of our main priorities – one of the things that is most important to us – in the next four years".[8]

## Ein hymchwiliad

**11.** Aethom ati i lansio ein hymchwiliad ym mis Gorffennaf 2022 i edrych ar yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gyflawni ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal". Nod ein hymchwiliad oedd nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer meysydd polisi lle mae angen newid ac a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau plant a phobl ifanc, yn absenoldeb eglurder gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut beth fyddai diwygio radical.

**12.** Buom yn ystyried blaenoriaethau ar gyfer diwygio radical yn nhri cham canlynol y system ofal:

- Cyn gofal: Lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel
- Mewn gofal: Gwasanaethau a chymorth o ansawdd i blant mewn gofal
- Ar ôl gofal: Cymorth parhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal

### Ymgynghoriad

**13.** Lansiodd y Pwyllgor gais am dystiolaeth ysgrifenedig ar 06 Hydref 2022. Cafwyd 47 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 17 Chwefror 2023. Cawsom naw darn ychwanegol o dystiolaeth hefyd mewn ymateb i geisiadau penodol am wybodaeth. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad a'r darnau ychwanegol o dystiolaeth wedi eu cyhoeddi.[9]

### Ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol

**14.** Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023, cynhaliwyd 10 cyfarfod wyneb yn wyneb gennym ar draws Cymru gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rhieni geni sydd wedi cael plentyn wedi'i dynnu oddi arnynt, neu sy'n wynebu risg o gael plentyn wedi'i dynnu oddi arnynt.[10] Yn gynnar yn 2023,

[7] Llywodraeth Cymru, 'Plant a phobl ifanc yn arwain diwygiad radical o wasanaethau gofal yng Nghymru', 10/05/23
[8] Llywodraeth Cymru, 'Uwchgynhadledd Diwygio Radical: Datganiad', 18/05/23, tudalen 9
[9] Senedd Cymru, 'Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical'
[10] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA), 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 21

aethom ati i gynnal cyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol,[11] ac un sesiwn dystiolaeth breifat gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[12]

**15.** Ar 24 Chwefror, sefydlodd swyddogion y Senedd stondin yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' Voices from Care. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol ysgrifennu syniadau ar gyfer diwygio'r system ofal yn radical ar gardiau post a'u postio i mewn i flwch pleidleisio.[13]

### Casglu tystiolaeth yn ffurfiol

**16.** Clywsom gan 13 panel o dystion rhwng 18 Ionawr a 9 Mawrth 2023.

## Llywio ein hadroddiad

**17.** Rydym wedi rhannu ein canfyddiadau yn 4 pennod: tri cham y system ofal (cyn gofal, mewn gofal ac ar ôl gofal), ynghyd ag un bennod drawsbynciol. Mae'r bennod drawsbynciol yn ystyried materion sy'n berthnasol i'r system ofal yn ei chyfanrwydd.

**18.** O fewn y penodau hynny, mae gan rai materion eu hadrannau eu hunain (e.e. 'Y cylch gofal' yn y bennod 'Cyn gofal'), tra bod rhai'n ymddangos fel is-adrannau o fewn yr adrannau 'Materion pwysig eraill' (e.e. 'Ysgolion' yn y bennod 'Mewn gofal'). Os oes gan fater ei adran ei hun, mae hynny'n golygu i ni gael llawer iawn o dystiolaeth amdano, a oedd yn cynnwys galwadau arbennig o gryf neu gyson am ddiwygio. Nid yw'n golygu ein bod yn credu bod y materion hynny'n bwysicach na'r materion nad oes ganddynt eu hadran eu hunain.

**19.** Rydym wedi nodi'r hyn y credwn sy'n 12 'diwygiad radical'. Mae'r rhain yn ymddangos mewn blychau llwyd drwy'r adroddiad. Mae un o'r diwygiadau radical hynny - y trydydd, am rianta corfforaethol - yn arbennig o bellgyrhaeddol. Mae'n effeithio ar nifer o wahanol wasanaethau cyhoeddus, megis cymorth ar gyfer iechyd meddwl, tai, ac addysg drydyddol. Mae rhannau cyfansoddol y diwygiad radical hwn yn ymddangos yn fanwl yn adrannau perthnasol yr adroddiad.

**20.** Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys 27 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys y camau penodol sy'n ofynnol i roi effaith i'n 12 diwygiad radical. Maent hefyd yn cynnwys camau penodol i roi effaith i rai newidiadau eraill rydym yn galw amdanynt yn yr adroddiad hwn nad ydym yn credu eu bod yn 'radical' o reidrwydd, ond sy'n bwysig serch hynny. Gyda'i gilydd,

[11] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023
[12] PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023'
[13] PPIA, 'Cynigion ar gyfer diwygio radical gan fynychwyr digwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' Voices from Care'., Chwefror 2023

maent yn gosod cyfres o ddiwygiadau uchelgeisiol i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd.

# 2. Trawsbynciol

Diwygiadau i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n torri ar draws gwahanol gyfnodau'r system ofal.

## Y gweithlu gofal cymdeithasol

### Llwythi achosion

**21.** Clywsom dro ar ôl tro fod llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant yn rhy fawr. Dywedodd pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym dro ar ôl tro eu bod yn cael trafferth cael y cymorth angenrheidiol gan eu gweithwyr cymdeithasol gan fod llwythi achosion mawr yn golygu nad oeddent yn gallu treulio digon o amser gyda phob plentyn neu berson ifanc unigol. Mae enghreifftiau o'r straeon a glywsom gan blant mewn gofal yn cynnwys y canlynol:

- Roedd un dyn ifanc eisiau mynd ar daith rygbi, ond ar ôl pedwar mis o geisio cael cymeradwyaeth gan ei weithiwr cymdeithasol, nid oedd wedi llwyddo. Yn y pen draw bu'n rhaid iddo fynd i'r llys i gael caniatâd.[14]

- Roedd un ifanc, am yr wyth mlynedd diwethaf, i fod i dreulio amser gyda'i rieni geni ar ei ben-blwydd. Fodd bynnag, nid oedd erioed wedi gallu cael yr amser hwnnw gyda'i rieni geni gan fod gweithwyr cymdeithasol wedi methu ag ymddangos ar y diwrnod ei hun neu wedi methu â phrosesu'r cais mewn pryd.[15]

- Aeth rhai pobl sy'n gadael gofal i eithafion i gael sylw gweithwyr cymdeithasol. Roedd rhai wedi cyflawni troseddau, rhai wedi hunan-niweidio ac eraill wedi ceisio lladd eu hunain. Dywedodd un person ifanc wrthym fod rhaid "gwneud rhywbeth mawr er mwyn gwneud i rywbeth ddigwydd".[16]

**22.** Dywedodd un gofalwr maeth wrthym mai'r cyfan mae hi'n ei glywed yw bod gan weithwyr cymdeithasol lwythi achosion mawr. Ond dywedodd fod hynny, i

[14] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 25
[15] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 25
[16] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 21

blant, yn swnio fel nad oes ots ganddynt, nad yw'r plentyn yn ddigon pwysig i weithwyr cymdeithasol fod yn werth eu hamser.[17]

**23.** Roedd llawer o weithwyr proffesiynol hefyd yn teimlo bod llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol yn rhy fawr. Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol wrthym fod gan y rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol lwythi achosion o tua 35 o deuluoedd, a bod gan rai 50 a mwy.[18] Yn ôl y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, y diwygiad mwyaf radical y gellid ei gyflwyno yn y maes hwn yw lleihau llwyth gwaith ei gweithwyr cymdeithasol.[19] Mewn arolwg diweddar, gofynnodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain i'w haelodau ddewis y tair her fwyaf sy'n eu hwynebu yn y gweithle. O'r 80 o aelodau sy'n gweithio yng Nghymru a ymatebodd, soniodd 53.75% am ofynion tasgau gweinyddol, soniodd 46.25% am y llwyth gwaith a dywedodd 79.22% nad oeddent yn gallu cwblhau eu gwaith o fewn oriau eu contract.[20]

**24.** Clywsom fod gan lwythi achosion mawr oblygiadau sylweddol ar gyfer y gwaith y gall gweithwyr cymdeithasol ei wneud a'r amser a'r lle i feithrin perthynas gadarnhaol gyda rhieni geni.[21] Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru wrthym fod ymarferwyr, mewn adolygiad o berfformiad awdurdod lleol, wedi rhannu pryderon am effaith llwyth achosion mawr ar eu gallu i gyflawni eu gwaith yn effeithiol.[22] Daeth adolygiad MacAlister yn Lloegr i gasgliadau tebyg, gan nodi bod llwythi achosion mawr a biwrocratiaeth ddi-angen wedi hen gael eu cydnabod fel rhwystrau i helpu teuluoedd.[23]

**25.** Clywsom gan wahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, y gallai llwyth achosion o rhwng 12-16 fod yn gyfartaledd ymarferol i weithwyr cymdeithasol rheng flaen.[24] Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

> *"… if I were to go back to Newport this afternoon and say, 'You've all suddenly got case loads of 12,' we would be in a wholly*

[17] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 26
[18] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 3; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 5
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 38 Tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)
[20] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 3; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 5
[21] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 2; PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 53 a 56
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[23] The independent review of children's social care, 'Recommendation Annexes', Mai 2022, tudalen 156
[24] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 5; PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 29; PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 169

> *different place in terms of the relational social work that we then build with children, young people and families."*[25]

Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol y byddai'n anodd iawn - os nad yn amhosibl - gosod un rhif penodol ar gyfer holl weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant oherwydd newidynnau megis rôl y tîm; y gwahanol lefelau o gymorth sydd ei angen ar blant a theuluoedd ar adegau gwahanol; gwybodaeth a phrofiad ymarferydd; a phwyntiau ymarferol, megis pa mor bell y mae'r person ifanc oddi wrth y gweithiwr cymdeithasol.[26]

**26.** Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc a llawer o weithwyr proffesiynol y trydydd sector o blaid deddfwriaeth a oedd yn gosod cap ar lwythi achosion gweithwyr cymdeithasol.[27] Dadleuodd y Rhwydwaith Maethu yn angerddol dros gap deddfwriaethol:

> *"I think it has come to the point where it is absolutely critical for our workforce pressures that we legislate social work caseloads. We don't have anything in place to cap or prevent a social worker from having up to 40 or 50 families on their caseloads. That's the reality. We could do something about that. If we ensured that our social workers had limited numbers of families to be able to focus on and do their job to the best of their ability, then we would, I think, make a significant step towards addressing some of those pressures and those consistent changes, day to day."*

Aethant ymlaen i ddadlau y byddai capio llwythi achosion yn gwneud gwasanaethau cymdeithasol yn lle gwell i weithio, ac felly'n yrfa fwy deniadol.[28]

**27.** Fodd bynnag, roedd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yn dadlau y byddai cymhlethdod cyfrifo cap yn ei wneud yn anymarferol.[29] Yn ehangach, roedd y Tasglu Gwaith Cymdeithasol, a gafodd y dasg o fwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn adolygiad 2009 yr Arglwydd Laming o amddiffyn plant yn dilyn marwolaeth Peter Connelly yn Llundain, yn cydnabod y dystiolaeth gref iawn bod diffyg rheolaeth effeithiol o lwythi gwaith yn gwneud i ymarferwyr deimlo eu bod wedi'u dadsgilio, roedd yn lleihau eu morâl a gallai arwain at

---

[25] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 162
[26] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 29; Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[27] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 10
[28] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 53 a 56
[29] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion paragraff 29

iechyd gwael. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad y byddai gosod cap ar faint llwythi achosion yn amhriodol ac na fyddai'n llwyddo.[30]

**28.** Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ('y Dirprwy Weinidog') am ei barn ynghylch cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol mewn ffordd debyg i'r modd y mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn gosod fframwaith rheoleiddio i fyrddau iechyd gyfrifo a gorfodi cymarebau nyrsys i gleifion.[31] Mewn ymateb, bu'n siarad am waith a gafodd ei gomisiynu gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar delerau ac amodau gweithwyr cymdeithasol:

> *"… this work identifies that, where they don't already exist, case-load policies should be considered for social workers in local authorities. Although, really, at an operational level, the complexity of those cases should also be considered, because you could have a very, very complex case that would require much more input, perhaps, than another case. So, I don't think it's just a matter of numbers in terms of management… we will obviously be looking at what they say."*[32]

### Recriwtio a chadw staff

**29.** Roedd rhai o'r sefydliadau a oedd o blaid llwythi achosion is yn cydnabod bod angen mwy o gapasiti arnom yn y gweithlu gofal cymdeithasol.[33] Fodd bynnag, recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol oedd y pryder a godwyd amlaf yn ystod ein hymchwiliad. Ysgrifennodd Barnardo's:

> *"Wales is facing a social care crisis across the sector that is already having significant effects on the landscape, with a*

[30] Tasglu Gwaith Cymdeithasol, 'Building a safe, confident future', tudalen 18
[31] Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn darparu ar gyfer fframwaith i osod lefelau staff nyrsys diogel ar rai wardiau gofal acíwt a wardiau pediatrig. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ("y Cyrff Iechyd"), wrth iddynt ystyried faint o nyrsys sydd eu hangen er mwyn bodloni'r holl ofynion rhesymol, i roi sylw i bwysigrwydd sicrhau bod nifer ddigonol o nyrsys ar gael fel bod gan nyrsys amser i ofalu am gleifion mewn modd sensitif. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar y Cyrff Iechyd i gyfrifo lefelau staff nyrsio; i gymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal y lefelau staff hynny; ac i wneud trefniadau ar gyfer hysbysu cleifion am y lefelau staff nyrsio. Mae'r Ddeddf yn nodi'r dull y mae'n rhaid ei ddilyn i gyfrifo lefelau staff nyrsio. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch y ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio a'r dull o gyfrifo a rhaid i'r Cyrff Iechyd roi sylw i'r canllawiau hynny. Rhaid i bob Corff Iechyd y mae'r ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio yn berthnasol iddo gyflwyno adroddiad ar lefelau staff nyrsio i Weinidogion Cymru bob tair blynedd, a rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi crynodeb o adroddiadau o'r fath a gosod yr adroddiadau gerbron y Senedd.
[32] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 317-318
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 6 Steve Phillips

> *recruitment and retention crisis that is seriously hampering the sector's ability to respond to major change."*[34]

**30.** Nododd ystadegau gan Gofal Cymdeithasol Cymru fod nifer y swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol plant wedi cynyddu 38.3% yn 2022 i 639, gyda thros 50% ohonynt yn swyddi gwag i weithwyr cymdeithasol cymwysedig.[35] Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru fod pwysau recriwtio a chadw mewn gofal cymdeithasol yn sylweddol, gan nodi bod recriwtio i rolau gwaith cymdeithasol plant yn arbennig o anodd.[36] Yn ôl y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae llawer o awdurdodau lleol yn diffodd tanau sy'n gysylltiedig â chyfraddau swyddi gwag, cynnydd yn y galw gyda chynnydd mewn llwythi achosion a thoriadau yn y gyllideb.[37] Clywsom straeon tebyg gan lawer o bobl eraill, gan gynnwys gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rhieni geni.[38]

**31.** Mae heriau recriwtio a chadw staff yn arwain at drosiant uchel o weithwyr cymdeithasol. Dywedodd rhai o'r bobl ifanc y bu i ni siarad â nhw eu bod yn cael eu cefnogi gan gynifer o wahanol weithwyr cymdeithasol fel nad oeddent yn gallu cofio enwau rhai ohonynt. Dywedwyd wrthym eu bod yn mynd a dod, sy'n golygu bod rhaid iddynt ailadrodd eu straeon dro ar ôl tro. Dywedodd un person ifanc wrthym, "Rwy'n treulio fy mywyd yn siarad â phobl newydd bob dydd." Dywedodd un arall wrthym ei bod wedi cael cynifer o weithwyr cymdeithasol fel nad ydynt hyd yn oed yn ffarwelio â hi mwyach.[39] Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym fod trosiant gweithwyr cymdeithasol uchel yn golygu bod y berthynas rhyngddynt a gweithwyr cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn ansefydlog neu fod yna ddiffyg ymddiriedaeth. Clywsom hefyd y gall gweithwyr cymdeithasol sy'n gadael yn rheolaidd gynyddu teimladau plant o gael eu gadael.[40] Dywedodd un fenyw ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym:

> *"When you're in such a vulnerable position I think your relationship with the social worker is probably one of the most important relationships you can have—for that to be something that is inconsistent I think is a big problem."*

---

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 38 Tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)
[38] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 2-3; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 10 Unigolyn
[39] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 25
[40] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 7

**32.** Roedd Seneddwr Ieuenctid Cymru, Rosie Squires, yn cytuno gan bwysleisio bod gwir angen blaenoriaethu gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, neu sicrhau bod un person sy'n aros yn gyson drwy'r amser.[41]

**33.** Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym, os yw gweithwyr cymdeithasol plant yn newid yn aml, mae perthynas y plant hynny â gwasanaethau statudol ac ansawdd a phrydlondeb y cymorth a gânt yn debygol o ddioddef.[42] Dywedodd TACT Cymru wrthym fod rhai timau gwaith cymdeithasol yn gweithredu ar 30 y cant o gapasiti, sydd â goblygiadau enfawr i'r gwasanaethau y mae pobl yn eu cael.[43] Ysgrifennodd CAFCASS Cymru y gall problemau recriwtio a chadw achosi oedi annerbyniol i blant a phobl ifanc cyn achosion ac yn ystod achosion, a chael effaith ar ansawdd y gwaith achosion gofal.[44] Esboniodd y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew McFarlane, Llywydd yr Is-adran Deuluoedd, effaith trosiant gweithwyr cymdeithasol ar y broses asesu:

> *"… if you have to change the social worker in the middle of a process of assessment, it either has to start again, or the new social worker has to form relationships with the people who are being assessed and certainly go back a stage or two, and it's much less satisfactory. It draws the process out, and, for the family and the young people, it's a presumably profoundly unwelcome thing to have to have this change."*[45]

**34.** Rhannodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y pryderon hyn am recriwtio a chadw. Dywedwyd wrthym mai'r allwedd i gyflawni'r gwaith hwn, cadw teuluoedd gyda'i gilydd, sicrhau bod plant yn derbyn gofal priodol tra'u bod mewn gofal, yw sicrhau bod gennym ni weithle lle nad oes unrhyw fylchau. Ychwanegodd y gymdeithas fod ganddynt staff gwych sy'n gwneud gwaith gwych, ond nad oes ganddynt ddigon o staff i gyflawni agenda uchelgeisiol Llywodraeth Cymru a'u hawdurdodau lleol eu hunain.[46]

## Gweithwyr asiantaeth

**35.** Mae dibyniaeth awdurdodau lleol ar weithwyr asiantaeth yn arwydd o'r heriau recriwtio a chadw sy'n wynebu gofal cymdeithasol plant. Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrthym fod dibyniaeth ar staff asiantaeth yn bryder allweddol. Amcangyfrifwyd bod 49% o'r holl staff gwasanaethau plant yn

[41] PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalen 3, 17-18
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 36 Iechyd Cyhoeddus Cymru; PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 24
[43] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 21
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 46 CAFCASS Cymru
[45] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[46] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 17 a 142

weithwyr asiantaeth yn 2022, gydag 85.6% o'r gweithwyr asiantaeth hynny yn llenwi swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cymwysedig.[47] Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw at heriau a achosir gan drosiant uchel a chyfraddau swyddi gwag sydd, mewn rhai achosion, yn arwain at "ormod o ddibyniaeth ar staff asiantaeth mewn rhai achosion, gyda galw am weithwyr cymdeithasol parhaol a phrofiadol yn fwy na'r cyflenwad."[48] Ysgrifennodd Arolygiaeth Gofal Cymru fod prinder yn y gweithlu wedi arwain at "golli staff profiadol a mwy o ddibyniaeth ar staff newydd gymhwyso a staff asiantaeth".[49]

**36.** Clywsom y gall y defnydd o weithwyr asiantaeth gael effaith negyddol ar ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Dywedodd rhai gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol wrthym eu bod wedi sylwi ar fwy o weithwyr asiantaeth yn ddiweddar, sy'n gwneud meithrin perthynas yn heriol.[50] Cydnabu'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yr her ehangach o ddefnyddio gweithwyr asiantaeth, a bod cael gweithlu asiantaeth yn goruchwylio achosion amddiffyn plant arbennig o gymhleth megis lleoliadau anghofrestredig (gweler tudalen 106) yn un o'r heriau enfawr.[51]

**37.** Dywedodd rhanddeiliaid wrthym hefyd fod staff asiantaeth yn ddrud ac yn gallu rhoi straen ar gyllidebau awdurdodau lleol.[52] Cydnabu'r Dirprwy Weinidog yr heriau ariannol hynny. Dywedodd wrthym fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ariannu gwaith sy'n cael ei arwain gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i adolygu cost gweithwyr asiantaeth a gwneud argymhellion i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch sut y gallant wella eu defnydd o staff asiantaeth. Ychwanegodd fod Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi comisiynu ymchwil i ddeall pam y byddai gweithwyr cymdeithasol eisiau gweithio i asiantaeth. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi diweddariad i ni am y datblygiadau yn ymwneud â'r darnau hynny o waith wrth iddynt ddod ar gael.[53]

## Myfyrdodau plant a phobl ifanc ar weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol

**38.** Mae'n ymddangos bod yr heriau gweithlu sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol plant yn cael effaith ar berthynas gweithwyr cymdeithasol â theuluoedd. Roedd llawer o'r bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rhieni geni y bu i ni siarad â nhw yn teimlo nad oedd gan rai gweithwyr cymdeithasol y gwerthoedd na'r agweddau cywir i ffurfio perthynas gadarnhaol â phobl agored i

[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 44 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[50] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 26
[51] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 94-96 a 127
[52] Gweler: Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol); Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol); PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 170
[53] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 312 a 315

niwed. Dywedodd rhai wrthym fod gan rai gweithwyr cymdeithasol ddiffyg empathi ac y gall deimlo fel petaen nhw'n mynd drwy ymarfer ticio blychau wrth ymwneud â nhw. Awgrymodd eraill y gall agweddau gweithwyr cymdeithasol amrywio'n aruthrol, o bosibl oherwydd y diwylliant o fewn awdurdod lleol neu dîm penodol. Awgrymodd un person ifanc a'r staff a oedd yn gweithio gyda hi fod gweithwyr cymdeithasol 'mwy newydd' i weld yn fwy gofalgar a meithringar. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y gallech chi a'r gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd i chi fod â phersonoliaethau sy'n gwrthdaro, sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn ymddiried yn y gweithiwr dan sylw. [54] Dywedodd Voices From Care Cymru wrthym fod pobl ifanc, ar y cyfan, yn dweud wrthynt fod gwerthoedd a sgiliau yn bwysicach na hyfforddiant ffurfiol. Roeddent yn dweud mai'r hyn yr oeddent ei angen fwyaf gan staff oedd empathi, dealltwriaeth ac amynedd.[55]

**39.** Fodd bynnag, clywsom rai straeon cadarnhaol am wasanaethau cymdeithasol gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn ddieithriad roeddent yn straeon am weithwyr cymdeithasol yn cymryd yr amser i ddod i adnabod y person ifanc, a meithrin perthynas gadarnhaol â'r person hwnnw. Dywedodd un cyfranogwr, pryd bynnag y byddai'n ffonio ei gweithiwr cymdeithasol pan oedd hi wedi cynhyrfu, byddai'n dod draw a chwrdd â hi neu'n mynd am dro a sgwrs.[56] Dywedodd person ifanc arall wrthym am un gweithiwr cymdeithasol a gymerodd yr amser i ddod i'w hadnabod fel person. Teimlai fod ei pherthynas â'r gweithiwr cymdeithasol dan sylw, a chanlyniadau'r berthynas honno, yn llawer mwy cadarnhaol o ganlyniad. Dywedodd wrthym fod y gweithiwr cymdeithasol wedi "sylweddoli nad dim ond y person a oedd yn cael ei ddisgrifio ar ddarn o bapur oeddwn i. Cymerodd un person i gymryd siawns arnaf i".[57] Dywedodd un rhiant geni a oedd wedi gallu cadw ei phlentyn fod gweithwyr cymdeithasol wedi rhoi cyfle iddi brofi ei hun. Roedd hi'n poeni y byddai ei phrofiadau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol o'r adeg pan oedd hi'n blentyn a oedd yn agored i niwed yn cyfrif yn ei herbyn, ond nid oedd hynny'n wir.[58] Soniodd un fam geni am sut y gwnaeth ei gweithiwr cymdeithasol ei helpu i ymrestru ar gwrs tra'r oedd hi'n feichiog.[59]

## Rhwystrau i yrfa mewn gwaith cymdeithasol plant

**40.** Roeddem yn awyddus i ddeall pam mae'r gweithlu gofal cymdeithasol o dan y fath bwysau: pam mae cyn lleied o bobl yn dewis gwaith cymdeithasol fel gyrfa,

[54] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 5
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices from Care Cymru
[56] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 21
[57] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 5
[58] PPIA, 'Canfyddiadau'r digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 2
[59] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 13

pam mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn dewis gweithio i asiantaethau, a pham mae llawer yn penderfynu gadael y proffesiwn yn gyfan gwbl.

**41.** Cyflog ac amodau cyflogaeth eraill oedd y rhesymau a nodwyd amlaf. Dywedodd Barnwr Cyswllt Is-adran Deuluoedd Cymru wrthym y gall gweithwyr cymdeithasol symud o gyflogaeth gyhoeddus i weithio i asiantaeth a chael cynnydd sylweddol mewn cyflog.[60] Clywsom y gall pobl sy'n gweithio i asiantaeth ennill cymaint â thraean neu ddwbl yr hyn y gallant ei ennill mewn swydd barhaol mewn awdurdod lleol.[61]

**42.** Dywedodd eraill, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog, wrthym y gall cyflog ac amodau fod yn anghyson rhwng awdurdodau lleol, sy'n gallu achosi staff i symud a chyfrannu at ansefydlogrwydd y gweithlu.[62] Roedd hwn hefyd yn ganfyddiad allweddol o adolygiad MacAlister, a argymhellodd:

> *"… the introduction of new national pay scales that would increase social worker pay as they progress through and beyond the Early Career Framework. These pay scales are expected to address the discrepancies in how social workers are paid through the local government pay scales, reduce competition between local authorities, and incentivise social workers to remain in post so children and families do not have multiple social workers."*[63]

**43.** Clywsom hefyd y gallai diffyg gweithio hyblyg fod yn rhwystr. Dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrthym fod canfyddiadau cychwynnol eu hymchwil parhaus gyda gweithwyr asiantaeth yn dangos mai hyblygrwydd o ran faint o oriau a weithir, pa fath o waith roedden nhw'n ei wneud, ble a phryd roedden nhw'n gwneud y gwaith hwnnw oedd y ffactorau pwysicaf i'r rhan fwyaf o weithwyr asiantaeth yr oedden nhw wedi siarad â nhw. Roedd hyn yn gyffredinol yn gorbwyso anfanteision gweithio i asiantaeth.[64] Gwnaed pwyntiau tebyg gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain.[65]

---

[60] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 89
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol); PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 118; PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 21
[62] PPIA, 'Cynigion ar gyfer diwygio radical gan fynychwyr digwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' Voices from Care', Chwefror 2023, tudalen 5; PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 159 a 303
[63] The independent review of children's social care, 'Recommendation Annexes', Mai 2022, tudalen 165
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[65] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 21

**44.** Clywsom hefyd y gall natur heriol gwaith cymdeithasol fod yn rhwystr i yrfa mewn gwaith cymdeithasol. Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

> *"Social work isn't the easiest job in the world. We've talked about the risks that we're managing; we're talking about driving around with children in a car while somebody at the office is trying to find a placement, making decisions within 24 hours when they come through the front door, working with partners, balancing competing demands of children, parents and siblings. It's an enormously difficult job, but it's also really rewarding."*[66]

**45.** Dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol yn y trydydd sector a rhieni geni wrthym fod gweithwyr cymdeithasol yn profi camdriniaeth a bygythiadau o drais wrth wneud eu gwaith.[67] Dywedodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain fod gweithwyr cymdeithasol wedi codi pryderon gyda hwy am effaith bwlio ac aflonyddu gan gydweithwyr, yn ogystal â chan y teuluoedd y maent yn eu cefnogi.[68] Mewn arolwg o'u 80 o aelodau sy'n gweithio yng Nghymru, roedd 62.5% wedi profi camdriniaeth eiriol o fewn y 12 mis diwethaf wrth weithio gyda phobl, ac roedd 28.75% wedi cael eu bygwth â thrais corfforol.[69] Clywsom alwadau niferus am fwy o gymorth i weithwyr cymdeithasol a ffocws cryf ar les staff.[70]

**46.** Clywsom gan randdeiliaid eraill fod angen gwella canfyddiadau'r cyhoedd o weithwyr cymdeithasol. Yn yr un arolwg gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, sgoriodd y gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru ganfyddiad presennol y cyhoedd o weithwyr cymdeithasol ar raddfa o 1 (gwael) i 10 (rhagorol). Y sgôr gyfartalog oedd 2.98.[71] Pwysleisiodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol fod tanseilio gwaith cymdeithasol yn niweidiol i'r gweithlu, a galwodd am fwy o gydnabyddiaeth ac y dylid dathlu'r gwaith cadarnhaol a gwerth chweil y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei wneud.[72] Soniodd Barnardo's am staff gwaith cymdeithasol yn cael eu pardduo gan ein

---

[66] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 122
[67] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 3 a 27
[68] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 11
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) (Gwybodaeth ychwanegol)
[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 41 Tystiolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; PPIA, Cynigion ar gyfer camau diwygio radical gan rai oedd yn bresennol yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' gan Voices from Care, Chwefror 2023, tudalen 5
[71] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) (Gwybodaeth ychwanegol)
[72] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 25, 118 a 158

cyfryngau[73], a nododd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain mai anaml iawn y cewch stori yn y cyfryngau am weithiwr cymdeithasol yn gwneud gwaith gwych.[74] Rydym yn trafod y pwysau sylweddol y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei wynebu mewn perthynas â risg ar dudalen 77.

**47.** Gall mynediad at yrfaoedd gofal cymdeithasol, a llwybrau gyrfa ar ôl cymhwyso, hefyd fod yn rhwystrau i rai pobl. Dadleuodd Gweithredu dros Blant mai camgymeriad oedd troi'r cymhwyster gwaith cymdeithasol yn radd ac nad ydym yn canolbwyntio ar ymarfer o ansawdd.[75] Gwnaeth eraill bwyntiau tebyg, gan bwysleisio pwysigrwydd y dull a'r gwerthoedd iawn dros y cymwysterau iawn,[76] neu gynnig llwybrau galwedigaethol neu brentisiaeth amgen i ddenu pobl â gwahanol brofiadau i waith cymdeithasol.[77] Awgrymodd uwch weithwyr cymdeithasol y dylai gweithwyr cymdeithasol, ar ôl cymhwyso, allu cadw llwyth achosion rheng flaen pan fyddant yn symud i rolau arbenigol neu reoli.[78] Roedd hwn hefyd yn ganfyddiad allweddol yn adolygiad MacAlister:

> *"The conventions that pull social workers away from direct work with children and families as they gain more experience, also need to be challenged. This is in part about career progression and ensuring promotion does not mean that the most experienced social workers have the least contact with families."*

Argymhellodd yr adolygiad y dylai'r gofynion i fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig gynnwys yr angen i dreulio o leiaf 100 awr y flwyddyn mewn ymarfer.[79]

**48.** Yn 2020, lansiodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru strategaeth gweithlu ar y cyd i bob oedran ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae nifer o gynlluniau ac adroddiadau eraill yn bwydo i mewn i'r strategaeth honno. O'u darllen gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau'n nodi cyfres o uchelgeisiau lefel uchel ynghylch y gweithlu, ochr yn ochr â chamau mwy penodol i wireddu'r uchelgeisiau hynny, gan gynnwys adolygiad o'r telerau a'r amodau presennol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol; sicrhau bod pob myfyriwr

---

[73] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 49,
[74] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion , paragraff 62
[75] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 125
[76] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 200
[77] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 38
[78] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 53; PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 125 a 170
[79] The independent review of children's social care, 'Final report', Mai 2022, tudalen 183

gwaith cymdeithasol cymwys yn cael bwrsari; a chyhoeddi adroddiad yn edrych ar y llwybrau cymhwyso i waith cymdeithasol.[80]

**49.** Crynhodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y dystiolaeth a glywsom:

> *"I think the solution is a workforce that's trained, so let's financially support people to train as qualified social workers. Let's fill those vacancies, so we don't have to spend the money on agency staff and on all kinds of hotchpotch things to fill gaps. Let's speak proudly about the work that children's social workers, foster carers, support workers do within our children's services departments, so that they can feel recognised and valued by society for the work that they do, and let's make sure that there are opportunities for experienced social workers to progress and remain in practice, so we don't lose that experience to management roles."*[81]

**50.** Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cydnabod i ni fod y gweithlu gofal cymdeithasol dan straen. Amlinellodd y mesurau canlynol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru:

- Ymgyrch ddenu a recriwtio, Gofalwn.Cymru, sy'n cael ei chynnal ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Rhaglen datblygu'r gweithlu, a reolir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, i ymgysylltu â phobl sydd eisoes yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol i hyfforddi ymhellach i gymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol.
- Cynnydd o 50% i'r bwrsari israddedig a 91% i'r bwrsari ôl-raddedig, ar gael i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr presennol o fis Medi 2022.
- Grant y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol, sy'n werth £45 miliwn yn 2023-24, y gall awdurdodau lleol ei wario fel y gwelant yn dda i fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw staff ar draws yr holl weithlu gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau plant. [82]

[80] Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol', 22/10/20; Gofal Cymdeithasol Cymru, 'Cynllun gweithlu ar gyfer gwaith cymdeithasol: 2022 i 2025', wedi'i ddiweddaru 25/09/22; Gofal Cymdeithasol Cymru, 'Cynllun darparu Cymru Iachach: strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, 2022 i 2023', wedi'i ddiweddaru 25/09/22
[81] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 170
[82] PPIA, 11/01/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 107-111; PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 307-310; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 47 Llywodraeth Cymru

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #1**

**Deddfu i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion diogel ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal yr uchafswm llwythi achosion ar gyfer holl weithwyr cymdeithasol plant, gan ddefnyddio dull deddfwriaethol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 fel templed.**

Mae cyfraddau'r plant sy'n mynd i ofal yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol. Mae tlodi yn ffactor achosol allweddol sy'n effeithio ar gyfraddau gofal, ond ni ellir esbonio'r amrywiad ar sail tlodi yn unig.

Un esboniad sy'n argyhoeddi am y gwahaniaethau mewn cyfraddau gofal ar draws awdurdodau lleol yw'r amrywiadau ar draws gweithluoedd gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Bu penaethiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol yn siarad yn rymus am effaith drawsnewidiol gweithlu sydd ag adnoddau da, o gymharu â gweithlu sydd dan bwysau ac sydd heb adnoddau digonol. Siaradwyd yn rymus am effaith gadarnhaol gweithlu sefydlog, heb swyddi gwag ar nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system ofal, ac am y cyfleoedd a geir yn sgil llwythi achosion isel ar gyfer gwneud gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd.

Dywedodd pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rhieni geni wrthym am y niwed y gellir ei wneud pan fo gweithwyr cymdeithasol dan bwysau.

Pan fydd eu llwythi achosion mor fawr fel eu bod yn anghofio ffarwelio pan fydd rhaid iddynt drosglwyddo'r achos i weithiwr gwahanol.

Pan fydd rhaid i bobl ifanc adrodd hanes eu bywyd dro ar ôl tro i bob gweithiwr cymdeithasol newydd sy'n ymgymryd â'u hachos.

Pan fydd gweithwyr asiantaeth yn gweithio gyda phlant mewn gofal, yn hytrach na gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol gyda'r cyfle i feithrin perthynas hirdymor, gadarnhaol gyda hwy.

Pan fydd plant yn cael gwybod bod llwyth achosion eu gweithiwr cymdeithasol yn rhy fawr i roi'r cymorth sydd ei angen arnynt, sy'n gwneud iddynt deimlo nad ydynt yn flaenoriaeth.

A phan fydd plant yn hunan-niweidio i gael eu gweithwyr cymdeithasol i dalu sylw iddynt.

Nid dyma straeon pob plentyn neu berson ifanc y bu i ni siarad â nhw. A gwyddom fod llawer o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal na wnaethom ni siarad â nhw, hwyrach, â safbwyntiau gwahanol. Ond, yn anffodus, dyma'r mathau o straeon a ddaeth i'n sylw dro ar ôl tro. Nid eithriadau anghyffredin oeddent.

Mae tystiolaeth arweinwyr gwaith cymdeithasol a straeon pobl ifanc wedi ein hargyhoeddi bod cryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol yn allweddol i leihau cyfraddau'r plant sy'n dod i mewn i'r system ofal, a gwella bywydau'r plant hynny lle mai gofal yw'r penderfyniad cywir ar eu cyfer.

Nid oes cefnogaeth gyffredinol i gap deddfwriaethol ar lwythi achosion gweithwyr cymdeithasol. Rydym yn cydnabod hefyd y bydd angen gwneud gwaith pellach i nodi a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil dull deddfwriaethol – er enghraifft, sicrhau nad yw cymryd camau deddfwriaethol mewn perthynas â llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol yn gwthio llwyth gwaith i gol staff gofal cymdeithasol eraill. Ac nid ydym yn ddigon naïf i gredu y bydd deddfwriaeth yn datrys yr argyfwng staffio sy'n wynebu gofal cymdeithasol plant yn syth. Mae realiti'r heriau sy'n wynebu'r gweithlu, a'r atebion i'w datrys, yn llawer mwy cymhleth.

Ond credwn y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod, yn y ffordd fwyaf pwerus y gall, fod llwythi achosion mawr yn anniogel, a'u bod yn achosi niwed andwyol i waith cymdeithasol plant. Dylai nodi yn y modd mwyaf eglur posibl y lefelau gofal rydym yn eu dyheu ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a'r amodau gweithle sydd eu hangen ar weithwyr cymdeithasol, ac yn wir a haeddant, er mwyn gallu cyflawni eu gwaith yn effeithiol.

Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth wedi'i modelu ar Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion diogel a hylaw ar gyfer gwahanol grwpiau o weithwyr cymdeithasol, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal yr uchafswm llwythi achosion hynny. Wrth wneud hynny, nid ydym yn galw am gapiau deddfwriaethol mympwyol ar lwythi achosion. Rydym yn galw am gydnabyddiaeth ddeddfwriaethol bod gan lwythi achosion mawr oblygiadau pontio'r cenedlaethau dwys i blant a phobl ifanc.

Mae tebygrwydd trawiadol rhwng yr heriau sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol plant nawr, a'r heriau a oedd yn wynebu'r sector nyrsio pan gyflwynwyd y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru): cyfraddau uchel o swyddi gwag, gweithwyr proffesiynol yn gadael y gweithlu, dibyniaeth ar staff asiantaeth, ochr yn ochr â chonsensws cyffredinol bod cymarebau staff i ddefnyddwyr gwasanaethau

isel yn cael effeithiau sylweddol ar ganlyniadau i'r defnyddwyr gwasanaethau hynny.

Ond y tebygrwydd allweddol yw nad yw'r camau anneddfwriaethol a gymerwyd hyd yma wedi cyflawni'r newidiadau yr ydym ni i gyd am eu gweld. Mae hyn yn cynnwys camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol sydd, wedi'r cyfan, yn gyflogwyr i'r gweithwyr cymdeithasol, a rhaid iddynt ysgwyddo peth cyfrifoldeb am yr heriau gweithlu sy'n wynebu gofal cymdeithasol plant.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n defnyddio'r dull deddfwriaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant sy'n galluogi gwaith cymdeithasol effeithiol, sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal y llwythi achosion hynny ar gyfer holl weithwyr cymdeithasol plant.

**51.** Rydym wedi ystyried strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a'i chynlluniau a'i strategaethau cyflenwi cysylltiedig. Er eu bod yn gwneud ymrwymiadau pwysig a gwerth chweil sy'n cyffwrdd â llawer o'r pryderon a glywsom drwy gydol yr ymchwiliad hwn, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddant, ar eu pennau eu hunain, yn cyflawni'r newid seismig sydd ei angen i'r gweithlu gofal cymdeithasol

**52.** Mae cynllun digonolrwydd y gweithlu, a grëwyd mewn ymgynghoriad llawn â'r gweithlu ei hun, ac sy'n adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma, yn gwbl allweddol i nodi a gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i wella digonolrwydd a sefydlogrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol ac, o ganlyniad, i leihau llwythi achosion. Bydd y cynllun hwn yn ganolog i weithredu'n effeithiol y targedau llwythi achosion a osodwyd a'r ddeddfwriaeth rydym yn galw amdani.

**53.** Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fynd ati ar unwaith i ddechrau gweithio ar gynllun digonolrwydd y gweithlu ar gyfer y gwasanaethau plant i gyd-fynd â'r bwriadau polisi a'r llinellau amser sy'n gysylltiedig â'n deddfwriaeth arfaethedig. Dylai'r cynllun fod yn rhan allweddol o'r gwaith ymgynghori i lywio Bil yn y dyfodol, a dylai fod ymhlith y camau cyntaf wrth bennu pa newidiadau ymarferol i gymwysterau, hyfforddiant, cyflog a thelerau ac amodau gweithwyr cymdeithasol y byddai eu hangen i wireddu llwythi achosion diogel ledled Cymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddechrau ymgynghori ar gynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth ar uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Dylai'r cynllun digonolrwydd dynnu ar

ganfyddiadau adroddiadau a gwblhawyd yn ddiweddar ar y gweithlu gofal cymdeithasol, ac adeiladu arnynt, a dylai ystyried y canlynol:

- llwybrau i mewn i waith cymdeithasol, gan gynnwys prentisiaethau a mathau eraill o lwybrau galwedigaethol i gymhwyster;
- cyflog, telerau ac amodau, gan gynnwys dichonoldeb a manteision ymestyn gweithio hyblyg;
- llwybrau gyrfa, gan gynnwys sut i gadw ymarfer rheng flaen ochr yn ochr â chamu ymlaen i rôl reoli neu arbenigedd fel ffordd o gadw profiad llwyth achosion a blaenoriaethu amser cyswllt gyda theuluoedd; a
- dull cenedlaethol posibl o fynd i'r afael â chyflog ac amodau gweithwyr cymdeithasol, megis yr un sy'n goruchwylio cyflogau ac amodau staff addysgu yng Nghymru, er mwyn sicrhau cysondeb ac uniondeb ar draws awdurdodau lleol.

## Gwahaniaethu, stigma a rhianta corfforaethol

### Profiadau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**54.** Dro ar ôl tro, dywedodd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym eu bod yn cael eu trin yn wahanol, mewn ffordd negyddol, o gymharu â phlant sydd heb brofiad o fod mewn gofal. Maent yn teimlo'r gwahaniaethu neu'r stigma hwn ar wahanol gyfnodau yn eu bywydau: yn yr ysgol, mewn chwaraeon neu weithgareddau allgyrsiol eraill, wrth aros dros nos yn nhŷ ffrind, wrth feddwl am addysg bellach neu addysg uwch, wrth ddod o hyd i waith neu hyd yn oed pan fydd angen iddynt deithio.[83] Nododd Voices From Care ganfyddiadau tebyg yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, fel y gwnaeth academyddion a gweithwyr proffesiynol eraill.[84]

**55.** Roedd llawer o rieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo bod eu profiad o ofal yn rheswm allweddol pam roedd eu plant yn destun achosion amddiffyn plant neu'n cael eu tynnu oddi arnynt.[85] Adroddodd Comisiynydd Plant Cymru a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda rhieni geni sydd â

[83] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 25-28; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 28-30
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices from Care Cymru, tudalen 8; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 14
[85] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 3 a 23; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 11-12

phrofiad o fod mewn gofal ganfyddiadau tebyg.[86] Rydym yn trafod y pryderon hyn ymhellach yn 'Y cylch gofal' ar dudalen 59.

**56.** Roedd rhai rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal hefyd yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn wahanol oherwydd eu statws gofal wrth iddynt geisio eirioli ar ran eu plant eu hunain. Rhannodd un fam sydd â phrofiad o fod mewn gofal ei phryderon gyda'r gwasanaethau cymdeithasol am sut yr oedd ei phlant yn cael eu trin gan eu gofalwr maeth. Ond roedd hi'n teimlo iddi gael ei thrin fel person 'anodd' oherwydd ei statws gofal, a chafodd ei phryderon eu hanwybyddu.[87] Dywedodd un arall wrthym fod profiad o fod mewn gofal wedi effeithio ar sut yr ymatebodd ysgol ei phlentyn pan oedd ei phlentyn yn cael trafferthion, gan gymryd ei bod angen dosbarthiadau rhianta yn hytrach na chymryd ei phryderon am ei phlentyn o ddifrif. Cafodd y plentyn ei asesu'n ddiweddarach gan feddyg teulu fel un a oedd ag anghenion dysgu ychwanegol.[88]

**57.** Cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod nifer o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo stigma. Dywedodd wrthym am waith Llywodraeth Cymru gyda phobl ifanc yn cynrychioli Voices from Care ar 'ddatganiad' ar y cyd:

> *"[Young people representing Voices From Care] really feel that, because they're care experienced, they will not be treated the same as everybody else when they do have children themselves. And this came over very strongly, this issue of stigma, and that's one of the things they want us to address. And we will be making a declaration as a result of the summit, which the First Minister will sign, and we will pledge to do our utmost as a Government to do what the young people want."*[89]

## Gwneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

**58.** I lawer o randdeiliaid, yr unig ffordd o atal y gwahaniaethu mae pobl sydd â phrofiad o'r system ofal yn ei wynebu yw drwy wneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai hyn yn rhoi llwybr cyfreithiol i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal allu herio eu triniaeth mewn sefyllfaoedd penodol - er enghraifft, o ran gofal iechyd, addysg neu yn y gwaith. Clywsom gefnogaeth unfrydol bron iawn i'r cynnig hwn, gan gynnwys gan

[86] PPIA, 17/11/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 66; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS); PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 11
[87] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 31
[88] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 31
[89] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 215

ymchwilwyr CASCADE,[90] sefydliadau'r trydydd sector,[91] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,[92] a chan amrywiaeth o'r bobl ifanc eu hunain.[93] Argymhellodd adolygiad MacAlister yn Lloegr hefyd y dylai Llywodraeth y DU wneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig, yn dilyn ymgynghoriad â phobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Dadleuodd y canlynol:

> *"Hearing testimony from care experienced people sharing the discrimination they have experienced, even from a very young age, it is clear that such discrimination can be similar in nature to other groups that have a legally protected characteristic under the Equality Act (2010)"*[94]

**59.** Byddai diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010 i ychwanegu nodwedd warchodedig yn gofyn am Ddeddf gan Senedd y DU. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth y DU yn ddistaw ynghylch argymhelliad adolygiad MacAlister yn ei ymateb i'r adroddiad.[95]

**60.** Pan holwyd y Dirprwy Weinidog am ei barn, dywedodd wrthym ei bod yn ymwybodol o'r galwadau i wneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig. Cadarnhaodd na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu newid y gyfraith, serch hynny dywedodd fod ganddi ddiddordeb yn ein barn ar y mater ac yr hoffai ystyried y mater ymhellach.[96]

## Rhianta corfforaethol

**61.** Fel cysyniad, mae rhianta corfforaethol yn ceisio hyrwyddo cydgyfrifoldeb ar draws gwasanaethau ac awdurdodau lleol i ddiogelu lles plant sy'n derbyn gofal a hyrwyddo eu cyfleoedd bywyd. Yr egwyddor sylfaenol yw y byddai rhiant corfforaethol da yn ceisio'r un canlyniadau i blant yn ei ofal ag y byddai rhiant da yn eu deisyfu ar gyfer ei blant ei hun. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol weithredu dros y plant dan eu gofal fel y byddai rhiant cyfrifol a

[90] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 13 Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE)
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 29 Materion Gwirfoddoli; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Y Rhwydwaith Maethu
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[93] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 9; PPIA, 'Cynigion ar gyfer camau diwygio radical gan rai oedd yn bresennol yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' gan Voices from Care, Chwefror 2023, tudalen 8; PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalennau 19-20
[94] The independent review of children's social care, 'Final report', Mai 2022, tudalennau 188-189
[95] Gov.uk, 'Minister Quince Oral Statement of children's social care review', 23/05/22
[96] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 354

chydwybodol yn ei wneud.[97] Fodd bynnag, yn wahanol i ddeddfwriaeth yr Alban[98], sy'n rhestru nifer o gyrff a sefydliadau fel rhieni corfforaethol ac yn gosod dyletswyddau cyfreithiol penodol arnynt, nid oes cyfeiriad penodol at rianta corfforaethol yn neddfwriaeth Cymru.

**62.** Mae llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd i ni gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn dangos nad yw rhianta corfforaethol yn gweithio fel y dylai. Mae hyn yn amlwg o ran y cymorth mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ei gael gan wasanaethau fel addysg, iechyd a thai. Rhannodd llawer o bobl ifanc straeon â ni am sut yr oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi, neu eu methu'n llwyr, gan y gwasanaethau a gawsant gan eu rhieni corfforaethol:

- Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym fod athrawon ysgol yn ei gwneud hi'n amlwg iawn eu bod mewn gofal. Roedd hyn yn eu gwneud yn gocyn hitio ar gyfer bwlio, ac yn golygu nad oedd saib byth o'u profiadau o'r system ofal.[99]

- Dywedodd rhai a oedd wedi gadael gofal wrthym mai prin iawn oedd y cymorth a gawsant i'w helpu i symud ymlaen o leoliadau maethu, sy'n gallu bod yn gyfnod pontio heriol.[100]

- Dywedodd rhai a oedd wedi gadael gofal wrthym nad oedd ganddynt y sgiliau sylfaenol angenrheidiol i fyw'n annibynnol, megis coginio, glanhau, siopa a chyllidebu.[101]

- Dywedodd rhai rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym nad yw'r llysoedd, y gwasanaethau cymdeithasol na gweithwyr proffesiynol eraill yn eu parchu nac yn poeni am eu lles – y plentyn yw eu hunig ffocws. Dywedodd un fenyw: "Dim ond gwrthrychau ydyn ni."[102]

**63.** Roedd mwyafrif llethol y gweithwyr proffesiynol a'r academyddion y bu i ni siarad â nhw yn teimlo nad oedd rhianta corfforaethol yn cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywsom gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Comisiynydd Plant Cymru ac eraill nad yw pob rhiant corfforaethol yn deall nac yn cyflawni ei ddyletswyddau rhianta corfforaethol yn gyson, neu fod pwysau ariannol yn peri tramgwydd.[103] Clywsom

Llywodraeth Cymru 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya)', tudalen 70
[98] Legislation.gov.uk, 'Children and Young People (Scotland) Act 2014'
[99] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 24
[100] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 26
[101] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 30
[102] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 19
[103] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion paragraff 131; PPIA, 17/11/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 67; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 9; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 12 Grwp Resilience

bryderon niferus am y pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.[104] Crynhodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol farn llawer:

> *"our care-experienced young people disproportionately go into services that are under immense pressure, such as child and adolescent mental health services, such as needing specific educational placements. That means that those with the most complex needs are being filtered into multiple systems that are under capacity, and that can really impact the cohesion of corporate parenting that young people are afforded. So, I suppose it's about how those agencies fulfil their duties and then come together as corporate parents."*[105]

**64.** Clywsom alwadau mynych am gryfhau rhianta corfforaethol neu roi sylfaen ddeddfwriaethol gadarnach iddo.[106] Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn cefnogi estyniad i rianta corfforaethol ar draws y sector cyhoeddus cyfan. Ysgrifennodd y Gymdeithas fod partneriaid allweddol yn cynnwys iechyd, addysg, tai a'r heddlu, ond bod Llywodraeth Cymru (swyddogion a Gweinidogion) ac Aelodau o'r Senedd yn llawn mor bwysig.[107]

**65.** Mynegodd y Dirprwy Weinidog ei chefnogaeth hefyd i gryfhau rhianta corfforaethol. Mae ei thystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu siarter rhianta corfforaethol, y mae'n disgwyl i sefydliadau ac uwch-arweinwyr ymrwymo iddo. Ochr yn ochr â'r siarter, bydd yn cyhoeddi canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod gwell cynnig o gymorth yn cael ei ddarparu i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal gan bob rhan o'r sector cyhoeddus.[108]

[104] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 35 Cymorth i Ferched Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 39 Tystiolaeth gan Blant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru
[105] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 139
[106] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 13 Y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 4 TACT Fostering; PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 173
[107] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig, PA65, Llywodraeth Cymru

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #2**

**Gwneud 'profiad o fod mewn gofal' yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

Clywsom straeon gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal am sut yr oeddent wedi cael eu trin yn wahanol, mewn modd negyddol, o gymharu â phlant eraill ym mhob cyfnod allweddol yn eu bywydau. Cawsom ein syfrdanu gan y modd mae eu profiad o fod mewn gofal yn treiddio i bron pob agwedd ar eu bywydau, gan effeithio arnynt yn academaidd, yn broffesiynol, a hyd yn oed fel rhieni.

Mae'n amlwg mai'r gwahaniaethu a'r stigma mae llawer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ei brofi o ddydd i ddydd yw un o'u heriau mwyaf. Dylai cael gwared ar y rhwystr hwnnw iddynt fod yn flaenoriaeth lwyr. Credwn fod angen newid sylweddol i sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus ac eraill yn trin pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn deg. Yn y pen draw, gwneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig yw'r unig ffordd y bydd gan bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal atebolrwydd cyfreithiol i herio ymddygiad gwahaniaethol a gwella dealltwriaeth o'r stigma sy'n gysylltiedig â phrofiad o fod mewn gofal, a lleihau'r stigma hwnnw.

Deallwn na all Llywodraeth Cymru na'r Senedd wneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Deallwn y gall y diwygiad radical hwn gymryd amser i'w wireddu. Fodd bynnag, nid ydym ar ein pennau ein hunain wrth wneud yr argymhelliad hwn. Ein gobaith yw y bydd galwadau am newid o Gymru, ynghyd â'r nifer o alwadau eraill ledled y DU, yn gwthio Llywodraeth y DU i weithredu.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i ddiwygio adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ychwanegu 'profiad o fod mewn gofal' fel nodwedd warchodedig.

**DIWYGIAD RADICAL #3 (rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol)**

**Rhoi sylfaen ddeddfwriaethol gref i rianta corfforaethol drwy roi dyletswyddau rhianta corfforaethol penodol i amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i awdurdodau lleol, ac ymestyn eu dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy:**

**- ddiwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016 i nodi pa gyrff cyhoeddus sy'n rhieni corfforaethol, a pha ddyletswyddau penodol sydd gan bob rhiant corfforaethol;**
**- darparu hawl statudol i ofal therapiwtig sy'n ystyriol o drawma i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal;**
**- rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n gadael gofal wrth ddyrannu tai a rhoi statws "angen blaenoriaethol" i bobl sydd wedi bod mewn gofal tan eu bod yn 25 oed os ydynt yn ddigartref; a**
**- gosod dyletswyddau ar y Comisiwn Addysg Drydyddol sydd newydd ei ffurfio i hyrwyddo addysg drydyddol i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.**

Rydym wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl o ddarparu sail ddeddfwriaethol glir i rianta corfforaethol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni ellir gwneud hyn drwy efelychu ac ymestyn, mewn gair yn unig, ddyletswyddau rhianta corfforaethol yn ehangach. Nid yw'r system bresennol yn gweithio. Nid yw ymestyn dyletswyddau presennol i asiantaethau eraill yn ddigon da.

Nid ydym wedi ein hargyhoeddi y bydd siarter rhianta corfforaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru yn sicrhau newid pendant ac ystyrlon. Mae maint yr hyn sydd angen ei drawsnewid yn rhy fawr. Nid oes ganddo sylfaen statudol, ac nid ydym yn gweld unrhyw ffordd glir y gellir dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am gyflawni'r ymrwymiadau a wneir ganddynt yn y siarter, na chwaith pa gamau gorfodi y gellir eu cymryd - a chan bwy - os nad ydynt yn cyflawni'r ymrwymiadau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer rhieni corfforaethol ar ffurf Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya). Mae'r dystiolaeth hynod gyson rydym wedi'i derbyn yn dweud wrthym nad yw'r arfer da a nodir yn y cod yn cael ei ddilyn.

Yn hytrach, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu mewn ffordd debyg i Lywodraeth yr Alban drwy gyflwyno deddfwriaeth i ymestyn rhianta corfforaethol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol - ond heb fod yn gyfyngedig iddynt - a rhoi dyletswyddau penodol i'r rhieni corfforaethol hynny i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae trosolwg o'n diwygiad ymbarél arfaethedig i rianta corfforaethol wedi'i nodi uchod. Mae argymhelliad penodol sy'n nodi beth ddylai dyletswyddau cyffredinol pob rhiant corfforaethol fod wedi'i nodi isod. Rydym wedi nodi rhagor o fanylion ac argymhellion penodol yn erbyn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. GweCler: iechyd meddwl (tudalen 48), tai (tudalen 123) ac addysg drydyddol (tudalen 132).

**Argymhelliad 4.** Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical #3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth benodol yn ymwneud â rhianta corfforaethol. Dylai'r ddeddfwriaeth:

- nodi pa gyrff sy'n cael eu hystyried yn 'rhieni corfforaethol', gan gynnwys o leiaf awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, Gweinidogion Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a chyrff eraill fel y gwêl Llywodraeth Cymru yn dda ar ôl ymgynghori;
- nodi'r dyletswyddau cyffredinol a osodir ar bob rhiant corfforaethol, gan gynnwys o leiaf ddyletswyddau i: baratoi a chyhoeddi cynlluniau sy'n ymwneud â'u gwaith fel rhieni corfforaethol; gweithio ar y cyd lle byddai gwneud hynny yn diogelu neu'n hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc; cyhoeddi adroddiadau ar sut y maent wedi arfer eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol; darparu gwybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol i Weinidogion Cymru; a dilyn canllawiau neu gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Gweinidogion.
- cyd-fynd â dyletswyddau ac argymhellion rhianta corfforaethol penodol pellach yn erbyn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Gweler: iechyd meddwl (isod), tai (tudalen 127) ac addysg uwch (tudalen 134).

## Cymorth ar gyfer iechyd meddwl

**66.** Daeth adroddiad 'Cadernid Meddwl' Pwyllgor y Pumed Senedd i'r casgliad bod angen newid sylweddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl cyffredinol. Pwysleisiodd fod "angen i'r cymorth emosiynol a meddyliol i blant agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal a'r rhai a fabwysiadwyd, gael ei wella'n sylweddol"[109]. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 2020, canfu'r adroddiad 'Cadernid Meddwl' dilynol fod angen mwy o gynnydd a bod "rhaid gwella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu, sy'n aml yn ei chael hi'n anodd cyrchu'r gwasanaethau therapiwtig y mae eu hangen arnynt."[110]

**67.** Cawsom lwyth o dystiolaeth yn mynegi pryderon am iechyd meddwl plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Buom yn siarad â nifer o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd wedi dioddef gyda'u hiechyd meddwl ers eu plentyndod cynnar. Roedd rhai wedi cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn, eraill yn hunan-feddyginiaethu gydag alcohol a chyffuriau, roedd rhai wedi hunan-

[109] Cynulliad cenedlaethol Cymru, 'Cadernid Meddwl', Ebrill 2018, tudalen 87
[110] Senedd Cymru, 'Cadernid Meddwl: Ddwy flynedd yn ddiweddarach', Hydref 2020, tudalen 38

niweidio, ac roedd rhai wedi ceisio lladd eu hunain.[111] Dywedodd gwahanol grwpiau o sefydliadau trydydd sector wrthym mai iechyd meddwl yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu plant a phobl ifanc yn y system ofal.[112] Yn ôl yr NSPCC, mae gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal:

> *"much higher rates of mental health needs than the general population, including a significant proportion who have more than one condition. They are approximately four times more likely to have a mental health need than children living with their birth families".*[113]

**68.** Roedd sefydliadau eraill yn rhannu safbwyntiau tebyg.[114] Roedd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno, gan ysgrifennu y bydd plant sy'n derbyn gofal wedi profi mathau o golled, cam-drin ac esgeulustod cyn mynd i mewn i'r system ofal a bydd y profiadau hyn yn aml yn aros gyda nhw gydol eu hoes.[115] Cydnabu'r Dirprwy Weinidog hefyd faint y broblem, gan ddweud wrthym fod iechyd meddwl yn codi gyda phobl ifanc drwy'r amser.[116]

**69.** Roedd unfrydedd bron iawn nad yw'r gwasanaethau iechyd meddwl presennol yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywsom bryderon a chanfyddiadau am restri aros hir,[117] trothwyon a meini prawf nad ydynt yn cydnabod y trawma mae pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi mynd drwyddo,[118] pontio gwael o wasanaethau iechyd meddwl plant i wasanaethau oedolion,[119] a cham-labelu problemau iechyd meddwl fel problemau ymddygiad.[120] Clywsom fod gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn "enbyd" a bod y system "wedi torri". Crynhodd un gweithiwr prosiect farn llawer:

---

[111] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 8-9; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 2; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices from Care Cymru
[112] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 2, tudalen 15
[113] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 42 Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
[114] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 25 CLASS Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 33 Llamau; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 2 Matthew Lewis
[115] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 38 Tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)
[116] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 340
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol); PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 34
[118] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 8-9; PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 100
[119] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 26; Tystiolaeth ysgrifenedig, Platfform CEC 16
[120] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 34; PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

> *"We forget the nurturing side of it. We forget that they're children."*[121]

**70.** Clywsom alwadau niferus a mynych gan bobl ifanc,[122] sefydliadau[123] ac eraill[124] a fynnai y dylai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fod â'r hawl i gymorth therapiwtig. Pwysleisiodd llawer o'r rheini y dylai'r cymorth fod ar gael o'r adeg y deuant i mewn i'r system ofal ac ymlaen i'r cyfnod o fod yn oedolion ifanc.[125]

**71.** Roedd consensws cryf bod rhaid i ymarferwyr sy'n darparu cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fod â dealltwriaeth drylwyr o effaith trawma. Anogodd Barnardo's ni i edrych ar bobl ifanc fel unigolion, yn hytrach na cheisio eu gorfodi i gydweddu i'n modelau; ac mai'r hyn sydd angen ei wneud gyda'r bobl ifanc hyn yw edrych ar y trawma sy'n sail i'r ymddygiadau a welwn a'r anawsterau a brofant.[126] Rhannwyd safbwyntiau tebyg gan sefydliadau eraill - gan gynnwys cyrff iechyd megis Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – a'r bobl ifanc eu hunain.[127]

**72.** Roedd y trawma cynnar a brofwyd gan lawer o blant a oedd yn derbyn gofal yn nodwedd drawiadol yn y dystiolaeth. Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir tystiolaeth o broblemau sylweddol o ran cael mynediad at wasanaethau CAMHS arbenigol neu unrhyw wasanaethau therapiwtig ar gyfer y grŵp hwn o blant. Roedd clinigwyr, ymarferwyr rheng flaen a gofalwyr maeth yn awyddus i bwysleisio y gall y profiadau negyddol a'r trawma cynnar a brofir gan lawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal arwain at anawsterau emosiynol, ymddygiadol, addysgol a datblygiadol sylweddol. Yn ei dro, gall y trawma arwain at blant yn dangos ymddygiad heriol iawn, anawsterau ymlynu, diffyg empathi ac, mewn rhai

[121] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023; PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 34
[122] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 9, 10, 25 a 32; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices from Care Cymru; PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalen 6
[123] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 8; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 11; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 30 Comisiynydd Plant Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 20 Action For Children; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 42 Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 40 Plant yng Nghymru
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 3 Unigolyn; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 2 Matthew Lewis
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 41 Tystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
[126] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 190
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 12 Grwp Resilience; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 35 Cymorth i Ferched Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 36 Iechyd Cyhoeddus Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 41 Tystiolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 3 Unigolyn; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 23 Rhian Carter; PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalen 18; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices from Care Cymru; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 19

achosion, math o anhawster dysgu.[128] Mae gwaith a wnaed gan ein Pwyllgor rhagflaenol yn dangos bod y profiadau hyn weithiau'n wahanol iawn i brofiadau'r boblogaeth nad ydynt yn derbyn gofal ac nad ydynt bob amser yn cael eu diwallu orau drwy fodel meddygol o ddarpariaeth iechyd meddwl.[129]

**73.** Pan wnaethom ni ofyn i'r Dirprwy Weinidog beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dywedodd wrthym fod y gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio ar roi cymorth i bobl ifanc yn gynnar fel nad oes angen iddynt fod ar restri aros CAMHS. Aeth ymlaen i dynnu sylw at y fframwaith Nerth, Ymddiried, Tyfu'n Ddiogel, Hybu, sy'n cael ei weithredu ar draws Cymru drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol. Fframwaith ydyw ar gyfer creu ymagwedd system gyfan sy'n canolbwyntio ar blant tuag at wasanaethau iechyd meddwl a lles i bob oedran. Crynhodd y Dirprwy Weinidog drwy bwysleisio bod iechyd meddwl yn broblem ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus.[130]

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #3 (rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol)**

Mae ein gwaith fel Pwyllgor hyd yma wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw anghenion cymorth iechyd meddwl llawer o bobl ifanc yng Nghymru yn cael eu diwallu.

Pan ystyriwn y gallai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fod bedair gwaith yn fwy tebygol o fod ag anghenion cymorth iechyd meddwl na phlant eraill, nid yw'n syndod i ni gael cymaint o dystiolaeth yn galw am i fwy gael ei wneud i'w helpu.

Rydym hefyd yn nodi bod y trawma cynnar a brofwyd gan lawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu arwain at anawsterau emosiynol, ymddygiadol, addysgol a datblygiadol sylweddol. Deallwn fod y math hwn o drawma cynnar yn unigryw i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Byddem yn disgwyl i unrhyw riant da ddarparu cymaint o gymorth therapiwtig â phosibl i'w blant ei hun. Mae gan y wladwriaeth - a dynnodd y plant hyn oddi ar eu rhieni geni ac, yn ei dro, a ddaeth yn rhiant corfforaethol iddynt - gyfrifoldeb i wneud yr un peth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae popeth rydym ni wedi'i glywed yn dangos ei bod yn methu â gwneud hynny.

[128] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023; tudalen 15; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 2 Matthew Lewis
[129] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Cadernid Meddwl', Ebrill 2018, tudalen 114
[130] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 340-343

Mae hyn yn fethiant llwyr i rianta'n gorfforaethol, ac yn arwydd clir i ni nad yw rhianta corfforaethol fel y mae yng Nghymru ar hyn o bryd yn addas i'w ddiben.

Mae ein diwygiad radical 3 yn nodi ein huchelgais cyffredinol ar gyfer rhianta corfforaethol. Mae'n cynnwys hawl statudol i ofal therapiwtig sy'n ystyriol o drawma ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Rhaid i'r gofal therapiwtig hwnnw fod yn wasanaeth annibynnol ac ar wahân i'r gwasanaethau presennol, megis CAMHS. Ni ddylai plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal orfod bod ar restri aros am wasanaethau iechyd meddwl na allant eu cefnogi'n briodol. Rhaid i'r cymorth hwn gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol sydd â dealltwriaeth ddofn o effaith barhaol trawma. Rhaid iddo fod ar gael i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal o'r eiliad y mae'n mynd i mewn i'r system ofal hyd at - o leiaf - pan fydd yn peidio â chael ei ddiffinio fel rhywun sy'n gadael gofal. A rhaid iddo gael ei ddarparu'n awtomatig, fel dyletswydd statudol ar rieni corfforaethol y plentyn.

**Argymhelliad 5.** Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gael gwasanaeth cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol. Dylai fod ganddynt yr hawl statudol i gael eu hanghenion wedi'u hasesu yn gyfnodol ac i'r anghenion hynny gael eu diwallu. Dylai'r gwasanaeth hwnnw fod ar gael o'r pwynt lle maent yn cael eu tynnu oddi ar eu rhieni geni i o leiaf y pwynt lle maent yn peidio â chael eu diffinio fel ymadawyr gofal. Dylai fod ar wahân ac yn annibynnol ar y gwasanaethau iechyd meddwl presennol, a dylai arbenigo mewn cymorth iechyd meddwl sy'n ystyriol o drawma.

## Casglu data

**74.** Mae'r diffyg data cadarn sydd wedi'i gasglu am wahanol agweddau ar y system ofal, ei gweithlu, a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn thema gyson ar draws ein prosesau casglu tystiolaeth.

**75.** Ar ddechrau ein hymchwiliad, edrychodd Ymchwil y Senedd ar y data sydd ar gael ar bob agwedd ar y system ofal, plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a'r gweithlu. Ystyriodd Ymchwil y Senedd Gyfrifiad Plant sy'n derbyn Gofal Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar ddata lefel plentyn unigol dienw sy'n cael ei dynnu o systemau gweinyddol awdurdodau lleol a'i ddychwelyd yn electronig i'r tîm Casglu Data yn Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir y data hwn yn flynyddol. Ystyriodd hefyd ddata gan Gofal Cymdeithasol Cymru, awdurdodau lleol, ac

ystadegau a gyhoeddwyd gan ddarparwyr trydydd sector. Cafodd y rhain eu crynhoi a'u cyhoeddi mewn briff ystadegol.[131]

**76.** Sylwodd Ymchwil y Senedd fod bylchau sylweddol yn y data yng Nghymru. Mae faint o ddata swyddogol sydd wedi ei gyhoeddi yng Nghymru am blant mewn gofal wedi lleihau dros amser. Mae rhywfaint o ddata, megis y defnydd o eiriolaeth, yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru ond nid yw'n cael ei gyhoeddi. Rydym hefyd wedi nodi bod llawer mwy o ddata wedi'i gasglu a'i gyhoeddi yn Lloegr nag yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2023, aethom ati i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog er mwyn tynnu ei sylw at y rhestr gynhwysfawr o ddata sydd ar goll.[132]

**77.** Ategwyd ein pryderon yn y dystiolaeth. Mae data'n cael ei gasglu'n anghyson, neu nid yw'n cael ei gasglu'n dryloyw.[133] Roedd ymchwilydd o Brifysgol Caerdydd yn gresynu bod Cymru gam ar ei hôl hi o gymharu â'r ymchwil yn Lloegr oherwydd, yn Lloegr, gallwch gysylltu data yn 19 oed rhwng pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal gyda'u haddysg a'u cyflogaeth yn 19 oed. Nid oes gennym y data hwnnw yng Nghymru o 2016 ymlaen.[134] Awgrymodd Prifysgolion Cymru y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu data wedi'i ddilysu ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn yr un modd ag y mae'n darparu data ar blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.[135] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywed y Rhwydwaith Maethu

> *"Data collection is not consistent or transparent across Wales. Data collection is not aligned to the Social Services and Wellbeing Act expectations. Any radical reform should have a robust set of impact measurements implemented at the same time. If we are to have ambition for our care experienced population, we need to know what difference we are making and what more we can do."*[136]

**78.** Yn ôl rhai rhanddeiliaid a fu'n rhan o weithgor gyda swyddogion Cymru a llywodraeth leol i edrych ar wella data blynyddol y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn sgil y gwaith.[137]

[130] Senedd Cymru, 'Plant sydd â Phrofiad o Ofal: Briff Ystadegol', Ionawr 2023
[132] Senedd Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol', 30/03/23
[133] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 9; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Y Rhwydwaith Maethu
[134] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 301
[135] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[136] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Y Rhwydwaith Maethu
[137] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 12

**79.** Mae'r bylchau mwyaf arwyddocaol yn y data a gyhoeddwyd y daethom ar eu traws yn ystod yr ymchwiliad wedi'u nodi isod. Mae llawer o'r data hwn yn cael ei gyhoeddi a'i gasglu'n rheolaidd yn Lloegr.[138]

### Cyffredinol

- Data am blant sy'n derbyn gofal: cyfraddau troseddu, camddefnyddio sylweddau, canlyniadau iechyd a datblygiad, iechyd emosiynol ac ymddygiadol, plant ar goll heb ganiatâd.
- Gweithlu cymdeithasol plant: nifer y gweithwyr cymdeithasol, nifer y dechreuwyr a nifer y rhai sy'n gadael, cyfradd swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol, cyfradd trosiant gweithwyr cymdeithasol, absenoldeb salwch gweithwyr cymdeithasol, nifer y gweithwyr asiantaeth, llwythi achosion ar gyfartaledd.

### Cyn gofal

- Dywedodd NYAS a CAFCASS Cymru wrthym nad oes modd gwybod i sicrwydd faint o fenywod sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael plant a faint o'r plant hynny sy'n mynd drwy brosesau amddiffyn plant.[139] Canfu'r data a ddarparwyd i'r Pwyllgor Deisebau fod traean o'r holl rieni a oedd wedi bod mewn gofal yn Abertawe ym mis Mawrth 31 2022 wedi cael o leiaf un plentyn wedi'i dynnu o'u gofal,[140] ond pan wnaethom ni ofyn am yr un data ar lefel genedlaethol, dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym nad oedd yn gallu ei ddarparu.[141]
- Dywedodd Barnwr Cyswllt Is-adran Deuluoedd Cymru bod anghysonderau o ran sut mae ystadegau am orchmynion gofal yn cael eu cofnodi:
- "for example, if there were three siblings, there were three separate cases, and so you've got to compare that with, if it's another local authority, would it just be one case?"[142]
- Dywedodd NYAS wrthym fod 'camdriniaeth' ac 'esgeulustod' yn cael eu cysylltu â'i gilydd fel rhesymau pam mae pobl yn cael eu rhoi mewn

[138] Helen Hodges a Dan Bristow, 'Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru', Gorffennaf 2019, tudalennau 14-15
[139] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 163; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 46 CAFCASS Cymru
[140] ADSS Cymru, 'Tystiolaeth penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan i'r Pwyllgor Deisebau', 18/05/22
[141] ADSS Cymru, 'Llythyr gan Gadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS) - 16 Chwefror 2023', 16/02/23
[142] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 130

gofal. Dylid eu gwahanu, gan fod esgeulustod yn benodol yn ymwneud â thlodi.[143]

**Mewn gofal**

- Addysg a deilliannau cyn-16: anghenion dysgu ychwanegol, cyrchfannau o'r ysgol, absenoldeb o'r ysgol, gwaharddiadau parhaol ac ataliadau o'r ysgol, y math o ysgol.
- Gwasanaethau eiriolaeth: nifer y plant a phobl ifanc sy'n ymgymryd â gwasanaethau eiriolaeth o gymharu â'r niferoedd sydd â'r hawl i wneud hynny a data arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau eiriolaeth.
- Dywedodd y Rhwydwaith Maethu wrthym nad yw casglu data yn galluogi dadansoddiad i ddeall a ydym yn gosod plant lle maent yn sicrhau parhad a sefydlogrwydd, ac mewn lleoliad da sy'n cyd-fynd â'u cynllun gofal a chymorth.[144]
- Dywedodd Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a'r Arsyllfa Hawliau Dynol Plant wrthym nad oes data ar nifer y ceisiadau Gorchymyn Amddifadu o Ryddid sy'n effeithio ar blant Cymru.[145]
- Dywedodd NYAS a Chymdeithas y Plant wrthym nad oes data cadarn ynghylch cyfweliadau dychwelyd plant sydd ar goll.[146]
- Defnyddio llety heb ei reoleiddio ar gyfer plant mewn gofal, gan wahaniaethu'n glir rhwng amgylcheddau rheoleiddiedig cefnogol o ansawdd a llety arall a allai fod yn amhriodol (megis gwely a brecwast, AirBnBs ac ati).

**Ar ôl gofal**

- Gadael gofal: ystadegau cyffredinol ar bobl ifanc sy'n gadael gofal, gan gynnwys niferoedd hirdymor mewn addysg, cyflogaeth, hyfforddiant. Hefyd ar goll mae data sy'n ymwneud â nifer y bobl ifanc sydd wedi gadael gofal sy'n ddigartref neu yn y ddalfa.

[143] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 226-228
[144] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 41
[145] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 14 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant
[146] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 226-228; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 43 Cymdeithas y Plant

- Dywedodd Voices From Care wrthym nad ydynt yn gwybod yn bendant a yw'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn gweithio gan nad yw'r data yno.[147]

- Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym fod datblygu ymyriadau effeithiol i gefnogi myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn y brifysgol yn cael eu llesteirio oherwydd diffyg data dibynadwy.[148]

**80.** Fodd bynnag, rhybuddiodd CLASS Cymru efallai na fydd rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal eisiau rhannu eu statws gofal.[149] Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein gwaith ymgysylltu â phobl ifanc, a dywedodd llawer ohonynt wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel ystadegyn neu eu trin yn wahanol oherwydd eu statws gofal, o bosibl oherwydd y stigma a'r gwahaniaethu a brofant (a ystyrir yn fanylach ar dudalen 3341).

**81.** Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru am ei barn ynghylch a oedd casglu data yng Nghymru yn ddigon cadarn, neu a oedd bylchau mewn data yn cuddio problemau ac yn ein hatal rhag datblygu atebion. Cyfaddefodd swyddog ei fod wedi'i "synnu" gan ddata yn ymwneud â rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a'i fod yn rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> *"We have three annual data collections, two of which are at the individual level and cover all children receiving care and support, and another that focuses specifically on children who are looked after. There's also a large data collection of local authority performance and activity, which includes over 50 data items on children specifically. […] I don't really think there is a lack of data in Wales, or that it's hiding poor experiences, for example."*[150]

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #4**

**Rhoi dyletswyddau casglu data ffurfiol ar yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i gasglu data cynhwysfawr yn flynyddol o leiaf ar y system ofal, ac o leiaf bob chwarter ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Dylai'r data gael ei wirio a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru - yn flynyddol o leiaf ar gyfer data sy'n ymwneud â'r system ofal, ac yn**

[147] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 222
[148] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 345
[149] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 307
[150] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 210 a 365

**chwarterol ar gyfer data sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol - at ddibenion datblygu, gweithredu a gwerthuso polisi.**

Mae data cadarn, cywir a dibynadwy ar y system ofal yn hanfodol at ddibenion monitro, gwerthuso a datblygu polisi.

Er gwaethaf sicrwydd y Dirprwy Weinidog, mae'n amlwg bod bylchau sylweddol yn y data sy'n cael ei gasglu a'i gofnodi fel mater o drefn yng Nghymru. Mae hyn yn fwy rhwystredig pan fo llawer o'r data sydd ar goll - os nad y data hwnnw i gyd - yn cael ei gyhoeddi fel mater o drefn gan Lywodraeth y DU ar gyfer gofal plant yn Lloegr. Gallai – a dylai - Llywodraeth Cymru fod yn casglu a gwirio'r data hwn gan dynnu'n rheolaidd ar y ffynonellau data cyfoethog o awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a CAFCASS Cymru a'r sefydliadau trydydd sector hynny sy'n derbyn symiau sylweddol o arian cyhoeddus.

Mae'r diffyg gwybodaeth hwn am brofiad plant yn ein gofal yn cuddio hyd a lled y profiadau gwael iawn mewn gofal. Efallai nad yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i osgoi cyhoeddi data i guddio problemau, ond mae hi bron yn sicr mai dyna'r canlyniad yn y pen draw, fel y mae ymateb y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau yn ei ddangos. Ac mae'n anodd gweld sut nad yw annigonolrwydd wrth gasglu data yng Nghymru yn effeithio'n negyddol ar ymchwil academaidd ac, o ganlyniad, y sylfaen dystiolaeth sy'n llywio datblygiad polisi.

Deallwn bryderon rhai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal am ddata yn cael ei gasglu amdanynt o ystyried y stigma maent yn ei brofi. Ein gobaith yw y bydd ein cynigion mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn yn codi ymwybyddiaeth o'r profiad gofal, ac yn lleihau'r stigma mae llawer o blant a phobl ifanc yn ei ddioddef. Ond credwn fod gan ddata cadarn sy'n cael ei gasglu a'i brosesu mewn ffordd sensitif ac yn ddienw y pŵer i wella gofal plant, a bywydau'r plant a'r bobl ifanc niferus sy'n ei brofi.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn canllawiau statudol, neu fel arall, y gofynion ar gyrff cyhoeddus perthnasol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i gasglu a chyhoeddi data ar bob agwedd ar y system ofal, yn ychwanegol at y data sydd eisoes yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys y bylchau data a amlygir yn yr adroddiad hwn. Rhaid ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys academyddion fel mater o flaenoriaeth i lywio'r hyn sydd ei angen. Dylai'r canllawiau fod yn sensitif i bryderon nifer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal am eu statws gofal a'r stigma maent yn ei wynebu, a nodi'r canllawiau diogelu data arfer gorau yn unol â hynny. Dylai'r data gael ei wirio gan Lywodraeth Cymru, a chael ei gyhoeddi mewn fformat hygyrch bob chwarter o leiaf lle mae'n

ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn flynyddol o leiaf ar gyfer yr holl ddata arall.

# 3. Cyn gofal

## Diwygiadau i leihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel.

### Y cylch gofal

#### Cyfran y rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal y mae eu plant eu hunain wedi cael eu tynnu oddi arnynt

**82.** Wrth gasglu ein tystiolaeth, clywsom fod nifer anghymesur o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gweld un neu fwy o'u plant eu hunain yn cael eu cymryd i ofal.[151] Dywedodd academyddion a gweithwyr proffesiynol a fynychodd ddigwyddiad rhanddeiliaid wrthym fod plant rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn destun achosion amddiffyn plant cyn gynted ag y bydd y gwasanaethau statudol yn darganfod bod y fam yn feichiog.[152] Roedd NYAS yn cytuno:

> *"Unfortunately, one of the very clear things we're hearing from all of our parents is that, as care-experienced parents, they are very vulnerable to the fact that, immediately, their babies are placed on the child protection register. What we feel is that that is already stacked against them. So, the minute they discover that they are pregnant, in whichever local authority, the fact is that it flags up that they are care experienced and their child is perceived to be at risk."*[153]

**83.** Cododd NYAS bryderon penodol hefyd am ferched a menywod ifanc sy'n beichiogi tra'u bod yn dal yn y system ofal. Yn eu profiad nhw, mae *pob un* o blant y merched ifanc hynny yn destun achosion amddiffyn plant. Roedd NYAS yn credu bod rhywbeth sylfaenol o'i le os yw pob un plentyn sy'n cael ei eni neu ddim yn cael ei eni i fam sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn destun yr achosion hynny.[154]

**84.** Mae'r data cyfyngedig sydd ar gael (gweler tudalen 52 uchod) yn awgrymu bod rhieni sydd â phrofiad o'r system ofal yn llawer mwy tebygol o gael eu plentyn

---

[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Y Rhwydwaith Maethu; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan
[152] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 8
[153] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[154] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 162

wedi'i dynnu oddi arnynt na rhieni sydd heb brofiad o'r system ofal. Rhoddodd Dr Louise Roberts o'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd dystiolaeth i Bwyllgor Deisebau'r Senedd. Crynhodd ganfyddiadau astudiaeth ymchwil pum mlynedd a gyhoeddwyd yn 2019 yn archwilio'r heriau sy'n wynebu rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal:

> *The research found concerning evidence in respect of outcomes and concerning levels of separation. I mentioned the Wales adoption study, and what we found from that was that one in four birth mothers were recorded as care leavers, and one in five birth fathers. I mentioned the snapshot of parents, and I've got the figures here. We identified 258 parents, 238 children and 44 ongoing pregnancies. I should say that only 20 out of the 22 local authorities worked with me on this phase.* ***We found 26 per cent of children to be separated from both biological parents.****" [Ein pwyslais ni]*

**85.** Ychwanegodd Dr Roberts ei bod yn anodd deall gwir ystyr y ffigurau hyn heb gasglu data yn rheolaidd. Serch hynny, pwysleisiodd gan fod 1% o'r holl blant yn cael eu cofnodi fel rhai sydd mewn gofal, bod y ffaith bod 26% o blant rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal mewn gofal eu hunain yn gwneud synnwyr.[155]

**86.** Mewn ymateb i gais am ddata gan Bwyllgor Deisebau'r Senedd, casglodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ddata am nifer y rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal y mae eu plant wedi'u tynnu oddi arnynt yn awdurdod lleol Abertawe yn benodol. Roedd 7 o bob 21 o rieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal (33%) yn yr awdurdod lleol wedi cael o leiaf un plentyn a oedd wedi'i dynnu oddi arnynt.[156] Aethom ati wedyn i ofyn i'r ADSS am ddata cenedlaethol i weld a oedd y darlun yn Abertawe yn cynrychioli Cymru gyfan. Dywedwyd wrthym nad ydynt yn casglu'r wybodaeth hon.[157]

> "Information about care experienced parents is not routinely captured by CAFCASS Cymru. However, we recognise the value in doing so and are considering ways in which we could do this going forward."[158]

## Heriau sy'n wynebu rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**87.** Yn ôl llawer o rieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal a sefydliadau trydydd sector a gyfrannodd at ein hymchwiliad, mae cyfraddau'r rhieni sydd â

155 Y Pwyllgor Deisebau, 21/03/2022, Cofnod y Trafodion, paragraff 18
156 ADSS Cymru, 'Tystiolaeth Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan i'r Pwyllgor Deisebau', 18/05/22
157 ADSS Cymru,'Care Experienced Birth Parents', 16/02/23
158 Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 46 CAFCASS Cymru

phrofiad o fod mewn gofal ac sydd wedi gweld un neu fwy o blant yn cael eu tynnu oddi arnynt yn dangos bod y gwasanaethau statudol fel rhieni corfforaethol wedi methu â rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal i fod yn rhieni da. Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, siaradodd rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal â ni am gylchoedd gofal, a sut y credent fod y system ofal yn eu methu nhw a'u plant. Credent fod y gwasanaethau cymdeithasol o'r farn eu bod yn rhieni 'anaddas' gan nad oeddent wedi cael modelau rôl rhianta cadarnhaol. Dywedodd rhai menywod ifanc wrthym fod hyn yn golygu eu bod yn cael eu cosbi ddwywaith: yn gyntaf, fel dioddefwyr penderfyniadau yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol eu hunain wedi'u gwneud am eu bywydau pan oeddent mewn gofal (e.e. effaith bod yn agored i fodelau rôl rhianta gwael mewn lleoliadau maethu arnynt) ac, yn ail, fel darpar rieni a oedd eisiau bywyd gwahanol i'w plant eu hunain.[159] Dywedodd un arall wrthym fod profiad o'r system ofal yn cael ei ddefnyddio fel arf yn erbyn rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[160] Roedd eraill, megis Voices from Care, yn rhannu'r safbwyntiau hynny:

> *"we should never be at a point where we are questioning the parenting capabilities of the children in our care, because we haven't given them skills to be good."*[161]

**88.** Yn ogystal â methu ag addysgu sgiliau rhianta i blant, clywsom hefyd fod y system ofal yn tynnu ffynonellau o gymorth ymarferol ac emosiynol oddi ar rieni geni. Gall hyn gyfrif yn eu herbyn yn ystod achosion llys. Dywedodd rhai mamau sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi am beidio â bod â rhwydwaith cymorth o'u cwmpas. Teimlent mai'r rheswm am hyn oedd eu bod wedi cael eu tynnu oddi ar eu rhieni eu hunain ac wedi symud o gwmpas llawer rhwng lleoliadau pan oeddent yn blant. Dywedodd rhiant geni arall sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym nad oes ganddi fynediad bob amser at ddogfennaeth swyddogol am ei bywyd, a'i bod yn teimlo bod hynny'n adlewyrchu'n wael arni pan fydd yn ymgysylltu â'r gwasanaethau statudol fel rhiant geni.[162]

**89.** Yn ôl rhai rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ar ôl iddynt feichiogi, trodd y system ei sylw oddi arnynt hwy ac at y plentyn, er gwaethaf y dyletswyddau sydd gan awdurdodau statudol tuag atynt fel plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Teimlent nad yw'r llysoedd, y gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn poeni am eu lles. Dywedodd un

---

[159] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 12
[160] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 3
[161] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 166. Am safbwyntiau tebyg gweler: Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 6 Steve Phillips
[162] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 12

fam wrthym mai dim ond gwrthrychau yw rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[163] Roedd NYAS yn cytuno, gan ddweud wrthym fod y rhiant ifanc yn diflannu unwaith y bydd plentyn sy'n destun gorchymyn gofal yn beichiogi.[164]

## Rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal

**90.** Roedd bron pob un o'r rhieni geni a oedd â phrofiad o fod mewn gofal y bu i ni siarad â nhw yn galw am wasanaethau cymorth cofleidiol dwys i'r holl rieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y gwasanaethau cymdeithasol yn tueddu i gamu i'r adwy pan fo plentyn yn cael ei dynnu oddi arnynt, yn hytrach na'u bod yn camu i'r adwy yn ddigon cynnar i atal y plentyn rhag cael ei dynnu oddi arnynt. Roedd pwysigrwydd cymorth cynnar i deuluoedd yn thema a gododd dro ar ôl tro yn ein gwaith ymgysylltu.[165]

**91.** Cafwyd galwadau tebyg am gymorth i rieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal i'w helpu i gadw eu plant, gan gynrychiolwyr cyrff cyhoeddus. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym:

> *"Care leavers should receive additional support during pregnancy and when they become parents so that healthy relationships can be established with their children to benefit both parents and infants."*[166]

Roedd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno bod gwasanaethau cymorth cofleidiol dwys fel Project Unity, Jig-So a Babi a Fi yn amlwg yn cael effaith ar y grŵp yna o blant yn gallu aros yng ngofal eu teuluoedd, ac yn ddatblygiad sydd wir i'w groesawu.[167] Fodd bynnag, dywedodd NYAS wrthym mai dim ond pum gweithiwr prosiect sy'n gweithio ar draws Cymru gyfan sydd gan Project Unity i weithio gyda thros 300 o fenywod ifanc, a bod hynny ond yn crafu'r wyneb.[168]

**92.** Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Deisebau yn ystod ei ymchwiliad yn 2022 i'r cymorth ar gyfer rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gyson â'n canfyddiadau. Yn ei adroddiad ym mis Mawrth 2023, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru deddfwriaeth i sicrhau bod gan bob rhiant sydd wedi bod mewn gofal hawl statudol i wasanaeth cefnogi ataliol, amlap, dwys i gadw teuluoedd efo'i*

[163] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 19
[164] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 28
[165] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 11
[166] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 36 Iechyd Cyhoeddus Cymru
[167] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[168] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 62

*gilydd, pryd bynnag fu eu profiad o ofal. Dylai gynnwys eiriolaeth arbenigol i rieni i'w cynorthwyo i ffendio'i ffordd o amgylch y system ofal cymdeithasol a'r llysoedd teuluol, a'i fodelu ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Prosiect Undod."*[169]

**93.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda ni, canmolodd y Dirprwy Weinidog Project Unity NYAS a Babi a Fi Barnardo's yn benodol am wneud cyfraniad gwerthfawr at ofal i famau sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwasanaethau fel y rhai sy'n cael eu cyflwyno ledled Cymru.[170] Mae'r 'datganiad Diwygio Radical', a lofnodwyd gan y Prif Weinidog a phlant mewn gofal ym mis Mai 2023, yn cynnwys y 'weledigaeth' ganlynol:

*"Babies and children will never be subject to child protection action just because their mother or father is care experienced."*[171]

**94.** Mae ein diwygiad radical isod yn gam cadarn tuag at wireddu'r geiriau hyn.

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #5**

**Yr hawl statudol i gymorth cofleidiol, dwys ar ffiniau gofal ar gyfer yr holl rieni geni sydd wedi bod mewn gofal er mwyn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o'u gofal, gan gynnwys eiriolaeth arbenigol i rieni i lywio'r systemau gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Dylid modelu'r cymorth ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel Project Unity NYAS, a dylai fod ar gael o'r sgan 12 wythnos o feichiogrwydd (neu'r pwynt cynharaf ar ôl 12 wythnos lle mae beichiogrwydd hyfyw yn cael ei gadarnhau). Os yw plentyn yn cael ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gefnogi'r rhieni geni i ddod i delerau â'u colled.**

Mae rhai o'r straeon rydym wedi'u clywed gan rieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn ddirdynnol ac yn emosiynol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhieni hynny am rannu eu straeon gyda ni; byddant yn aros gyda ni am byth.

Mae'n ein harswydo y bydd tua 25% o'r holl bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael o leiaf un plentyn wedi'i dynnu oddi arnynt, pan fo plant

[169] Senedd Cymru,'Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal', Mawrth 2023, tudalen 8
[170] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 198 a 202
[171] Llywodraeth Cymru, 'Uwchgynhadledd Diwygio Radical: Datganiad', 18/05/23, tudalen 5

mewn gofal yn cynrychioli 1% o'r boblogaeth ehangach. Mae tynnu cymaint o blant oddi ar rieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddarlun damniol o system ofal sydd wedi methu plant mor ofnadwy, i'r graddau bod y llysoedd hynny, pan fydd y plant hynny wedi tyfu i fyny, yn eu hystyried yn rhieni anaddas.

Mae gwasanaethau fel Project Unity NYAS yn darparu cymorth eiriolaeth arbenigol, sy'n hanfodol bwysig i unrhyw riant sy'n llywio'r system ofal. Ond maent hefyd yn darparu cymorth cofleidiol cyfannol, dwys sy'n canolbwyntio ar y teulu a pherthnasoedd. Y cymorth *hwnnw* mae'r rhieni y bu i ni siarad â nhw yn ei werthfawrogi'n fwy na phob math arall o gymorth.

Rydym yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru am ariannu'r Project Unity ar sail genedlaethol. Roedd yn gam uchelgeisiol i'r cyfeiriad cywir. Ond rydym yn cytuno gyda'r Pwyllgor Deisebau: dylai fynd ymhellach, drwy wneud y math yna o gymorth yn hawl statudol i bob rhiant geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal. A dylai ddechrau yn gynt – ar ôl 12 wythnos o feichiogrwydd. Ac os yw plentyn yn cael ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gefnogi'r rhieni wrth iddynt alaru.

Os yw hyn yn ymddangos yn radical, ni ddylai. Nid yw'n wahanol i'r cymorth y byddem i gyd yn ei ddisgwyl i unrhyw riant da ei ddarparu ar gyfer eu plant eu hunain.


**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob rhiant geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl statudol i gael cymorth cofleidiol dwys er mwyn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o'u gofal. Dylai'r cymorth gynnwys eiriolaeth rhieni arbenigol i lywio'r systemau gofal cymdeithasol a llysoedd teulu, a dylid ei fodelu ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis Project Unity NYAS. Dylai'r cymorth fod ar gael o'r sgan 12 wythnos o feichiogrwydd (neu'r pwynt cynharaf ar ôl 12 wythnos lle mae beichiogrwydd hyfyw yn cael ei gadarnhau). Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gefnogi'r rhieni geni i ddod i delerau â'u colled.

## Ffactorau Risg

### Ffactorau sy'n gysylltiedig â phlant yn cael eu rhoi mewn gofal

**Ffigur 3.1: Ffactorau yn ymwneud â rhieni plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2021**

***Ffynhonnell: StatsCymru,*** *'Ffactorau'n ymwneud â rhieni plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn'*




**95.** Mae ymchwil yn dangos bod trais domestig, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac anableddau dysgu i gyd yn rhan o'r darlun cymhleth sy'n esbonio pam mae plant yng Nghymru yn mynd i ofal.[172]

**96.** Fodd bynnag, wrth gasglu ein tystiolaeth, tlodi oedd y rheswm a nodwyd amlaf pam yr oedd plant yn cael eu tynnu oddi ar eu rhieni. Yn ôl ymchwilwyr iechyd cyhoeddus ym Mhrifysgol Lerpwl, yn Lloegr rhwng 2015 a 2020, roedd cynnydd o 1% mewn tlodi plant yn gysylltiedig â 5 o blant ychwanegol o bob 100,000 yn mynd i ofal.[173] Dywedodd Barnwr Cyswllt Is-adran Deuluoedd Cymru mai tlodi oedd yr her fwyaf a oedd yn wynebu teuluoedd, ac y bydd tlodi cynyddol yn arwain at fwy o blant mewn gofal.[174] Cawsom ein hannog gan Arolygiaeth Gofal Cymru i feddwl am DLODI ym mhob polisi [eu priflythrennau nhw], a dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym fod teuluoedd sy'n byw mewn tlodi neu'n profi siociau economaidd nad ydynt yn cael eu lliniaru'n ddigonol gan gymorth lles

[172] Helen Hodges a Dan Bristow, 'Dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y cyfraddau uchel o ofal yng Nghymru', Gorffennaf 2019, tudalennau 4-5
[173] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 9 Ms Davara Bennett, Dr Gabriella Melis, Yr Athro David Taylor Robinson, ymchwilydd iechyd cyhoeddus, Prifysgol Lerpwl
[174] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 97

mewn mwy o berygl o fod â phlant sy'n cael eu hesgeuluso, eu niweidio neu eu cam-drin[175]. Ysgrifennodd yr NSPCC fel a ganlyn:

> *"Poverty has been described as 'the wallpaper of the social care system', in that is it is too big to tackle and too familiar to notice. Reducing poverty is an essential lever in the pursuit of ensuring families can stay together, when it is safe for the child to do so."*[176]

Cyflwynodd sefydliadau ac unigolion eraill safbwyntiau tebyg, gyda llawer yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu i leihau neu drechu tlodi er mwyn lleihau cyfraddau gofal.[177]

**97.** Cafodd cam-drin domestig hefyd ei godi gan lawer fel rheswm pam mae plant yn cael eu cymryd i ofal. Roedd rhai o'r menywod y buom yn siarad â nhw wedi profi camdriniaeth gorfforol, emosiynol a rhywiol gan dad eu plentyn, neu gan bartneriaid blaenorol. Roedd y menywod hyn yn teimlo bod y trais domestig a brofwyd ganddynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wedi cyfrannu at eu plant yn cael eu cymryd i ofal, ac nad yw gwasanaethau statudol yn deall effaith dreiddiol trais domestig ar fenywod.[178] Yn ôl arolwg diweddar o weithwyr cymdeithasol ac arweinwyr yng Nghymru, roedd 78.6% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo bod cam-drin domestig yn sbardun i gynyddu cyfraddau gofal yng Nghymru, yn fwy nag unrhyw ffactor arall.[179] Mae'r data a ddarparwyd i ni gan staff prosiect Reflect Barnardo's hefyd yn dangos bod 75% o'r mamau yr oedd eu plant wedi'u tynnu oddi arnynt y buont yn gweithio gyda nhw wedi profi trais domestig.[180] Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru fod cam-drin domestig yn rheswm cyffredin pam mae plant yn mynd i mewn i'r system ofal, a'i bod yn hanfodol bod ymyrraeth ac atal yn gallu digwydd cyn gynted â phosibl cyn cyrraedd pwynt argyfwng.[181]

**98.** Roedd peth o'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y gallai hanes teulu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn ffactor o bwys wrth benderfynu a fydd plentyn yn cael ei dynnu oddi arnynt. Roedd hon yn farn arbennig o gyffredin

---

[175] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 36 Iechyd Cyhoeddus Cymru
[176] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC), tudalen 8
[177] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 176; PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 192 a 285; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 40 Plant yng Nghymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 16 Platfform
[178] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 16; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 4
[179] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Gwasanaethau cymdeithasol a chyfraddau gofal plant yng Nghymru: Arolwg o'r sector', tudalen 12
[179] Senedd Cymru, 'Plant sydd â Phrofiad o Ofal: Briff Ystadegol', Ionawr 2023, tudalen 9
[181] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 35 Cymorth i Ferched Cymru

ymhlith rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[182] Yn ôl rhai gweithwyr proffesiynol yn y trydydd sector y buom yn siarad â nhw, os cymerir un plentyn rhieni i ofal, o'u profiad hwy, bydd ail blentyn yn wynebu risg uchel o gael ei gymryd i ofal hefyd.[183]

**99.** Yn ôl Llywydd yr Is-adran Deuluoedd, Syr Andrew McFarlane, mae anabledd dysgu yn ffactor pwysig sy'n esbonio pam nad yw teuluoedd yn gallu ymdopi'n ddigonol neu'n ddiogel â'u plant.[184] Clywsom dystiolaeth gan Anabledd Dysgu Cymru y gallai niwroamrywiaeth rhieni fod yn ffactor risg hefyd. Nodwyd y canlynol ganddynt:

> *"People with a learning disability often are under special scrutiny compared to the rest of the population when they become parents. Many are often already in contact with social services and the challenges they face as parents are often treated as more significant. Stigma, stereotyping and negative societal attitudes towards people with a learning disability and their ability to parent safely also contribute to increased levels of scrutiny and high levels of child removal. As a result, people with a learning disability who have children will often live in constant fear of losing their children."*

Aethant ymlaen i ddadlau bod menywod ag anabledd dysgu hefyd yn wynebu risg uwch o gael eu targedu gan ddynion sydd â hanes o drais domestig a/neu gam-drin plant, sy'n golygu eu bod yn wynebu risg uwch o gael eu plant wedi'u tynnu oddi arnynt am resymau sy'n gysylltiedig â thrais domestig fel y nodir uchod. Galwodd Anabledd Dysgu Cymru ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi a gweithredu canllawiau y mae eisoes wedi'u comisiynu gyda'r nod o helpu gweithwyr proffesiynol i gefnogi rhieni sydd ag anabledd dysgu ac i leihau faint o'u plant sy'n cael eu cymryd i ofal.[185]

### Gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar ffiniau gofal

**100.** Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn uchel ar yr agenda wleidyddol ers ymrwymiad personol y Prif Weinidog yn 2018 i leihau nifer y plant sydd mewn gofal.[186] Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "ddarparu cymorth

[182] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 12
[183] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 13
[184] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 94
[185] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 37 Anabledd Dysgu Cymru
[186] Mark Drakeford, 'Mark Drakeford for leader', Tachwedd 2018, tudalen 31

arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal."[187]

**101.** Clywsom gefnogaeth gyffredinol gan rieni geni a gweithwyr proffesiynol i wasanaethau sy'n gweithio gyda theuluoedd i ddarparu help i oresgyn heriau fel trais domestig, iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau a hyd yn oed help i liniaru effaith tlodi. Pwysleisiodd llawer, gan gynnwys rhieni geni, fod y math yma o gymorth yn hanfodol er mwyn lleihau nifer y plant mewn gofal.[188] Cafodd plant rhai o'r menywod ifanc y gwnaethom ni gyfarfod â nhw eu dychwelyd i'w gofal ar ôl iddynt dderbyn cymorth. Roedd eraill wedi gallu cadw plant dilynol yn eu gofal.[189]

**102.** Nid oedd y dystiolaeth yn cyfeirio at unrhyw un model gwasanaeth penodol (er y soniwyd am gynlluniau presennol Babi a Fi Barnardo's a Jig-So yn Abertawe fel rhai arbennig o effeithiol[190]), ond roedd consensws cyffredinol y dylid defnyddio dull amlasiantaethol, gyda phartneriaid ar draws sefydliadau yn cydweithio i ddiwallu anghenion pob teulu unigol.[191] Dylai hyn gynnwys cymorth i dadau, sy'n aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt.[192] Clywsom fod y gwasanaethau hyn yn anghyson ar draws Cymru ar hyn o bryd, neu ddim ar gael o gwbl mewn rhai ardaloedd.[193] Clywsom alwadau hefyd am i'r gwasanaethau ddechrau'n gynnar - yn sicr yn ystod blynyddoedd cynnar y plentyn, a hyd yn oed cyn i'r plentyn gael ei eni.[194]

**103.** Mae nifer o rwystrau i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar ffiniau gofal effeithiol i deuluoedd ledled Cymru. Nid yw'n syndod i ni glywed bod cyllid yn un - absenoldeb cyllid yn gyfan gwbl, a chyllid tymor byr - y dywedodd y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant wrthym sy'n arwain at

---

[187] Llywodraeth Cymru, 'Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', Rhagfyr 2021, tudalen 3
[188] PPIA, 17/11/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 64; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 4 a 18; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 12 Grŵp Resilience; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
[189] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 6-7 ac 17; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 4
[190] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC); PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023
[191] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 58; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 20 Gweithredu dros Blant; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 33 Llamau; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 9 Ms Davara Bennett, Dr Gabriella Melis, Yr Athro David Taylor Robinson, ymchwilydd iechyd cyhoeddus, Prifysgol Lerpwl; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 4 TACT Fostering
[192] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 20; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 4
[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Y Rhwydwaith Maethu; CEC 42 Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 13 Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 35 Cymorth i Ferched Cymru
[194] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 41 Tystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS); Tystiolaeth ysgrifenedig, Platfform CEC 16

brosiectau diddorol ac addawol yn troi'n ychwanegiadau at wasanaethau craidd.[195] Fodd bynnag, pwysleisiodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol bwysigrwydd gwasanaethau ataliol, gan ddadlau, am bob £1 sy'n cael ei gwario i ateb y galw statudol, y dylid gwario £2 yn ychwanegol ar wasanaethau ataliol i wrthdroi'r sefyllfa bresennol.[196]

**104.** Rhoddwyd sylw hefyd i argaeledd a hyfforddiant staff fel rhwystr sylweddol.[197] Amlygodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain fod gwerthuso cynlluniau ymyrraeth gynnar yn effeithiol hefyd yn bwysig, er mwyn sicrhau bod modd cyflwyno'r modelau gwasanaeth cywir ledled Cymru:

> *"there are some extraordinarily innovative approaches in different parts of Wales that are helping to support people and young people—the edge of care, for example… But, I wonder whether some of those services have the rigorous evaluation and research around them to be able to provide the evidence for those services being expanded or delivered in other areas…".*[198]

**105.** Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sy'n sicrhau cymorth cyffredinol i deuluoedd blynyddoedd cynnar yn yr ardaloedd daearyddol mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw wedi'i thargedu'n benodol at deuluoedd sydd ar ffiniau gofal, ac nid yw ar gael ledled Cymru chwaith. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a fyddai Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gyflwyno prosiectau ymyrraeth gynnar llwyddiannus ledled Cymru, ac yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â chyllid tymor byr. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cytuno bod angen mwy o'r prosiectau hyn arnom a bod eu hangen ledled Cymru. Esboniodd swyddog o Lywodraeth Cymru eu bod yn cynllunio cynhadledd arfer gorau ym mis Mai neu Fehefin 2023, i adeiladu ar rai rhaglenni cryf iawn ledled Cymru, yn enwedig Reflect Barnardo's, ac edrych ar sut yr ydym yn ehangu'r rheini wrth symud ymlaen.[199]

---

[195] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 13 Canolfan Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE); PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 10; PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 59
[196] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 38 Tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)
[197] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 26 Penny Jones, Cynghorydd Sir; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
[198] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 60
[199] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion , paragraffau 201-208

## 'FDAC' - y llys datrys problemau

**106.** Mae'r Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yn ddewis arall yn lle achosion gofal traddodiadol. Mae'n ddull o ddatrys problemau sy'n ceisio cefnogi rhieni geni i oresgyn problemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a ffactorau risg eraill er mwyn atal gorfod tynnu plentyn oddi arnynt. Er gwaethaf enw'r model, mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cefnogi teuluoedd â phroblemau eraill hefyd, megis cam-drin domestig neu iechyd meddwl gwael, ac mae'n canolbwyntio ar y trawma sylfaenol sy'n arwain at ymddygiad problemus.[200] Gall FDACs ddarparu cymorth therapiwtig drwy dîm amlddisgyblaethol yn gyson, law yn llaw â chyfarfodydd rheolaidd gyda'r un barnwr sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig sy'n llywio'r achos.

**107.** Cafodd FDACs eu treialu'n wreiddiol yn Llundain ac, ers hynny, maent wedi cael eu hymestyn i ardaloedd amrywiol yn Lloegr. Yn ôl y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru[201], What Works for Children's Social Care[202] a'r 'Gwerthusiad dros dro o gynllun peilot FDAC Cymru'[203], cafwyd llawer o iteriadau o'r model FDAC safonol sydd wedi'u datblygu dros amser. Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru y cynllun peilot FDAC cyntaf yng Nghymru am ddwy flynedd yn ardaloedd Caerdydd a Bro Morgannwg.[204]

**108.** Mae'r gwerthusiad o gynllun peilot FDAC yng Nghymru yn mynd rhagddo. Ym mis Ionawr 2023, mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Cymru wedi cael 15 o achosion yn ymwneud â 23 rhiant a 19 o blant. Mae 4 o'r achosion hynny wedi dod i'r casgliadau a ganlyn: 2 achos o ailuno, 1 achos o leoli'r plentyn gydag aelod o'r teulu ehangach, ac 1 achos o roi'r plentyn mewn gofal maeth hirdymor.[205] Mae gwerthusiadau o FDACs mewn mannau eraill yn dangos bod teuluoedd sy'n cymryd rhan yn llawer mwy tebygol o gadw gofal o'u plant a rhoi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau o gymharu ag achosion llys safonol.[206] Dywedodd staff FDAC wrthym eu bod yn gweld manteision FDAC eisoes yn eu prototeip peilot.[207]

**109.** Mae tystiolaeth anecdotaidd hefyd yn awgrymu bod teuluoedd sy'n mynd drwy FDAC yn gwerthfawrogi tegwch gweithdrefnol y broses, a ddiffinnir fel

[200] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 174
[201] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 'Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru', Hydref 2019 tudalennau 193-196
[202] What works for Children's Social Care, 'Family Drug and Alcohol Courts'
[203] Melissa Meindl, Meghan Hosch a David Westlake,'Gwerthusiad o Gynllun Peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru', Awst 2022, Atodiad 3
[204] Melissa Meindl, Meghan Hosch a David Westlake, 'Gwerthusiad o Gynllun Peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru', Awst 2022, tudalen 1
[205] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 11 Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC), Canolfan Arloesi Cyfiawnder
[206] Melissa Meindl, Meghan Hosch a David Westlake, 'Gwerthusiad o Gynllun Peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru', Awst 2022, tudalen 5
[207] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 181

niwtraliaeth, parch, dealltwriaeth a llais. Mae ymdeimlad o degwch gweithdrefnol yn arwain at deuluoedd yn cael perthynas well gydag awdurdodau statudol, a mwy o hyder ynddynt, hyd yn oed os yw'r plentyn yn cael ei roi mewn gofal yn y pen draw. Mae hyn wedi arwain at ychydig iawn o wrandawiadau yn cael eu herio.[208] Mae gan y model gefnogaeth y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant ac aelodau allweddol o'r farnwriaeth.[209]

**110.** Roedd staff FDAC ac ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn glir eu bod am weld y model yn cael ei gyflwyno ar draws awdurdodau lleol.[210] Fodd bynnag, mae rhwystrau i'w gyflwyno yn genedlaethol, gyda chyllid yn un o'r rhwystrau pennaf. Galwodd staff FDAC am fwy o gyllid canolog gan Lywodraeth Cymru, gan ychwanegu y dylai cyllid hefyd ddod o ofal cymdeithasol, iechyd a'r heddlu a throseddu gan fod y manteision yn eang.[211] Clywsom hefyd fod ewyllys da, capasiti ac ymgysylltiad y tîm amlddisgyblaethol lleol ehangach, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, wedi bod yn hanfodol i'r cynllun peilot yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Gallai cyfyngiadau ar lefelau cymorth amlasiantaethol ledled Cymru hefyd fod yn rhwystr i gyflwyno yn y dyfodol.[212]

**111.** Mae cyllid y cynllun peilot yn dod i ben yn 2023, cyn y gwerthusiad terfynol a ddisgwylir ym mis Ionawr 2024. Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru am ei barn ynghylch cyflwyno'r model FDAC ledled Cymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod yn gwbl argyhoeddedig o werth y model llys teulu sy'n datrys problemau a'i fod yn rhywbeth y maent yn awyddus iawn i fynd i'r afael ag ef. Dywedodd wrthym eu bod yn edrych ar ffyrdd o ymestyn y cyllid er mwyn cwblhau'r gwerthusiad, ac yna byddant yn gweld beth sydd gan y gwerthusiad i'w ddweud i weld a allant wneud iddo wasanaethu poblogaeth ehangach yng Nghymru. Ychwanegodd swyddog eu bod yn dysgu gwersi o Loegr, a oedd yn cynnwys rhai FDACs nad oeddent mor llwyddiannus. Dywedodd wrthym eu bod yn ymwybodol o'r dystiolaeth bod hyn yn gweithio, ond bod rhaid sicrhau y nifer cywir o achosion, a bod yr holl asiantaethau partner, gan gynnwys iechyd, yn ymwneud yn helaeth iawn â hyn, ac yn ei weld fel buddsoddiad.[213]

**112.** Mae'r 'datganiad Diwygio Radical', a lofnodwyd gan y Prif Weinidog a phlant mewn gofal ym mis Mai 2023, yn cynnwys y 'weledigaeth' ganlynol:

[208] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 187-189
[209] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 51; PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 205
[210] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 179-181
[211] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 201-202
[212] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 233
[213] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 221-222, 227 a 229

> *"Babies and children will never be subject to child protection action just because their mother or father is care experienced."*[214]

Mae ein hargymhellion isod yn gamau cadarn tuag at wireddu'r geiriau hyn.

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #6**

**Ymestyn ledled y wlad ac ar sail gyffredinol wasanaethau ar ffiniau gofal llwyddiannus, megis Babi a Fi Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni.**

Rydym yn nodi'r consensws llethol ynghylch effaith tlodi ar gyfraddau plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal. Mae'n amlwg bod tlodi yn sbardun sylfaenol i deuluoedd yn chwalu. Mae achosion tlodi plant yn gymhleth ac maent y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn, ac nid yw llawer o'r ysgogiadau i'w lliniaru yn perthyn i Lywodraeth Cymru. Byddai'n ddiofal i ni anwybyddu effaith tlodi, ond ni allwn fynd i'r afael â'i achosion yn yr adroddiad hwn.

Roedd y dystiolaeth a gawsom am y potensial ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar effeithiol i ostwng cyfraddau'r plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal yn rymus. Rydym yn llwyr gefnogi galwadau'r unigolion a'r sefydliadau niferus am ymyrraeth gynnar gyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu ac ymyrraeth gynnar amlddisgyblaethol i fynd i'r afael â'r trawma sylfaenol a all arwain at ymddygiadau teuluol problemus a allai, yn eu tro, os nad ydynt yn cael eu datrys, arwain at blant yn cael eu cymryd i ofal.

Rhaid i'r gwasanaethau ar ffiniau gofal hyn fod ar gael i deuluoedd ledled Cymru fel rhan allweddol o ddull cenedlaethol o gadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Rydym yn cydnabod bod gwerthuso cadarn yn gwneud cyfraniad pwysig at ddeall pa wasanaethau sy'n effeithiol, pam a sut y gellid eu cyflwyno'n ehangach. Rydym yn cydnabod hefyd na fydd pob gwasanaeth yn ddigon effeithiol i gael ei gyflwyno ymhellach, ac mae hyn yn anochel yn golygu y bydd angen ariannu mentrau mwy newydd ar sail tymor byr. Rydym yn cydnabod hefyd y gallai cyflwyno gwasanaeth ymyrraeth gynnar ledled Cymru ymddangos yn gostus yn y tymor byr, a bod llawer o awdurdodau lleol a chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu rhwymedigaethau statudol, heb sôn am fuddsoddi mewn gwasanaethau ar ffiniau gofal ataliol.

[214] Llywodraeth Cymru, 'Uwchgynhadledd Diwygio Radical: Datganiad', 18/05/23, tudalen 6

Ond credwn fod gwasanaethau sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sydd â hanes cadarn o gadw teuluoedd gyda'i gilydd, megis Babi a Fi Barnardo's, yn debygol o gynnig gwerth am arian. Efallai na fyddant yn lleihau baich ariannol gofal plant yn y tymor byr iawn, ond byddant yn gwneud hynny yn y tymor hwy, gan leihau'r gost ariannol enfawr - heb sôn am y trawma emosiynol - o osod plant mewn gofal. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull o ariannu'r gwasanaethau hanfodol hyn sy'n cydnabod yr arbedion hirdymor a deimlir ar draws gwahanol wasanaethau cyhoeddus y tu hwnt i wasanaethau plant.

Mae gwasanaethau ar ffiniau gofal yn hanfodol i effeithiolrwydd ymyriadau allweddol eraill sy'n dibynnu ar gydweithrediad amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol i leihau cyfraddau gofal, megis eiriolaeth (gweler tudalen 74) a'r model FDAC (gweler tudalen 70). Mae'r diwygiad radical hwn yn ddarn allweddol, canolog o'r jig-so ehangach o'r cymorth i deuluoedd agored i niwed.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad cyffredinol, cenedlaethol at wasanaethau ar ffiniau gofal/ymyrraeth gynnar/ataliol llwyddiannus, megis Babi a Fi Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni. Hyd nes y bydd awdurdodau lleol yn gallu adennill manteision cost hirdymor y gwasanaethau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model ariannu cynaliadwy, hirdymor cenedlaethol ar eu cyfer, gan gydnabod eu potensial o ran budd ariannol ar draws gwahanol gyrff gwasanaethau cyhoeddus.

**DIWYGIAD RADICAL #7**

**Yn amodol ar werthusiad llawn llwyddiannus, cyflwyno'r model llys datrys problemau (model y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, neu 'FDAC') ledled Cymru.**

Mae'r hyn a glywsom am y potensial i'r model FDAC leihau cyfraddau'r plant sy'n mynd i mewn i'r system ofal yn addawol iawn. Os bydd y gwerthusiad llawn yn dangos bod hynny'n wir, dylid cyflwyno'r model am y rheswm hwnnw yn unig.

Ond cawsom ein hargyhoeddi hefyd gan y manteision eraill: canfyddiadau rhieni geni bod y broses yn deg, eu bod yn cael eu clywed a'u bod yn cael eu trin â pharch a charedigrwydd. Mae'r gwerthoedd hyn wrth wraidd llawer o'r diwygiadau radical a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn, yn dilyn y sgyrsiau a gawsom gyda rhieni agored i niwed a ddywedodd wrthym, dro ar ôl tro, fod gwasanaethau statudol yn malio amdanynt, neu'n cymryd yr amser i'w helpu cyn gosod eu plant mewn gofal. Mae manteision tegwch gweithdrefnol yn debygol o ymestyn i deuluoedd â pherthnasoedd parhaus gyda gwasanaethau statudol, a hyder ynddynt, gan fod ymwneud cyntaf plant â'r gwasanaethau hynny yn fwy tryloyw, empathig ac yn cael ei sbarduno gan berthnasoedd.

Byddwn yn edrych gyda diddordeb ar astudiaeth ddichonoldeb Llywodraeth y DU sy'n edrych ar gymhwyso'r model llys datrys problemau hwn yn ehangach i ffactorau risg eraill mewn achosion llysoedd teulu yn Lloegr, a disgwylir ei hargymhellion yn 2024.

Mae'r system llysoedd wedi'i chadw yn ôl i Senedd y DU. Fodd bynnag, rydym yn deall nad yw hyn yn rhwystr i gyflwyno'r model FDAC. Er bod llysoedd FDAC yn dibynnu ar gymorth aelodau'r farnwriaeth a chyrff a gedwir yn ôl eraill, mae'r model yn ymwneud mwy â chymorth i deuluoedd mewn llysoedd yn hytrach na newidiadau i'r broses llysoedd ei hun.

Felly, yn amodol ar gael y cymorth hwnnw, a gwerthusiad llwyddiannus o'r cynllun peilot yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymestyn y model ledled Cymru.

Oni bai bod rhesymau cadarn dros nodi fel arall, credwn y dylid cyflwyno un model cyson o FDAC gyda'r nod o gyflwyno un dull cydlynol ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod bod llwyddiant y model FDAC yn dibynnu ar argaeledd ymyriadau cynnar o ansawdd uchel a chynlluniau cymorth i deuluoedd. Rydym yn cynnig cyflwyno'r model FDAC yn llawn ledled Cymru yng nghyd-destun y diwygiadau a nodir mewn mannau eraill yn y bennod hon.

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, aelodau o'r farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gyflwyno model FDAC cyson ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg.

## Cael eu clywed ac eiriolaeth ar gyfer rhieni geni yn y system amddiffyn plant

**113.** Un o'r negeseuon allweddol gan y rhieni geni y buom yn siarad â nhw oedd nad ydynt yn cael eu clywed ac nad ydynt yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn y system amddiffyn plant drwyddi draw: o'r cyfnod cyn achosion hyd at benderfyniadau ynghylch a ddylid tynnu eu plentyn yn barhaol. Clywsom lawer o straeon am rieni geni yn gorfod mynychu achosion llys o bell o'r ysbyty oriau yn unig ar ôl rhoi genedigaeth.[215] Dywedodd eraill wrthym fod gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn anonest gyda nhw, yn gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol yn ddiarwybod iddynt, neu'n cynnal cyfarfodydd cudd amdanynt heb fod modd iddynt fynychu.[216] Dywedodd

[215] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 14
[216] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 11 a 14; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 12 Grŵp Resilience

llawer wrthym fod achosion gofal yn ddryslyd iddynt: nid oeddent yn deall penderfyniadau'r gwasanaethau cymdeithasol, nid oeddent yn deall y derminoleg a oedd yn cael ei defnyddio gan weithwyr proffesiynol o'u cwmpas na'r broses llysoedd ei hun.[217] Clywsom hefyd fod llawer o rieni geni yn cael trafferth cael cymorth ar gyfer eu lles eu hunain, yn ystod achosion amddiffyn plant ac ar ôl hynny, pan fydd y gwasanaethau cymdeithasol ac eraill yn cau'r ffeil achos ac yn tynnu eu cymorth yn ôl, er gwaethaf bregusrwydd dybryd y rhieni geni ar ôl colli eu plentyn.[218]

**114.** Clywsom gefnogaeth gyffredinol i wasanaethau eiriolaeth rhianta gan rieni geni. Clywsom fod eiriolwyr wedi helpu'r rhieni geni y bu i ni siarad â nhw drwy wneud y canlynol:

- Helpu rhieni geni i ddeall eu hawliau.
- Dod i wrandawiadau llys a helpu i ddehongli prosesau neu derminoleg gyfreithiol.
- Darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i'r person ifanc.[219]

**115.** Roedd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni geni yn cytuno bod angen i rieni geni, sy'n wynebu risg o gael eu plentyn wedi'i dynnu oddi arnynt, yn aml gael rhaglenni cymorth eiriolaeth i'w helpu i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a'r broses amddiffyn plant, neu i gael mynediad at wasanaethau cymorth ehangach. Yn ôl rhai, yn aml iawn byddai pethau'n symud yn rhy gyflym ac, ymhen dim, byddent mewn achos llys, ac erbyn hynny byddai'n rhy hwyr a byddai'r plant yn mynd i mewn i'r system ofal. Dywedodd eraill wrthym fod eiriolaeth yn gallu grymuso rhieni a helpu i ailgydbwyso'r anghydbwysedd pŵer canfyddedig gyda'r gwasanaethau statudol.[220] Roedd CAFCASS Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cydnabod gwerth eiriolaeth rhieni, gan groesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o gymorth eiriolaeth i rieni ar ffiniau gofal.[221]

**116.** Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i "atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant

---

217. PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 2; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 11 a 13.
218 PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 19; PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
219 PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 6-7 a 17; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 4
220 PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 8; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 13 Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE);
221 Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 38 Tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 46 CAFCASS Cymru

mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal".[222] Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond i rieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal y darperir gwasanaethau eiriolaeth rhieni fel arfer (gweler 'Y cylch gofal' ar dudalen 59). Dywedodd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda rhieni geni wrthym fod hwn yn fwlch yn y cymorth eiriolaeth.[223] Clywsom nifer o alwadau am gynnig gwasanaeth cymorth annibynnol i bob rhiant geni, ac i'r cymorth hwnnw ddechrau pan fydd plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant. Ysgrifennodd Anabledd Dysgu Cymru y dylai pob rhiant fod â mynediad at eiriolwr arbenigol annibynnol os yw ei blant yn destun achosion amddiffyn plant a/neu achosion gofal. Roedd NYAS, Voices from Care ac eraill yn gytûn.[224]

### Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #8**

**Yr hawl statudol i 'gynnig gweithredol' o weithiwr cymorth annibynnol pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu pan fydd plentyn yn destun rhag-achosion i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Os yw plentyn yn cael ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gyfeirio'r rhieni geni at wasanaethau a all eu helpu i ddod i delerau â'u colled.**

Roedd y dystiolaeth a glywsom gan rieni geni yn helaeth. Mae rhieni geni yn ingol ymwybodol o'r anghydbwysedd pŵer rhyngddynt a'r gwasanaethau statudol. Efallai nad ydynt yn gwybod pa wasanaethau ymyrraeth gynnar sydd ar gael iddynt i roi pob cyfle iddynt gadw eu plant, ac mae llawer yn ei chael hi'n anodd deall a llywio prosesau amddiffyn plant a'r llysoedd. Nid yw hyn yn syndod - mae'r rhain yn systemau cymhleth a dyrys, gyda therminoleg gyfreithiol a phrosesau ffurfiol anodd eu deall, wedi'u staffio gan weithwyr proffesiynol hynod gymwys ac arbenigol.

Gallai gweithiwr cymorth annibynnol helpu rhieni geni i lywio'r amgylchedd dryslyd hwnnw, gan eu cynorthwyo i ddeall eu hawliau, yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i roi pob cyfle iddynt gadw eu plant, a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Gall y gwasanaethau hyn hefyd fod yn amhrisiadwy o ran cyfeirio rhieni

[222] Llywodraeth Cymru, 'Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad', Ionawr 2021, tudalen 3
[223] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 17
[224] Llywodraeth Cymru, 'Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad', Rhagfyr 2021, tudalen 3
Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 37 Anabledd Dysgu Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru

geni at ffynonellau cymorth, a gallant hyd yn oed ddarparu cymorth emosiynol eu hunain.

Mae'r rhain yn elfennau pwysig o rwydwaith ehangach o gymorth i deuluoedd agored i niwed a fydd, o'u hystyried yn eu cyfanrwydd, yn helpu i atal rhai plant rhag cael eu cymryd i ofal.

Felly, credwn y dylai cymorth annibynnol gael ei gynnig i bob rhiant geni sy'n wynebu risg o gael ei blentyn wedi'i dynnu oddi arno. Credwn y dylid sicrhau bod rhieni geni yn ymwybodol o'r cymorth hwn drwy gyfrwng 'cynnig gweithredol', yn debyg i'r cynnig gweithredol o eiriolaeth sy'n cael ei ymestyn ar hyn o bryd i blant sy'n derbyn gofal. Dylid gwneud y cynnig gweithredol ar y pwynt pan fydd eu plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu ei wneud yn destun rhag-achos (p'un bynnag sy'n dod gyntaf), er mwyn rhoi rhywfaint o gyfle i'r rhieni fynd i'r afael â phryderon y gwasanaethau cymdeithasol cyn achos llys. A dylid ei ymestyn i'r cyfnod ar ôl i blentyn gael ei dynnu o ofal ei rieni, os mai dyna'r canlyniad, er mwyn sicrhau bod y rhiant geni yn cael ei gyfeirio at gymorth i'w helpu i alaru a dod i delerau â'r golled honno.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i roi hawl statudol i rieni geni gael 'cynnig gweithredol' o weithiwr cymorth annibynnol pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu ei wneud yn destun rhag-achos i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gyfeirio'r rhieni geni at wasanaethau a all eu helpu i ddod i delerau â'u colled.

## Materion pwysig eraill

### Achosion gofal

### Rhag-achosion

**117.** Fodd bynnag, cyn unrhyw atgyfeiriad i'r llysoedd teulu, dylai awdurdodau lleol ddilyn cam 'rhag-achosion' yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus. Mae proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn digwydd pan fydd yr awdurdod lleol yn poeni am les plentyn, ond cyn i'r awdurdod lleol wneud cais i'r llys. Bwriad y cam rhag-achos yw rhoi cyfle ar gyfer gwaith wedi'i dargedu gyda theulu gyda'r nod o atal y plentyn rhag cael ei dynnu oddi ar ei rieni yn barhaol gan y llys. Esboniodd y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew McFarlane, Llywydd yr Is-adran Deuluoedd, wrthym y bydd achos sy'n cynnwys dealltwriaeth gynyddol o esgeulustod a rhieni sy'n methu ag ymdopi am ba bynnag reswm yn cynnwys cyfnod rhag-achos

estynedig. Tynnodd sylw at gasgliadau'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, a bwysleisiodd:[225]

> *"... the need for time to be spent in reconnaissance, in pre-proceedings assessment, in non-urgent cases, before a local authority either decided to come to court or decided that there was, in fact, something else they could do to support the children without coming to court. And that was a win-win either the case doesn't come or, when it does come, the assessments have been performed already, they're good enough for the court process...".*[226]

**118.** Ychwanegodd Syr Andrew McFarlane fod sut mae awdurdodau lleol yn gwneud defnydd o rag-achosion yng Nghymru a Lloegr yn amrywio. Roedd Cymru - ac Abertawe yn arbennig - yn arwain y ffordd. Roedd Barnwr Cyswllt Is-adran Deuluoedd Cymru, Syr Nicholas Francis yn cytuno. Dywedodd fod gorchmynion gofal yn cael eu gwneud mewn llawer mwy o achosion o ran canran yng Nghymru nag yn Lloegr, sy'n dangos bod gwaith rhag-achosion yn cael ei wneud yn effeithiol gan awdurdodau lleol Cymru.[227]

**119.** Gall elfen allweddol o waith rhag-achosion ymwneud ag ymagweddau gwasanaethau cymdeithasol at risg: p'un a ydynt yn teimlo'n hyderus yn argymell y dylai plant aros yn eu cartref yn hytrach na chyflwyno achosion i'r llys. Ar y cyfan, roedd y rhieni geni y bu i ni siarad â nhw yn teimlo mai sefyllfa ddiofyn llawer o adrannau gwasanaethau cymdeithasol oedd cadw plant oddi wrth eu rhieni, yn hytrach na chadw teuluoedd gyda'i gilydd.[228] Roedd safbwyntiau fel y rhain yn arbennig o gyffredin ymhlith rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywsom droeon na chaniateir i rieni geni fynd drwy'r un broses ddysgu â rhieni wrth iddynt addasu i fywyd gyda babi. Teimlai llawer eu bod yn cael eu beirniadu am y manion lleiaf mewn ffordd na fyddai rhieni eraill yn cael eu barnu. Dywedodd un fenyw wrthym nad oedd unrhyw beth yr oedd hi'n ei wneud yn ddigon da – a bod ei phlentyn yn gorfod talu am hynny.[229]

**120.** Clywsom fod gan wahanol awdurdodau lleol ymagweddau gwahanol at risg, fel y dywedodd ymchwilydd CASCADE wrthym:

> *"There are stark differences in the way that local authorities operate in things like their culture, the way they practice... the way they make decisions and judgments about risk, but also*

[225] Justice.gov.uk, 'Public Law Outline: Pre-proceedings'
[226] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 102
[227] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 106
[228] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 4
[229] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 13

> *decisions about responses to risk…. So, for example, an organisation that has a leadership team that has a very strong position about a threshold decision, for example, or where a threshold should be for certain levels of intervention, that can permeate the organisation….".*[230]

Cafwyd sylwadau tebyg hefyd gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain.[231]

**121.** Un o sbardunau posibl yr awydd i osgoi risg yw'r canlyniadau a geir os nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud y penderfyniad i ymyrryd i dynnu plentyn, a bod y plentyn yn cael ei niweidio wedi hynny. Yn ei ymateb ym mis Mehefin 2022 i Adolygiad Annibynnol Lloegr o Ofal Cymdeithasol Plant, gwnaeth Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain y cysylltiad rhwng yr awydd i osgoi risg diangen mewn gwaith cymdeithasol a'r cyhoedd yn difrïo gweithwyr cymdeithasol:

> *"… social workers are very apprehensive about getting things 'wrong', which can fuel a tendency to over-investigate. This practice can be criticised, but it will be extremely hard to change while the media and politicians are so ready to condemn social workers and others when they make 'mistakes'."*[232]

**122.** Dywedodd rhai rhieni geni a'u gweithwyr cymorth wrthym, yn sgil marwolaeth Peter Connelly (y cyfeirir ato weithiau fel babi P), ei bod yn ymddangos bod mwy o awydd gan rai swyddogion i osgoi risg.[233] Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth helaeth am deuluoedd yn cael eu barnu ymlaen llaw, mae achosion amlwg diweddar hefyd fel Logan Mwangi, Arthur Labinjo-Hughes, Star Hobson a Finley Boden lle mae pryderon y gallai ymyrraeth gryfach gan y gwasanaethau cymdeithasol fod wedi atal marwolaeth plentyn. Aethom ati i ofyn i'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol am eu barn, a dywedwyd wrthym eu bod yn rheoli risg nad yw'n cael ei deall yn aml iawn a bod y feirniadaeth honno, yr ofn hwnnw, yn real iawn. Credent ei bod hi'n deg dweud eu bod nhw i gyd yn ei deimlo ac yn byw gyda hynny drwy'r amser.[234]

---

230 PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 253
231 PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 57
232 Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, 'England's children's reviews address modest organisational issues, not massive capacity problems', Mehefin 2022
233 PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6
234 PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

### Y Llys Teulu

**123.** Unwaith i achos gael ei atgyfeirio i'r llys teulu, dylai'r achos gael ei ddatrys o fewn 26 wythnos. Dywedodd Syr Andrew McFarlane wrthym ei fod yn credu mai dyna'r agwedd fwyaf arwyddocaol ar brofiad person ifanc, y ffaith ein bod ni'n cymryd gormod o amser a dywedodd mai mynd i'r afael â hynny yw'r brif agwedd y mae am dynnu sylw ati. Dywedodd Syr Nicholas Francis wrthym fod gan Gymru well hanes o gwblhau achosion o fewn y 26 wythnos na Lloegr. Serch hynny, mae'r cyfartaledd, sef 32 wythnos, yn dal i fod yn hwy na'r terfyn o 26 wythnos. Cyfeiriodd at brinder staff mewn awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru fel rhesymau dros yr oedi.[235] Roedd rhai rhieni geni y buom yn siarad â nhw hefyd yn codi pryderon am hyd yr achosion gofal. Clywsom am un fam ifanc a oedd wedi bod yn mynd drwy achosion gofal ers i'w babi gael ei eni ddwy flynedd yn ôl, ac nid oedd ganddi unrhyw sicrwydd o hyd bod ei babi'n mynd i aros gyda hi.[236]

**124.** Prin oedd y dystiolaeth i awgrymu bod y llysoedd yn tynnu plant yn ddiangen.[237] Roedd rhai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn derbyn nad oedd rhai plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni ac mai eu tynnu nhw oedd y penderfyniad iawn.[238] Fodd bynnag, clywsom hefyd sawl gwaith fod lleiafrif o rieni geni yn credu bod gweithwyr cymdeithasol yn cael bonws am dynnu plant. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym fod angen dileu'r myth bod awdurdodau yno i dynnu plant oddi ar eu rhieni.[239]

**125.** Clywsom farn gymysg ynghylch a oedd y trothwy i dynnu plentyn yn cael ei drin yn wahanol mewn gwahanol lysoedd ar draws Cymru. Yn dilyn trafodaethau gyda chydweithwyr sydd wedi gweithio yn y ddwy awdurdodaeth, dywedodd Syr Andrew McFarlane ei fod yn eithaf tawel ei feddwl nad oes rhyw broblem systemig sy'n unigryw i Gymru a allai gyfrif am unrhyw wahaniaeth yn y ffigurau.[240] Fodd bynnag, roedd rhai rhieni geni yn anghytuno, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod gan farnwyr gwahanol agweddau gwahanol at risg.[241]

**126.** Gall y profiad o fynychu'r llys fod yn anodd iawn i rai teuluoedd. Dywedodd rhai rhieni geni wrthym ei fod yn brofiad brawychus iddynt, gan sôn am ba mor anodd y gall fod i ddeall y jargon.[242] Roedd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd ar ffiniau gofal yn cytuno, gan ddweud wrthym fod gwybod

---

[235] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 83-90
[236] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 14
[237] Fodd bynnag, galwodd un ymateb i'r ymgynghoriad gan Grŵp Resilience am "end removal using 'potential future emotional harm' as a reason, only remove if in imminent physical danger." Gweler: Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 12 Grŵp Resilience.
[238] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6, tudalen 23
[239] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 4
[240] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 132
[241] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6
[242] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6

beth i'w wneud yn yr ystafell lys, fel pryd i godi, hefyd yn ddryslyd, a bod rhai barnwyr yn cael eu hystyried yn 'fwy caredig' yn eu hymwneud â rhieni geni nag eraill. Clywsom am famau geni a oedd wedi mynd drwy achosion llys am eu plentyn oriau yn unig ar ôl rhoi genedigaeth, a bregusrwydd menywod ifanc a oedd newydd roi genedigaeth a thrawma ymdrin ag achosion gofal mewn ward ysbyty gyda "dieithriaid llwyr" o'u cwmpas.[243]

**127.** Clywsom hefyd am yr heriau sy'n wynebu mamau geni mewn perthynas lle'r oedd trais domestig yn nodwedd allweddol o dynnu'r plentyn a lle'r oedd y cyflawnwyr yn mynd i'r llys gyda nhw. Mewn un achos, roedd y fam yn rhy ifanc ac yn rhy ofnus i ddweud y gwir yn y llys, a theimlai bod ei hanonestrwydd canfyddedig wedi cyfrannu at dynnu'r plentyn oddi arni.[244] Rydym yn ystyried sut y gellir cefnogi rhieni geni yn well ar dudalen 6574.

## Lleoliadau asesu rhianta preswyl a lleoliadau maethu rhiant a phlentyn

**128.** Gofynnir i rai rhieni geni fynychu lleoliad asesu rhianta, fel arfer am 12 wythnos, mewn uned breswyl. Yn ystod y lleoliad, mae'r rhieni'n cael eu harsylwi'n agos gan weithwyr proffesiynol annibynnol, a fydd wedyn yn adrodd ar ansawdd y gofal a ddarperir i'r plentyn. Gellir defnyddio'r adroddiadau fel tystiolaeth yn y llysoedd. Gall yr awdurdod lleol gynnig lleoliadau asesu rhianta cyn cychwyn achos, neu gall y llys ei hun orchymyn asesiad rhianta yn ystod achos.

**129.** Roedd rhieni geni yn codi pryderon yn rheolaidd am leoliadau asesu rhianta preswyl. Clywsom mai ychydig iawn o breifatrwydd a oedd yn y canolfannau a'u bod dan oruchwyliaeth 24 awr fel arfer, gan gynnwys teledu cylch cyfyng yn yr ystafelloedd gwely. Dywedodd rhai menywod ifanc wrthym eu bod wedi profi gwrthdaro a bwlio gan breswylwyr eraill, gydag eraill wedi dweud wrthym fod staff lleoliad wedi methu â nodi a chefnogi iselder ôl-enedigol. Dywedodd un fam sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym ei fod wedi bod yn ofnadwy, ac yn un o brofiadau gwaethaf ei bywyd. Roedd mamau geni yn cytuno nad oedd y lleoliadau yn rhoi llawer o obaith iddynt y byddent yn gallu cadw eu plentyn ac, yn aml, roeddent yn eu tynnu oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth, a oedd wedyn yn cyfrif yn eu herbyn yn ystod achosion llys.[245]

**130.** Cododd gweithwyr proffesiynol bryderon tebyg. Clywsom mai prin iawn yw'r lleoliadau yng Nghymru, felly gall rhieni geni gael eu hanfon yn bell oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth. Dywedodd CLlLC wrthym:

[243] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 14-15; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 13-14
[244] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 16
[245] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 14-15; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 4-5

> *"... the numbers of unborn children's names being placed on the Child Protection Register and entering Public Law Outline (PLO) process have doubled. This requires increased recourse to mother and baby placements, which are both expensive and insufficient in availability."*[246]

**131.** Pan fydd rhieni geni yn dychwelyd o'r lleoliadau, gall fod yn anodd eu hailintegreiddio i'r gymuned. Clywsom nad oes gan y rhan fwyaf o rieni geni unrhyw ddewis ond rhoi'r gorau i'w llety pan fyddant yn symud i ganolfan asesu rhieni gan na allant fforddio ei gadw. Pan fo'r rhiant yn denant tai cymdeithasol, efallai y bydd yr awdurdod lleol neu'r gymdeithas dai am ddod â'i denantiaeth i ben.[247]

**132.** Clywsom am leoliadau maethu rhiant/babi, lle bydd rhiant a babi'n aros gyda rhiant maeth, neu fel arall, fel y gall y rhiant gael cymorth cofleidiol a chyngor ar ofalu am ei blentyn. Gall y lleoliadau hyn helpu rhieni i deimlo'n un gyda'u babi a'u bod yn cael eu cefnogi fel rhieni newydd. Ychydig iawn o leoliadau o'r fath sydd yng Nghymru.[248]

## Ein barn ni

### Rhag-achosion

**133.** Rydym yn cydnabod yr heriau sylweddol mae gweithwyr cymdeithasol yn eu hwynebu wrth weithio gyda theuluoedd agored i niwed ar ffiniau gofal. Mae'r ymchwiliad hwn wedi ei fframio gan ymdrech ar lefel Llywodraeth Cymru i leihau'n ddiogel nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system ofal, sy'n beth da. Fodd bynnag, rydym yn deall y tensiwn cynhenid rhwng y prif bolisi hwnnw a'r realiti sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol a fydd yn byw gyda'r canlyniadau os na fyddant yn ceisio tynnu plentyn oddi ar ei rieni geni a bod plentyn yn cael ei niweidio - neu'n waeth - o ganlyniad. Nid ydym yn tanbrisio'r effaith y gall pardduo gweithwyr cymdeithasol yn y cyfryngau ac mewn mannau eraill ei chael ar barodrwydd gweithwyr cymdeithasol i gymryd risgiau cadarnhaol i gadw teuluoedd gyda'i gilydd, ac ar barodrwydd penaethiaid gwasanaethau plant i hyrwyddo diwylliant o gymryd risgiau cadarnhaol ar draws eu sefydliad mewn ffordd briodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nid ydym chwaith yn tanbrisio effaith y sylw negyddol hwnnw ar recriwtio a chadw ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd. Mae'r materion hyn wedi'u cysylltu'n annatod â

[246] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 44 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
[247] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 5-6
[248] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 9

heriau digonolrwydd y gweithlu, fel y trafodwyd ym mhennod gyntaf yr adroddiad hwn.

**Lleoliadau asesu rhianta preswyl a lleoliadau maethu rhiant a phlentyn**

**134.** Rydym wedi ein syfrdanu gan brofiadau nifer o'r rhieni geni y bu i ni siarad â nhw a oedd wedi cael eu rhoi mewn canolfan asesu teulu breswyl. Rydym yn deall budd posibl asesiad proffesiynol preswyl o allu rhiant i ofalu am ei hun a'i blentyn er mwyn llywio penderfyniadau'r llys. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen cynnal yr asesiadau hyn law yn llaw â tharfu mor helaeth ar breifatrwydd. Er eu bod yn destun arolygiadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru, mae cwestiynau'n codi ynghylch moeseg sut mae rhai agweddau ar y lleoliadau preswyl hyn sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol yn gweithredu. Yn seiliedig ar yr hyn a glywsom, nid yw'n syndod i ni bod rhai rhieni'n dweud bod y lleoliadau hyn yn peri trawma mawr iddynt. Nid ydym yn argyhoeddedig mai peri trawma pellach i rieni ifanc a allai fod yn agored iawn i niwed yn barod yw'r ffordd iawn o gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, neu adeiladu ymddiriedaeth rhieni geni yn y broses amddiffyn plant yn ehangach.

**135.** Nodwn hefyd bryderon rhai rhieni geni a gweithwyr proffesiynol y gallai canolfannau asesu teulu preswyl fod â disgwyliadau afrealistig o rieni newydd, ac mai ychydig iawn o obaith sydd gan rieni geni – yn y pen draw - o adael y canolfannau gyda chanlyniad cadarnhaol. Rydym wedi ein syfrdanu y bydd llawer o rieni geni yn cael eu hanfon i ganolfannau sydd ymhell o'u cartrefi. Mae hyn yn eu hallgáu ar unwaith o'r rhwydweithiau cymorth emosiynol ac ymarferol y gwyddom sy'n hanfodol i bob rhiant newydd. Mae'n amlwg y byddai gorfodi rhywun i symud mor bell i ffwrdd o'i rwydweithiau cymorth yn cael effaith enfawr ar unrhyw un, yn enwedig mamau ifanc sy'n famau am y tro cyntaf a mamau sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gall y storm berffaith hon, y tu allan i reolaeth rhieni geni, arwain at asesiad a allai gyfrif yn eu herbyn yn y pen draw yn ystod achos llys. Ac fel pe na bai'r broses eisoes yn ddigon anodd, cawsom ein syfrdanu y gallai rhieni geni golli eu tai cymdeithasol o ganlyniad i adael eu cartrefi am 12 wythnos a mwy.

**136.** Nid oes rhyfedd bod rhai rhieni geni yn teimlo fel pe bai pawb a phopeth yn eu herbyn.

**137.** Roedd rhai arwyddion y gallai lleoliadau maethu rhiant a phlentyn lleol fod yn ffordd fwy caredig, a mwy effeithiol, o gefnogi rhieni geni ar ffiniau gofal. O ystyried yr hyn a glywsom am leoliadau asesu teulu preswyl, rydym yn siomedig o glywed mai ychydig iawn o leoliadau o'r fath sy'n bodoli yng Nghymru.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd ac argaeledd lleoliadau asesu rhianta. Dylai'r adolygiad ystyried

moeseg, defnydd a gwerth am arian lleoliadau preswyl a lleoliadau maethu rhiant a phlentyn, a nodi pa newidiadau y gellir eu gwneud i wella'r broses i deuluoedd, ac unrhyw rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn cymryd y camau hynny. Dylai'r adolygiad annibynnol gyflwyno ei adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf.

# 4. Mewn gofal

## Diwygiadau i wella ansawdd gwasanaethau a chymorth i blant mewn gofal

### Cael eu clywed ac eiriolaeth i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal

#### Cael eu clywed

**138.** Dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym nad yw pobl ifanc mewn gofal yn cael eu clywed, nac yn cael y cyfle i fod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau. Dywedodd rhai fod hyn yn arbennig o wir pan oeddent yn iau.[249] Clywsom deimladau tebyg yn cael eu hailadrodd wrth i ni gasglu ein tystiolaeth:

> *"Care experienced young people told us that they often do not feel listened to. They told us the adults did not always understand that it could be difficult for them to express their views and to tell the whole truth." Voices from Care*

> *"Allow kids to express if they don't like placements and move them." - Mynychwyr digwyddiad 'Falch o Fod yn Fi Voices From Care*

> *"Let us share our feeling about placements." - Mynychwr digwyddiad 'Falch o Fod yn Fi Voices From Care*

> *"I would ask for more support, more educated and adults treat you as human rather than as if you would crumble." - Mynychwr digwyddiad 'Falch o Fod yn Fi Voices From Care*[250]

**139.** Clywsom y bydd gweithiwr cymdeithasol plentyn yn aml yn ffactor allweddol wrth ystyried a yw safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu hystyried. I rai, roedd eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu hystyried o oedran cynnar iawn. Ond i'r rhan fwyaf o bobl ifanc, nid oedd hynny bob amser yn wir: clywsom fod penderfyniadau'n gallu cael eu gwneud yn gyflym ac yn ddiesboniad.[251] Clywsom y farn hon yn aml mewn perthynas â lleoliadau maethu neu ddewisiadau llety,

[249] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 18
[250] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; PPIA, Cynigion ar gyfer camau diwygio radical gan rai oedd yn bresennol yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' gan Voices from Care , Chwefror 2023, tudalen 6
[251] PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalennau 9-10

gan y bobl ifanc eu hunain[252] a chan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, megis Llamau:

> *"I don't think there is any choice at all, and that makes it really difficult for those young people, and those young people often feel that they've had choice taken away throughout their whole time in care, when the only choice that they've had is bringing a placement to an end themselves, perhaps by their behaviour."*[253]

## 'Cynnig gweithredol' eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion

**140.** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i rai grwpiau o blant, yn benodol 'plant sy'n derbyn gofal', 'plant mewn angen' a'r 'rhai sy'n gadael gofal'. Mae'r hawl hon yn cael ei chyfleu iddynt drwy 'gynnig gweithredol', lle mae eu gweithiwr cymdeithasol yn mynd ati i'w hatgyfeirio i'w darparwr eiriolaeth lleol. Mae eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion yn wasanaeth eiriolaeth tymor byr sydd ar gael i bobl ifanc i'w helpu gyda phroblemau neu sefyllfaoedd penodol. Nid yw'n hirdymor; bydd ond yn bodoli am yr amser a gymer i ddatrys y broblem dan sylw.

**141.** Clywsom gefnogaeth gyffredinol i wasanaethau eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys gan y bobl ifanc eu hunain. Fodd bynnag, clywsom hefyd nad yw'r model eiriolaeth presennol yn gweithio cystal ag y gallai. Clywsom fod y cynnig gweithredol ei hun yn aml yn cael ei wneud pan fydd plentyn newydd gael ei dynnu oddi ar ei rieni geni, sy'n amser trawmatig i blant, ac yn aml yn bwynt amhriodol i drafod trefniadau eiriolaeth. Yn ymarferol, clywsom fod y cynnig gweithredol yn cael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol yn rhoi taflen i'r plentyn, ac nad yw llawer o blant yn ymwybodol o'u hawl i eiriolaeth o gwbl. Felly, dylai'r cynnig gweithredol gael ei wneud yn rheolaidd drwy gydol cyfnod y plentyn mewn gofal.[254] Dywedodd gwahanol grwpiau o bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol wrthym y byddai plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn elwa ar fwy o sefydlogrwydd gan eu heiriolwr ac, yn ddelfrydol, y byddai ganddynt un eiriolwr y gallent ddatblygu perthynas hirdymor ag ef neu hi - model 'optio

252 Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; PPIA, 'Cynigion ar gyfer camau diwygio radical gan rai oedd yn bresennol yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' gan Voices from Care., Chwefror 2023, tudalennau 2-3

253 PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 122. Gweler hefyd: Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 40 Plant yng Nghymru, tudalen 4

254 PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 135; Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol); PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 22; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan

allan'.[255] Fodd bynnag, roedd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn llai cadarnhaol am y cynnig hwn:

> *"I'm not convinced that universal advocacy in the way that you're perhaps suggesting would necessarily solve that, because what you want is the workforce across the board, across all agencies, to be able to work effectively with families. That would be what we should be aiming for, rather than another layer of translation, if you like."*[256]

**142.** Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog am ei barn ar optio allan, yn hytrach nag eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion ar gyfer pob plentyn mewn gofal. Dywedodd wrthym fod hyn yn rhywbeth y mae angen i ni feddwl amdano a'i bod yn edrych ymlaen yn fawr at yr hyn y bydd y pwyllgor yn ei argymell ar y mater hwn o optio i mewn ac optio allan."[257]

### Eiriolaeth ymweliad preswyl

**143.** Clywsom bryderon penodol am wasanaethau eiriolaeth i blant mewn gofal preswyl, sy'n cynnwys rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn y system ofal.[258] Ysgrifennodd Arolygiaeth Gofal Cymru:

> *"ni chafodd nifer o blant gymorth eiriolaeth am sawl rheswm, gan gynnwys y ffaith nad oeddent yn ymwybodol o'r trefniadau eiriolaeth; eu bod wedi gwrthod cymorth; neu nad oeddent yn siŵr pa drefniadau oedd ar waith. Gwnaethom argymell y dylai darparwyr ac awdurdodau lleoli sicrhau bod trefniadau eiriolaeth yn cael eu hyrwyddo'n dda er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn fynediad cyfartal at eiriolaeth, gan gynnwys plant anabl."*[259]

Roedd NYAS yn cytuno, gan ddadlau, er bod eiriolaeth wedi deillio o'r cam-drin systematig mewn cartrefi plant, nad ydym wedi cael hynny'n iawn o hyd 20 mlynedd yn ddiweddarach.[260] Daeth adroddiad a gomisiynwyd yn 2019 gan Tros Gynnal Plant Cymru i gasgliadau tebyg, gan ddweud nad yw'r cysyniad o eiriolaeth yn hysbys nac yn cael ei ddeall yn eang gan y rhai sy'n berchen ar

---

[255] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 7-9, 18 a 22; PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 140; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 11
[256] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 39
[257] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 257-259
[258] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 147; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 14
[259] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[260] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 142

gartrefi plant a ddarperir gan y sector preifat, na'r rhai sy'n gweithio yn y cartrefi hynny, ac efallai nad yw'r plant yn y cartrefi hynny yn derbyn y cymorth eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion y mae ganddynt yr hawl i'w dderbyn.[261]

**144.** Cymhlethdod ychwanegol yw nad yw llawer o blant mewn cartrefi preswyl yng Nghymru yn dod o awdurdodau lleol Cymru - roedd hyd at 25% o blant mewn cartrefi preswyl yng Nghymru'n cael eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr.[262] Ni fyddai'r plant hynny o reidrwydd yn elwa ar yr hawliau neu'r gwasanaethau eiriolaeth sy'n cael eu hymestyn i blant Cymru. Er enghraifft, nid oes gan blant o Loegr yr hawl i 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion.

**145.** Mae rhai cartrefi preswyl wedi neilltuo eiriolwyr i bob plentyn yn y cartref i fynd i'r afael â'r bylchau eiriolaeth hyn. Gelwir y math hwn o eiriolaeth yn 'eiriolaeth breswyl'. Mae'r eiriolwr sy'n ymweld yn gweithio i feithrin perthynas gyda'r plant a'r bobl ifanc, yn ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am eu gofal, yn helpu i ddatrys anghydfodau ac yn cysylltu â gwasanaethau eiriolaeth eraill lle bo angen. Fodd bynnag, er bod gan bob cartref preswyl sy'n cael ei gynnal gan awdurdod lleol eiriolwyr penodedig, dim ond tua 15% o gartrefi preswyl preifat/gwirfoddol sydd ag eiriolwyr penodedig. Er mwyn ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau eiriolaeth breswyl, mae adolygiad TGP yn argymell y dylai eiriolaeth breswyl ym mhob cartref plant gan ddarparwr eiriolaeth cofrestredig dan gontract fod yn ofyniad i gofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.[263]

## Ein barn ni

### DIWYGIAD RADICAL #9

**Rhoi i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yr hawl statudol i gymorth eiriolaeth hirdymor drwy eiriolwr penodedig ar sail 'optio allan'. Byddai eiriolwr yn cael ei neilltuo i bob plentyn pan fyddai'n mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a byddai'n parhau hyd nes y byddai'r plentyn yn gorffen bod yn 'ymadawr gofal'. Gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) pe byddent am wneud hynny.**

Rydym wedi trafod gwasanaethau eiriolaeth mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn mewn perthynas â'r cylch gofal (tudalen 59) ac eiriolaeth i rieni geni (tudalen 74). Mae'r dadleuon sylfaenol dros wasanaethau eiriolaeth i blant mewn gofal yn

[261] Dr Anne Crowley, 'Out of Sight - Out of Rights?', Tachwedd 2019, tudalen 38
[262] Dr Anne Crowley, 'Out of Sight - Out of Rights?', Tachwedd 2019, tudalen 7
[263] Dr Anne Crowley, 'Out of Sight - Out of Rights?', Tachwedd 2019, tudalen 7

debyg. Gall eiriolwyr gynghori plant, helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a darparu cefnogaeth emosiynol. Mae'r manteision hyn yn fwy amlwg yng nghyd-destun eiriolaeth i blant mewn gofal, a allai fod yn ei chael hi'n anodd cael eu llais wedi'i glywed oherwydd eu statws gofal *ac* oherwydd eu bod nhw'n blant. Mae plant yn y system ofal wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddi-rym, ac nad oes ganddynt unrhyw lais yn y penderfyniadau am eu bywydau. Mae sicrhau bod y grŵp hwn o blant yn cael ei glywed yn hollbwysig.

Deallwn bryderon y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol am ddod â mwy o weithwyr proffesiynol i fywyd plentyn, a'r cymhlethdodau posibl o ganlyniad i hynny. Fel rydym eisoes wedi datgan mewn perthynas â'r gweithlu gofal cymdeithasol yn gynharach yn yr adroddiad hwn (tudalen 2938), credwn y bydd lleihau llwythi gwaith gweithwyr cymdeithasol yn esgor ar oblygiadau trawsnewidiol ar gyfer ansawdd eu perthynas â phlant a theuluoedd agored i niwed.

Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i flaenoriaethu barn plant a phobl ifanc yn ein gwaith. Ac maent wedi dweud wrthym, yn gryf, dro ar ôl tro, nad yw'r gwasanaethau statudol yn gwrando arnynt. Nid oes ganddynt ddigon o lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys penderfyniadau sy'n newid bywydau fel lle maent yn byw, gyda phwy maent yn byw a lle maent yn mynd i'r ysgol. Maent yn dweud hefyd eu bod eisiau o leiaf un person y gallant ddatblygu perthynas hirdymor ag ef neu hi, sydd yno i eirioli drostynt a'u helpu i lywio system nad oes ganddynt lawer o reolaeth drosti yn aml. Hyd nes y bydd gweithwyr cymdeithasol yn gallu gwneud hynny iddynt, rhaid i ni ddarparu dewis arall.

Felly, rydym yn argymell y dylai pob plentyn mewn gofal fod â hawl statudol i eiriolaeth hirdymor ar sail optio allan drwy eiriolwr penodedig ar y pwynt y maent yn mynd i mewn i'r system ofal. Nid oes rhaid i'r plentyn dderbyn gwasanaethau'r eiriolwr; gall optio allan (ac optio i mewn yn ddiweddarach) ar unrhyw adeg. Ond dylai'r hawl statudol honno aros yn ei lle hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â bod yn 'ymadawr gofal'.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ddarparu hawl statudol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor ar sail 'optio allan'. Dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn pan fydd yn mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a dylai barhau hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â bod yn 'ymadawr gofal'. Gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) os dymunant, ond rhaid iddynt fod ag eiriolwr neu ddarparwr penodedig bob amser yn ystod eu cyfnod mewn gofal.

**146.** Mae'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth i blant mewn gofal preswyl, sy'n cynnwys rhai o'n plant mwyaf agored i niwed, yn peri gofid i ni. Rydym o'r farn y dylai eiriolaeth optio allan gyffredinol fynd i'r afael â'r pryderon hynny ar gyfer plant sy'n hanu o Gymru. Fodd bynnag, ni fydd llawer o blant mewn cartrefi preswyl nad ydynt wedi'u cartrefu yng Nghymru yn elwa ar y diwygiadau hyn. Mae angen cymorth eiriolaeth ar y plant hyn hefyd. Ac rydym yn cydnabod manteision eiriolwr sy'n gallu cymryd trosolwg ehangach o wasanaethau gofal y cartref preswyl yn ei gyfanrwydd, er mwyn lleihau'r risg y bydd cam-drin systematig mewn cartrefi o'r fath yn digwydd byth eto.

**147.** O ganlyniad, rydym yn cymeradwyo'r argymhelliad a wnaed gan Dr Anne Crowley yn ei hadroddiad ar gyfer Tros Gynnal Plant Cymru, sef bod yn rhaid i ddarparu eiriolaeth breswyl fod yn amod cofrestru ar gyfer cartrefi gofal preswyl i blant yng Nghymru.

**148.** Fodd bynnag, rydym yn dal i gredu y dylai pob plentyn mewn gofal fod ag eiriolwr unigol. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraethau eraill y DU yn ôl y gofyn i sicrhau bod pob plentyn sy'n hanu o'r tu allan i Gymru ond sydd wedi'i leoli mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael cynnig eiriolwr unigol hefyd.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob plentyn mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth breswyl ac eiriolaeth unigol drwy:

- ddiwygio'r trefniadau sydd ar waith o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i wneud darparu eiriolaeth breswyl ym mhob cartref plant (gan ddarparwr eiriolaeth cofrestredig dan gontract) yn ofyniad cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru.
- gweithio gyda llywodraethau eraill y DU yn ôl yr angen i sicrhau bod pob plentyn sy'n hanu o'r tu allan i Gymru, ond sydd wedi'i leoli mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru, yn cael cynnig eiriolwr unigol.

## Gofal maeth

### Argaeledd ac ansawdd lleoliadau maeth

**149.** Gofal maeth yw'r math mwyaf cyffredin o leoliad ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ar 31 Mawrth 2022, roedd 69.4% o blant mewn gofal mewn lleoliadau maethu.[264] Fodd bynnag, y pryder a godwyd amlaf am leoliadau oedd nad oes digon o leoliadau maethu o ansawdd da. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru wrthym fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol "yn ei chael hi'n anodd cyflawni eu dyletswyddau o ran digonolrwydd a dod o hyd i leoliadau addas er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar y dewis o leoliadau a natur barhaol a sefydlogrwydd lleoliadau ac, felly, ar ganlyniadau i blant."[265] Roedd sefydliadau sy'n ymwneud â maethu, megis TACT Cymru, Y Rhwydwaith Maethu a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno, gan ddweud wrthym fod goblygiadau ariannol y pandemig, costau byw cynyddol a chymhlethdod cynyddol a nifer yr achosion o blant mewn gofal i gyd wedi arwain at straen cynyddol ar y ddarpariaeth maethu.[266]

**150.** Clywsom rai profiadau cadarnhaol am leoliadau maethu gan bobl ifanc. Dywedodd un fenyw ifanc wrthym fod un gofalwr maeth yn wych ac wedi newid ei bywyd er gwell. Buom yn siarad â menyw ifanc arall a oedd wedi bod gyda'r un gofalwr maeth ers iddi fod yn fabi. Roedd hi wedi cael sefydlogrwydd a chefnogaeth drwy gydol ei phlentyndod, ac roedd hi'n ystyried ei hun yn ffodus iawn o gymharu â'r rhan fwyaf o blant eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Dywedodd un arall wrthym mai ei pherthynas â'i rhieni maeth oedd yr unig berthynas gyson, sefydlog a oedd ganddi yr oedran hwnnw.[267]

**151.** Ond roedd llawer o'r hyn a glywsom gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn llai cadarnhaol. Dywedodd llawer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym eu bod yn teimlo bod o leiaf un o'u lleoliadau maethu o ansawdd gwael. Dywedodd gwahanol bobl wrthym fod un neu fwy o'u gofalwyr wedi bod yn amhroffesiynol, yn gamdriniol yn emosiynol, yn gamdriniol yn rhywiol neu'n dreisgar.[268] Ac roedd y syniadau ar gyfer diwygiadau i'r system ofal a gawsom gan blant mewn gofal yn cynnwys:

[264] StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad', diweddarwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022
[265] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[266] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 9 a 14; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 44 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
[267] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 23; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 26; PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalen 7
[268] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 23

> *"More nicer carers"*
>
> *"allow kids to express if they don't like a placement and move them"*
>
> *"let us share our feeling about placements"*
>
> *"allowing the child/children to meet their foster carers at least 5 times before placing them in their care".*[269]

## Lleoliad a pharhad

**152.** Clywsom alwadau am i blant gael eu lleoli mor agos â phosibl i ble y cawsant eu cymryd i ofal, oni bai y byddai gwneud hynny'n cyflwyno risg ddifrifol i ddiogelwch y plentyn. Daeth y galwadau hyn gan bobl ifanc[270] a gweithwyr proffesiynol.[271] Roedd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno:

> *"Children need to be kept in their communities close to home, near to their families, so that we can promote them moving back home, sustaining and nurturing those relationships, so that they can improve over time, rather than them being broken down. They can maintain relationships with their peers, their schools and their activities. There's not one children's services department across Wales that will say that that isn't an absolute priority. Finding those placements is difficult…".*[272]

**153.** Yn anffodus, roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod plant yn aml yn cael eu lleoli ymhell o'u cartrefi neu eu lleoliadau blaenorol gan nad oedd unrhyw leoliadau o ansawdd yn eu hardal leol.[273] Gall prinder lleoliadau sy'n agos at ardal leol y plentyn olygu y gall defnyddio lleoliadau y tu allan i'r ardal ddod ar gost llawer uwch. Canfu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pumed Cynulliad yn 2018 mai cost gyfartalog lleoliad awdurdodau lleol yn 2018 oedd £23,327 y flwyddyn o gymharu â £43,378 ar gyfer lleoliad Asiantaeth Maethu Annibynnol. Ar y pryd, Caerffili oedd yn talu am y lleoliad drutaf ar gost o £16,500 yr wythnos.[274] Ystyrir

[269] PPIA, 'Cynigion ar gyfer camau diwygio radical gan rai oedd yn bresennol yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' gan Voices from Care, Chwefror 2023, tudalen 6
[270] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru
[271] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 43 Cymdeithas y Plant
[272] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 61
[273] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 19-20
[274] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal', Tachwedd 2018, tudalennau 24-27

ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal ar dudalen 94104.

**154.** Roedd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr yn cytuno bod llawer o drefniadau dros dro ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ychwanegodd eraill fod rhai o'r lleoliadau tymor byr hynny'n dod yn rhai hirdymor oherwydd problemau staffio a phrinder lleoliadau gwell, hyd yn oed pan nad ydynt yn addas i ddiwallu anghenion hirdymor y plentyn.[275] Mae hyn, yn ei dro, yn achosi ei broblemau ei hun. Cyflwynodd Cymdeithas y Plant bapur cynhwysfawr i ni yn nodi ei phryderon am leoliadau y tu allan i ardal, gan gynnwys pryderon nad yw'r rheoliadau ar gyfer lleoli plant mewn ardal awdurdod lleol arall yn cael eu dilyn yn gyson ar draws Cymru a bod arferion rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol yn amrywiol ac yn anghyson.[276]

**155.** Symptom arall o'r prinder lleoliadau maethu hirdymor o ansawdd yw pa mor aml mae plant yn cael eu symud o un gofalwr maeth i'r llall. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal y bu i ni siarad â nhw wedi symud rhwng o leiaf bum lleoliad maethu yn ystod eu plentyndod. Dywedodd un wrthym ei fod wedi cael ei symud 18 o weithiau, ac roedd un arall wedi cael ei symud 21 o weithiau. Yn aml, byddai'r symudiadau hyn yn digwydd ar fyr rybudd, neu'n gwbl ddirybudd (dywedodd un fenyw ifanc wrthym ei bod hi bob amser wedi cadw sach gefn fach ar waelod ei gwely gyda'i holl hanfodion ynddo - er mwyn iddi allu cydio ynddi a gadael ar unwaith), ac weithiau yn bell i ffwrdd yn ddaearyddol. Mewn llawer o achosion, roedd hyn yn cynnwys newid ysgolion a grwpiau ffrindiau a oedd newydd eu sefydlu. Dywedodd y bobl ifanc, a'r staff y bu i ni siarad â nhw, fod hyn yn eu hansefydlogi ac yn drallodus iddynt, yn enwedig gan eu bod eisoes wedi profi'r trawma o gael eu symud oddi wrth eu teuluoedd geni.[277]

**156.** Roedd gweithwyr proffesiynol yn cytuno mai lleoliadau hirdymor sy'n cynnig y sefydlogrwydd gorau i bobl ifanc. Dywedodd Gweithredu dros Blant wrthym eu bod hefyd yn meddwl yn llawer mwy fel gwasanaeth mabwysiadu na gwasanaeth maethu. Felly, llwyddiant iddynt hwy yw bod eu plant yn aros gyda'u teuluoedd am weddill eu hoes. Aeth y Rhwydwaith Maethu ati hefyd i bwysleisio pwysigrwydd sefydlogrwydd:

> *"… we remove them from their family, where we take away the people who were meant to fight for them and protect them—. We do that and then we fail to offer an alternative that is better*

[275] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 13
[276] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 43 Cymdeithas y Plant
[277] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 22; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 20

> *than that on lots of occasions, because we're unable to create that permanency, to ensure the best possible match, because of the lack of provision that we have within the fostering sector."*[278]

## Hyfforddi, cefnogi a phroffesiynoli gofalwyr maeth

**157.** Roedd rhai yn dadlau bod angen mwy o gymorth ar ofalwyr maeth. Rhannodd Barnardo's ganfyddiadau trafodaeth grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda'r rhai sy'n gadael gofal, a awgrymodd mai'r neges sy'n cael ei chyfleu ar hyn o bryd yw bod gofalu am blant a phobl ifanc yn brofiad gwerth chweil sy'n rhoi boddhad mawr, ond bod gan ofalu ei heriau a bod rhaid tynnu sylw at y rhain.[279] Dadleuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a rhiant maeth unigol y dylid proffesiynoli gofal maeth i'w wneud yn fwy deniadol, ond y byddai hynny'n anochel yn golygu y byddai angen buddsoddiad sylweddol.[280] Awgrymodd eraill y byddai gofalwyr maeth yn elwa ar fwy o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant ar ddulliau therapiwtig o ran gofal maeth ac ar sut i baratoi pobl ifanc ar gyfer eu bywydau ar ôl gofal.[281]

## Cynigion ar gyfer cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth

**158.** Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (y cyfeirir ato fel y 4 C) wedi datblygu cronfa ddata ar-lein i helpu timau comisiynu awdurdodau lleol i baru plant o dan eu gofal â lleoliadau maethu addas. Fodd bynnag, dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol wrthym nad yw'r gronfa ddata yn gweithio yn ôl y disgwyl. Yn hytrach na helpu timau lleoli awdurdodau lleol i nodi lleoliadau addas yn y lleoliad cywir, mae'r gronfa ddata wedi ychwanegu haen o fiwrocratiaeth, sydd wedi gwaethygu'r sefyllfa.[282]

**159.** Galwodd y Rhwydwaith Maethu am 'Gofrestr Genedlaethol o Ofalwyr Maeth', sydd â'r:

> *"… potential to make a significant difference in respect of the quality and availability of provision for children. A national register would bring foster carers in line within all other roles within the children's workforce which are registered and regulated, improving the status of foster carers. A register would*

---

[278] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 20
[279] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru
[280] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
[281] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 10 Unigolyn; PPIA, 'Cynigion ar gyfer camau diwygio radical gan rai oedd yn bresennol yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' gan Voices from Care , Chwefror 2023, tudalen 2; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 26 Penny Jones, Cynghorydd Sir
[282] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 61; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 13

> *enforce a vital layer of safeguarding which does not currently exist. This lack of oversight poses a risk to the vulnerable cohort of looked after children. Creating a national register ensures complete transparency of the foster care workforce, their skillset, location, and their availability for the children who need them."*[283]

Cawsom gynnig tebyg gan riant maeth unigol a ymatebodd i'n hymgynghoriad.[284]

**160.** Byddai'r gofrestr arfaethedig yn cael ei chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a byddai ganddi ddau fudd penodol:

1. **Byddai'n gwella diogelu plant mewn gofal**. Byddai'n ofynnol i ofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo naill ai gan awdurdodau lleol neu gan ddarparwyr annibynnol gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, er cysondeb â rolau eraill sydd â chysylltiad dyddiol sylweddol â phlant, megis gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn cartrefi plant, unedau diogel a lleoliadau gofal rheoleiddiedig eraill.

2. **Byddai'n gwella'r trosolwg cenedlaethol o leoliadau maethu yng Nghymru.** Byddai angen i ofalwyr maeth gyflwyno gwybodaeth benodol i Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys eu lleoliad a nifer y lleoliadau y gallant eu darparu. Byddai hyn yn rhoi trosolwg cenedlaethol o'r holl leoliadau maethu a ddarperir gan ofalwyr maeth cofrestredig.

**161.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog am ei barn ar gofrestr genedlaethol o'r holl leoliadau maethu. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio'r cynnig, ac roedd hi'n cydnabod y gallai liniaru biwrocratiaeth a chynyddu statws gofalwyr maeth. Fodd bynnag, awgrymodd efallai nad yw hynny'n uchel ar restr o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac y byddai angen ymgynghori ymhellach â gofalwyr maeth cyn datblygu'r cynnig.[285]

**DIWYGIAD RADICAL #10**

**Mandadu pob gofalwr maeth i gofrestru'n uniongyrchol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, yn unol â rolau eraill sydd â chyswllt dyddiol sylweddol â phlant, a chreu cofrestr genedlaethol o'r holl leoliadau maethu a gofalwyr maeth cymeradwy ledled yr awdurdod lleol a'r sector annibynnol.**

Mae'n gwbl glir bod prinder cenedlaethol o leoliadau gofal maeth o ansawdd. Weithiau, nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw ddewis ond anfon plant y tu allan

[283] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Rhwydwaith Maethu
[284] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 7 Rhiant Maeth
[285] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 245

i'w hardal enedigol – sy'n gallu cyflwyno risgiau diogelu ychwanegol - neu i leoliadau y gwyddant na fyddant yn iawn i'r plentyn. Mae hyn yn arwain at oblygiadau enfawr i blant mewn gofal ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllid awdurdodau lleol, sydd eisoes dan bwysau.

Clywsom dystiolaeth ofidus gan rai pobl ifanc am y trawma a brofwyd ganddynt mewn gofal maeth. Clywsom am lawer o achosion o blant sydd wedi cael eu symud sawl gwaith o un lleoliad maethu i'r llall, a chlywsom am ba mor ansefydlog y gall y symudiadau hynny fod.

Dyma'r cyd-destun hefyd lle clywsom nad oes gan dimau lleoli awdurdodau lleol unrhyw ffordd o wybod faint o leoliadau sydd ar gael ledled y wlad, na ble mae'r lleoliadau.

Dyma'r cyd-destun hefyd lle nad oes angen i ddarparwyr maeth, mewn bwlch diogelu, gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, yn wahanol i eraill sydd â chysylltiad dyddiol â rhai o'n plant mwyaf agored i niwed.

Byddai cofrestr ledled Cymru yn gam sylweddol ymlaen i wella'r trosolwg cenedlaethol sydd gennym o leoliadau maethu.

Credwn y dylai hyn fod yn uchel i fyny ar restr flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r cynigion ar gyfer cofrestr o ofalwyr maeth, fel yr amlinellwyd gan y Rhwydwaith Maethu, yn synhwyrol ac yn rhesymegol. Ni allant hwy ar eu pennau eu hunain roi i bob plentyn mewn gofal y gofalwr maeth o ansawdd uchel yr haedda. Ond byddai cofrestr genedlaethol yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gofrestr gyda'r brys y mae'n ei haeddu.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ariannu a darparu (gan gynnwys deddfu yn ôl yr angen) cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, i'w chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai'r gofrestr nodi manylion am statws cymeradwyo gofalwyr maeth, dyddiad adolygu'r gymeradwyaeth, lleoliad yr awdurdod lleol, nifer y lleoliadau ac a ydynt yn awdurdod lleol neu'n ddarparwr annibynnol. Dylid datblygu'r gofrestr honno law yn llaw â rhanddeiliaid allweddol, megis y Rhwydwaith Maethu, a dylai gynnwys ymgynghoriad trylwyr â gofalwyr maeth a darparwyr gwasanaethau maethu ledled Cymru.

**162.** Rydym yn cymeradwyo'r bwriad y tu ôl i'r gronfa ddata ar-lein o leoliadau maethu a ddarperir gan y '4 C'. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r gronfa ddata'n gweithio mor effeithiol ag y gallai, ac mae angen adolygiad trylwyr ac un sy'n sicrhau mewnbwn ymarferwyr rheng flaen. O ystyried prinder lleoliadau o ansawdd i blant mewn gofal, dylai'r gwaith hwn gael ei wneud - ar frys – law yn llaw â sefydlu cofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth.

**Argymhelliad 15.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad o gronfa ddata ar-lein '4 C' yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr rheng flaen, i nodi a gweithredu gwelliannau i'r gronfa ddata er mwyn symleiddio'r broses o gomisiynu lleoliadau.

## Materion pwysig eraill

### Ysgolion

#### Addysg fel 'rhiant corfforaethol'

**163.** Mae cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya yn cyfeirio'n fanwl at gyfrifoldebau addysg fel rhiant corfforaethol:

> *"Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo llwyddiant addysgol fel rhan annatod o'u dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo llesiant y plant y maent yn gofalu amdanynt. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt roi ystyriaeth benodol i oblygiadau addysgol unrhyw benderfyniad yn ymwneud â llesiant cyffredinol y plentyn."*

**164.** Mae'r cod hefyd yn nodi:

> "Wrth benderfynu ble i leoli plentyn sy'n derbyn gofal, dylai awdurdod lleol wneud popeth posibl i leihau unrhyw amharu ar addysg y plentyn. Mae hyn yn golygu gwneud pob ymdrech i drefnu lleoliad gofal sy'n golygu bod modd parhau â'r ddarpariaeth addysgol bresennol, lle bo hynny er budd pennaf y plentyn."[286]

**165.** Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau hefyd fod gan bob plentyn dan eu gofal gynllun addysg personol (PEP) effeithiol ac o ansawdd uchel.[287]

**166.** Yn hanesyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod â nifer o bolisïau a strategaethau proffil uchel a oedd wedi'u bwriadu i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Cafodd y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ymestyn i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn 2013-14. Ers 2015-16, mae wedi'i ddyrannu i'r consortia rhanbarthol yn hytrach nag ar lefel ysgol. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog hefyd yn cyfeirio at fodel yr 'Ysgol Rithwir':

---


[286] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)', tudalennau 18-19
[284] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)', tudalennau 18-19

> *"Nod dull yr Ysgol Rithwir yw gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal (ac, mewn rhai achosion, pobl ifanc mewn darpariaeth ôl-16) ar draws awdurdod lleol fel pe baent mewn ysgol unigol, i godi cyrhaeddiad addysgol, gwella presenoldeb a gwella sefydlogrwydd addysgol. Mae Ysgol Rithwir yn offeryn sefydliadol sydd wedi'i greu i gydlynu cefnogaeth yn effeithiol i'r grŵp hwn ar lefel strategol a gweithredol."*[288]

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi nodi'n flaenorol i'r Pwyllgor mai £1.1 miliwn yw cyllideb y model Ysgolion Rhithwir, ac y bydd y cynllun peilot yn parhau i'w flwyddyn olaf yn 2023-24.[289] Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y bydd gwerthusiad o'r Model Ysgolion Rhithwir yn cael ei gynnal dros y flwyddyn nesaf, gan edrych ar ddull gweithredu, effaith a gwerth am arian y cynllun peilot.[290]

**167.** Er gwaethaf y polisïau a'r uchelgeisiau hyn, yn hanesyddol mae cyrhaeddiad plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn sylweddol is na disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phob disgybl yn 2017, 2018 a 2019.

**Ffigur 4.1: Canran y plant sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg yng nghyfnod allweddol 4**
***Ffynonellau: StatsCymru,*** *'Cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl mesur a blwyddyn'* ***a*** *'Mesurau Interim Cyfnod Allweddol 4 fesul blwyddyn, o 2018/19'*




[288] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 47 Llywodraeth Cymru
[289] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19/12/22
[290] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 47 Llywodraeth Cymru, tudalen 9

**168.** Mae'r 'datganiad Diwygio Radical', a lofnodwyd gan y Prif Weinidog a phlant mewn gofal ym mis Mai 2023, yn cynnwys y 'weledigaeth' ganlynol:

> *"Care experienced children and young people will do as well at school and college as other children and young people, getting good qualifications and access to opportunities."*[291]

**Profiadau pobl ifanc o'r ysgol**

**169.** Mae canllawiau 2017 Llywodraeth Cymru, 'Gwneud Gwahaniaeth', yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r person dynodedig mewn ysgolion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r canllawiau'n ystyried sut y gall ysgolion gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn effeithiol, gweithio gyda gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, eiriolwyr a gweithwyr proffesiynol allanol eraill i hyrwyddo addysg a lles y person ifanc. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am gynlluniau llwybrau ac Ymgynghorwyr Pobl Ifanc, trefniadau byw ôl-16 a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i staff yr ysgol. Yn hollbwysig, mae'r canllawiau hefyd yn amlinellu barn plant a phobl ifanc ynghylch sut maent eisiau cael eu trin mewn ysgolion mewn fideo a grëwyd gan bobl ifanc ac ymchwilwyr CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd.[292]

**170.** Fodd bynnag, mae'r hyn a glywsom gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn awgrymu nad yw'r arfer gorau a nodir yn y canllawiau hynny'n cael ei ddilyn fel mater o drefn mewn ysgolion. Clywsom fod gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn dod i'r ysgol yn rheolaidd, yn ystod oriau ysgol, ar gyfer cyfarfodydd, gan wisgo bathodynnau enw neu fel arall yn ei gwneud yn amlwg bod y plentyn mewn gofal, gan atgyfnerthu'r stigma a'r bwlio mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu yn yr ysgol.[293] Dywedodd rhai o'r rhai a oedd wedi gadael gofal y bu i ni siarad â nhw fod hyn yn golygu nad oeddent byth yn cael seibiant o'u profiadau o'r system ofal.[294] Nododd Voices From Care safbwyntiau tebyg gan y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.[295]

**171.** Roedd rhai pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn teimlo nad yw ysgolion bob amser yn cefnogi dysgwyr yn briodol. Mae rhai staff ysgol yn cymryd yr amser i ddeall y materion y mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu,

---

[291] Llywodraeth Cymru, 'Uwchgynhadledd Diwygio Radical: Datganiad', 18/05/23, tudalen 7
[292] Llywodraeth Cymru, 'Gwneud gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion', Tachwedd 2017
[293] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 25-26; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023
[294] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 24
[295] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 153

ond nid yw eraill yn gwneud hynny.[296] Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym, os yw pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn arddangos ymddygiad heriol, y gall ysgolion ddod i'r casgliad nad yw'r plentyn yn ddisgybl da ac na fydd yn gallu cael graddau da, yn hytrach na'u bod yn ceisio deall y trawma sy'n sail i'r ymddygiad a rhoi ymyriadau ar waith i helpu.[297] Dywedodd eraill wrthym nad yw rhai ysgolion yn ddigon uchelgeisiol i ddysgwyr mewn gofal. Dywedodd un person ifanc wrthym fod gweithwyr proffesiynol, ar y cyfan, yn credu nad yw pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn mynd i'r brifysgol. Clywsom alwadau am fwy o hyfforddiant ar brofiad o ofal i holl staff ysgolion - nid athrawon yn unig - a chyngor gyrfaoedd gwell.[298]

**172.** Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn symud ysgolion yn rheolaidd, a chlywsom y gall hyn fod yn brofiad trawmatig.[299] Dywedodd rhai o'r rhai sy'n gadael gofal wrthym eu bod yn ei chael yn anodd iawn gwneud ffrindiau hirdymor ac adeiladu rhwydwaith cymorth.[300] Dywedodd un fenyw ifanc wrthym ei bod wedi gorfod symud ysgol oherwydd, ar ôl newid gofalwyr maeth, fod y tacsis yr oedd eu hangen i barhau i fynychu'r un ysgol yn rhy ddrud. Roedd hyn yn golygu ei bod wedi colli ei grŵp o ffrindiau, a oedd yn wirioneddol bwysig iddi.[301] Roedd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cytuno bod parhad yn addysg ysgol plant yn bwysig. Dylai plant aros yn yr un ysgol lle bynnag y bo modd, i ddatblygu a chynnal grwpiau ffrindiau.[302]

**173.** Roedd y Dirprwy Weinidog yn cytuno bod gweithwyr proffesiynol yn cymryd plant allan o'r dosbarth i gael cyfarfod neu gynhadledd mor ansensitif, ac roedd yn ei chael hi'n anodd credu bod hyn yn dal i ddigwydd. Dywedodd fod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ymwybodol o bryderon pobl ifanc am ysgolion, ac y byddai'n bwrw ymlaen â'r materion hynny ar ran Llywodraeth Cymru.[303]

---

[296] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 25-26; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 4 TACT Fostering, tudalen 1
[297] PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalen 3-4; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6
[298] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru, tudalen 6; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 26 a 28
[299] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 4 TACT Fostering, tudalen 26
[300] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 25
[301] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 25
[302] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 14
[303] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 322 a 324

## Chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill

**174.** Dywedodd pobl ifanc wrthym fod chwaraeon, neu weithgareddau allgyrsiol eraill, yn bwysig iawn iddynt. Roeddent yn eu helpu i wneud cysylltiadau â phlant eraill, yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt ac yn gyfle i ryddhau emosiynau. Roedd gweithwyr proffesiynol o'r un farn.[304] Fodd bynnag, mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu rhwystrau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon, megis:


- Cost: mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn gefnogol ac yn eu helpu i gael yr arian sydd ei angen arnynt i brynu offer neu offerynnau ac ati. Ond weithiau mae pobl ifanc yn teimlo'n lletchwith yn gofyn am arian ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, ac o bosibl yn oedi cyn gofyn i'w gofalwr maeth, neu efallai'n osgoi gofyn o gwbl.

- Caniatâd: mae'n gallu bod yn anodd cael caniatâd i fynd ar deithiau ysgol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae mynd dramor ar deithiau yn arbennig o heriol. Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod wedi gorfod mynd i'r llys i gael caniatâd i fynd ar daith rygbi.[305]

## Gofal preswyl

**Ffigur 4.2: Canran y bobl ifanc 11-16 oed â phrofiad o ofal a gafodd eu bwlio yn ystod y mis neu ddau diwethaf yn ôl statws gofal**

***Ffynhonnell: DECIPHer,*** *'Pobl Ifanc sy'n 'Derbyn Gofal' yng Nghymru: canfyddiadau o Arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (2017/18)'*




[304] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 15 a 20; PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalennau 16 - 17
[305] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 24-26

**175.** Ar 31 Mawrth 2022, roedd 8.3% o blant mewn gofal wedi'u lleoli mewn gofal preswyl.[306] Bydd hyn yn cynnwys rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn y system ofal.

**176.** Fodd bynnag, clywsom bryderon am brofiadau pobl ifanc mewn gofal preswyl. Cododd rhai o'r rhieni geni y bu i ni siarad â nhw bryderon am arferion diogelu gwael mewn rhai lleoliadau gofal.[307] Dywedodd Voices From Care fod rhai pobl ifanc yn teimlo bod plant mewn gofal preswyl weithiau'n cael eu trin yn llai ffafriol na phlant mewn gofal maeth, a chododd eraill bryderon am y ffaith nad oedd gan staff gofal preswyl y gwerthoedd cywir ar gyfer gwaith yn y sector, neu fod angen hyfforddiant ychwanegol arnynt.[308] Fel y trafodir gennym ym mhennod 5, nid yw pobl ifanc mewn gofal preswyl yn gymwys ar gyfer 'Pan Fydda i'n Barod', felly nid ydynt yn cael yr un cyfleoedd â phobl ifanc mewn gofal maeth i elwa ar sefydlogrwydd aros yn eu lleoliad gofal preswyl y tu hwnt i 18 oed.

**177.** Clywsom fod y gweithlu gofal preswyl yn wynebu heriau sylweddol. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol hefyd yn teimlo bod angen hyfforddiant ychwanegol ar staff gofal preswyl, yn benodol ynghylch problemau trawma ac ymlyniad. Dywedodd eraill wrthym fod diffyg gwerthfawrogiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan staff gofal preswyl, a bod hyn yn cyfrannu at drosiant staff uchel, sy'n peri gofid i bobl ifanc.[309] Roedd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno, gan ddweud wrthym mai'r her fwyaf o ran dod o hyd i leoliadau addas yw'r gweithlu. Mae'n anodd iawn cael mynediad i'r math cywir o leoliad i ddiwallu holl anghenion plant a phobl ifanc.[310] Rhannodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru dystiolaeth debyg, gan ychwanegu bod gofal preswyl yn mynd yn gynyddol ddrud oherwydd cynnydd yn y galw, yn enwedig i blant ag anghenion cymhleth.[311]

## Gofal gan berthynas

**178.** Gofal gan berthynas yw pan fo plentyn yn byw yn llawn amser neu'r rhan fwyaf o'r amser gyda pherthynas neu ffrind agos i'r teulu. Gall trefniadau gofal gan berthynas fod yn anffurfiol (h.y. heb ymwneud y llysoedd), neu gallant fod yn ffurfiol, naill ai drwy orchymyn llys (i roi cyfrifoldeb rhiant i'r aelod o'r teulu/ffrind) neu drwy ofal maeth gan berthynas.

**179.** Clywsom gan weithwyr proffesiynol am y cynnydd a fu mewn lleoliadau gofal gan berthynas ac am y symud i ffwrdd o fabwysiadu a fu fel opsiwn gofal

[306] StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad'
[307] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6
[308] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru
[309] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 17
[310] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 60
[311] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 44 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

hirdymor. Roedd rhai'n ansicr a oedd y cynnydd mewn gofal gan berthynas yn brofiad cadarnhaol i bob plentyn, ond teimlent ei fod yn ganlyniad anfwriadol o'r polisi i leihau nifer y plant mewn gofal.[312] Rhoddodd yr NSPCC amcangyfrif i ni bod tua 10,000 o blant yn byw mewn trefniadau gofal gan berthynas yng Nghymru, gyda llawer ohonynt yn anhysbys i awdurdodau lleol.[313]

**180.** Clywsom alwadau cyson am roi mwy o gymorth i ofalwyr sy'n berthnasau, yn unol â gofalwyr maeth. Esboniodd swyddogion cyngor Sir Fynwy fod darpar ofalwyr maeth sy'n berthnasau yn cael eu hasesu yn erbyn rheoliadau maethu. Gall hyn olygu bod cyrraedd y trothwy gofynnol i ofalu am y plentyn yn heriol i aelodau'r teulu. Pan na all aelod o'r teulu fodloni'r rheoliadau maethu llym ond y byddai cael ei leoli gyda'r aelod hwnnw o'r teulu er budd pennaf y plentyn, bydd yr aelod o'r teulu yn colli'r cymorth ariannol a ddaw fel rhan o hynny.[314] Cyflwynodd Barnardo's dystiolaeth debyg, gan ddadlau y gall gofalwyr sy'n berthnasau, yn enwedig gyda'r cymorth cywir fel y gwelwyd gyda gwasanaeth Teuluoedd Gyda'i Gilydd Sir Fynwy, gynnig cartref sefydlog, cariadus i blant, ond ei fod yn afrealistig disgwyl i ofalwyr maeth sy'n berthnasau gyrraedd yr un safonau â gofalwyr maeth.[315] Clywsom dystiolaeth debyg gan Voices From Care, Seneddwr Ieuenctid Cymru, Rosie Squires, sydd ei hun â phrofiad o ofal gan berthnasau, ac eraill.[316] Roedd Barnardo's hefyd am weld gofalwyr sy'n berthnasau, sy'n ceisio cyfrifoldeb rhiant o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, yn parhau i dderbyn taliadau gofal maeth gan berthynas, sy'n arfer cyfredol yn Sir Fynwy. Eu dadl oedd y byddai hyn yn golygu na fyddai gofalwyr sy'n berthnasau dan anfantais ariannol yn sgil mynd ar drywydd Trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig.[317]

**181.** Fodd bynnag, clywsom bryderon hefyd am drefniadau gofal gan berthynas. Dywedodd rhai rhieni geni wrthym fod y gwasanaethau cymdeithasol yn chwilio am ofalwyr sy'n berthnasau yn nheulu'r plentyn, a all achosi rhwygiadau yn anfwriadol rhwng aelodau'r teulu a gwanhau system gymorth sydd eisoes yn fregus i famau ifanc.[318] Cwestiynodd rhieni geni eraill pa mor briodol oedd rhai lleoliadau gofal gan berthynas. Cafodd plentyn un fenyw ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ei leoli gyda'i mam (nain y plentyn). Fodd bynnag, roedd y fenyw ifanc ei hun wedi cael ei thynnu o ofal ei mam. Ers hynny, mae'r plentyn wedi cael ei dynnu o'r lleoliad gofal gan berthynas hwnnw. Roedd rhai o'r gweithwyr

---

[312] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 13-14
[313] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 42 Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
[314] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 24
[315] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru
[316] PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalen 17; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 17 Gweithredu dros Blant Cymru; PPIA, 'Cynigion ar gyfer camau diwygio radical gan rai oedd yn bresennol yn nigwyddiad 'Falch o Fod yn Fi' gan Voices from Care, Chwefror 2023, tudalen 9
[317] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru
[318] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 16

proffesiynol y bu i ni siarad â nhw hefyd yn awgrymu bod aelodau o'r teulu weithiau'n cael eu rhoi dan bwysau i ofalu am blant pan nad oeddent o reidrwydd mewn sefyllfa dda i wneud hynny.[319]


## Dileu elw preifat o ofal plant

**182.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddeddfwriaeth sy'n ceisio dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae'r pwyslais cychwynnol ar ddarpariaeth breifat gofal preswyl i blant, ynghyd â gofal maeth y sector annibynnol.

**183.** Clywsom gefnogaeth gyffredinol i ddileu elw o ofal plant, gan gynnwys gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[320] Roedd rhai yn teimlo'n gryf bod y rhan fwyaf o ofalwyr maeth yn gwneud y gwaith am yr arian, ac roedd un person ifanc yn teimlo bod gofalwyr maeth yn manteisio ar y system i leihau'r gost o ddarparu gofal er mwyn cynyddu eu hincwm. Pwysleisiodd Seneddwr Ieuenctid Cymru, Rosie Squires, mai pobl oeddent, nid modd o wneud elw.[321]

**184.** Roedd gweithwyr proffesiynol, academyddion a sefydliadau hefyd yn cefnogi'r fenter yn eang.[322] Fodd bynnag, roedd gan lawer bryderon yr un fath am y dull gweithredu, ac yn benodol am y ffaith y gallai cael gwared ar leoliadau sy'n gwneud elw cyn sicrhau bod digon o leoliadau nid-er-elw ar gael ei gwneud hi'n fwy heriol nag erioed i ddod o hyd i leoliadau addas i blant.[323]

**Ffigur 4.3: Plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl lleoliad y gofal; 2022**
***Ffynhonnell: StatsCymru,*** *'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a lleoliad y gofal'*




[319] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 13-14
[320] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru; PPIA, 'Cynigion ar gyfer camau diwygio radical: PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 23-24
[321] PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalennau 18
[322] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 16 Platfform; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 7 Rhiant Maeth
[323] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 24; PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 83; PPIA, 17/11/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 73;

**185.** Clywsom gan weithwyr proffesiynol y byddai newidiadau o'r maint hwn i'r farchnad gofal cymdeithasol yn cymryd 10 i 15 mlynedd ac y byddai gwneud hyn o fewn yr amserlenni presennol o 5 mlynedd yn gwaethygu'r broblem bresennol o ran y cyflenwad a'r galw.[324] Crynhodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol farn llawer:

> *"… the value base of that, actually, all head of services I'm sure would agree, is sound in terms of making sure that the money that we spend in supporting our young people is projected towards the most positive outcomes for them. We are, however, in a transitional phase, where we've launched eliminate-for-profit and that has created some differences in our market, currently. And local authorities very much welcome the capital support that they are having to expand our residential care provision, but, naturally, building residential care provisions and the staffing that that requires and taking that through regulation is a time-intensive programme."*[325]

**186.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai dileu elw o ofal plant yw un o brif ymrwymiadau'r Llywodraeth, gan alw'r farchnad bresennol yn anghynaliadwy a chan gydnabod barn pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar fod yn gyfleoedd i wneud elw. Ychwanegodd swyddog y dylai dileu elw o ofal ryddhau cyllid a allai gael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau atal a gwasanaethau eraill.[326] Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i gydnabod yr heriau gyda'r dull gweithredu:

> *"… particularly the risk to sufficiency while we change over to make sure that there are enough placements available during that period. We have put in place a programme to manage this procedure… the board membership does include private providers, private foster carers, residential providers, where we're discussing what the implications are of this policy change… We are also working with local authorities to develop their placement commissioning strategies from 2023 to 2027. And as [a Welsh Government official] has already said, we're providing revenue funding of £68 million over the next three years to help grow local authority and not-for-profit provision."*[327]

---

[324] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 14
[325] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 63
[326] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 218 a 238
[327] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 239-240

## Materion diogelwch a hawliau

### Llety anghofrestredig

**187.** 'Llety anghofrestredig' yw'r term a ddefnyddir yn helaeth i ddisgrifio llety lle mae'r darparwr yn darparu 'gofal' i blentyn dan 18 oed, ond nad yw wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r diffiniad o 'ofal' yn y cyd-destun hwn wedi'i nodi yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i olygu gofal mewn perthynas â "thasgau ac anghenion corfforol unigolyn sy'n derbyn gofal o ddydd i ddydd a'r prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau neu'r anghenion hynny, er enghraifft bwyta ac ymolchi", a'r "prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau neu'r anghenion hynny".[328]

**188.** Mae lleoli plant mewn gofal mewn llety anghofrestredig yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. Serch hynny, clywsom fod nifer cynyddol o blant yn byw mewn lleoliadau anghofrestredig. Dyma a oedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru i ddweud am y lleoliadau hyn:

> "*Mae gwasanaethau o'r fath yn anghyfreithlon ac nid oes ganddynt y mesurau diogelu ar waith sydd gan wasanaethau cofrestredig. Yn aml mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, gan adleoli eu staff eu hunain iddynt neu ddefnyddio gweithwyr asiantaeth. Mae llety yn cynnwys llety AirBnB sydd, mewn rhai achosion, wedi golygu bod plant wedi gorfod symud sawl gwaith o'r naill eiddo i'r llall. Ar adegau, mae'r lleoliadau hyn wedi bod y tu allan i ardal leol y plentyn ac mae llawer o leoliadau na allant ddiwallu eu hanghenion therapiwtig a/neu ofal. Ym mhob achos mae AGC yn ystyried a yw'r trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad troseddol ac erlyn wedi'i fodloni gan gydnabod, ar yr un pryd, ddyletswydd yr awdurdod lleol i ofalu am y plentyn.*"[329]

Dywedodd CAFCASS Cymru wrthym fod eu hymarferwyr yn poeni am y defnydd cynyddol o leoliadau anghofrestredig ledled Cymru a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar blant a phobl ifanc, ar eu hiechyd, eu haddysg, eu sefydlogrwydd a'u hanghenion unigol.[330]

**189.** Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym eu bod yn wynebu heriau digynsail ynghylch y defnydd o leoliadau

[328] Legislation.gov.uk, 'Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016', adran 3
[329] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[330] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 46 CAFCASS Cymru

anghofrestredig, ac nad oes unrhyw un am wneud hyn, ac mai dyma'r dewis olaf. Y dewis arall yw gyrru o gwmpas, meddent, gyda'r plentyn yng nghar y gweithiwr cymdeithasol. Maent yn nodi'r trefniadau diogelu sydd ar waith os yw plentyn yn cael ei leoli mewn llety anghofrestredig:

> *"… you notify CIW, and then you have oversight from CIW in terms of a weekly reporting mechanism into them and they have their own structure of panel for how that goes through the regulatory system. From a local authority perspective, what we put in place is a really strong web around that child, around that placement: the social worker, the reviewing officer, your placement team, trying to ensure that, for example, you've got a mix of your own staff and, potentially, agency staff and how you match it."*[331]

**190.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod lleoliadau anghofrestredig yn digwydd yn sgil argyfwng, gan ychwanegu bod y defnydd o lety anghofrestredig yn arwydd o'r prinder lleoliadau addas.[332]

**Llety heb ei reoleiddio**

**191.** Nid yw gwasanaethau sy'n darparu llety i blentyn neu berson ifanc ond nad ydynt yn darparu 'gofal' iddynt (gweler uchod) - y cyfeirir atynt fel 'llety heb ei reoleiddio' - yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae llety heb ei reoleiddio yn gyfreithlon yng Nghymru os yw'r awdurdod lleol yn credu bod angen *cymorth* ar y person ifanc i fyw yn annibynnol, ond nad oes angen *gofal* arno. Mae llety â chymorth a thai â chymorth yn enghreifftiau o lety heb ei reoleiddio. Mae amgylcheddau llai cefnogol, megis llety gwely a brecwast, AirBnBs a hosteli, hefyd yn enghreifftiau o lety heb ei reoleiddio.

**192.** Mae cod ymarfer Llywodraeth Cymru yn nodi y gall rhai mathau o lety heb ei reoleiddio, megis llety â chymorth neu dai â chymorth, fod yn briodol ar gyfer rhai plant mewn gofal sy'n 16 oed neu'n hŷn.[333] Yn Lloegr, gwnaeth Llywodraeth y DU hi'n anghyfreithlon o fis Medi 2021 i letya plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal hyd at 15 oed mewn llety heb ei reoleiddio. Mae Llywodraeth y DU yn gweithio tuag at ryw fath o reoleiddio ar gyfer pob cartref heb ei reoleiddio ar hyn o bryd erbyn 2024.[334]

[331] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 69-74
[332] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 287
[329] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)', tudalennau 35-36
[334] Gov.uk, 'Government bans unregulated accommodation for young people in care', 23/03/23

**193.** Clywsom bryderon am lety heb ei reoleiddio nad yw'n darparu cymorth – megis llety gwely a brecwast, AirBnBs a hosteli - yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n dal i fod yng ngofal yr awdurdod lleol. Dywedodd NYAS Cymru wrthym fod niferoedd y plant sy'n byw mewn llety heb ei reoleiddio yng Nghymru wedi cynyddu 18% ers 2018-19, sy'n ei gwneud hi'n gynyddol heriol cadw plant yn ddiogel ble maent yn byw.[335] Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod wedi cael ei daflu allan o'i leoliad maethu. Dywedodd wrth ei Gynghorydd Personol, a awgrymodd y dylai aros mewn llety gwely a brecwast. Dywedodd y person ifanc wrthym nad oedd yn teimlo'n ddiogel yno – roedd pobl yn y llety gwely a brecwast a oedd newydd ddod allan o'r carchar.[336] Cododd rhai gweithwyr proffesiynol bryderon tebyg, gan ddweud wrthym fod llawer o blant mewn llety heb ei reoleiddio yn arbennig o agored i niwed.[337]

**194.** Galwodd rhai sefydliadau am wneud pob llety heb ei reoleiddio yn anghyfreithlon yng Nghymru i blant mewn gofal. Dywedodd Plant yng Nghymru wrthym na ddylai unrhyw blentyn gael ei roi mewn llety nad yw'n destun cofrestriad, neu gael ei roi mewn llety heb ei reoleiddio.[338] Roedd NYAS Cymru yn cytuno, gan ddadlau y dylai Llywodraeth Cymru wahardd pob math o lety heb ei reoleiddio yn llwyr. Roeddent yn dadlau o blaid gwaharddiad graddol ar y defnydd o lety heb ei reoleiddio. Byddai eu cynigion yn golygu gwahardd llety heb ei reoleiddio ar gyfer plant a phobl ifanc dan 16 oed yn syth, yna ymestyn y gwaharddiad yn raddol i gynnwys pobl ifanc 16 oed, yna pobl ifanc 17 oed, gan sicrhau bod digon o lety amgen priodol cyn pob estyniad i'r gwaharddiad. Roedd NYAS yn dadlau y byddai hyn yn lliniaru'r pryder ynghylch prinder lleoliadau priodol, ac anogodd Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu cynllun gweithredu ar draws meysydd polisi gan gynnwys gofal cymdeithasol a thai i fynd i'r afael â'r prinder hwn.[339]

**195.** Fodd bynnag, pwysleisiodd Llamau y gwahaniaeth rhwng y llety â chymorth a ddarperir ganddynt hwy a sefydliadau tebyg eraill a llety heb ei reoleiddio megis llety gwely a brecwast. Aethant ymlaen i esbonio eu bod yn darparu gofodau pedwar i chwe gwely er mwyn ceisio creu amgylchedd hynod gefnogol a theuluol sy'n cael ei lywio gan seicoleg a thrawma, gyda staff sy'n derbyn goruchwyliaeth a hyfforddiant gan seicolegwyr. Ychwanegodd Llamau, er nad yw eu llety â chymorth yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru gan nad yw'n darparu

---

[335] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)
[336] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 15
[337] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 21
[338] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan
[339] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)

gwasanaethau 'gofal', ei fod yn cael ei reoleiddio gan yr awdurdod lleol mewn partneriaeth â gwasanaethau tai a phlant.[340]

**196.** Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog wrthym na allai weld unrhyw amgylchiadau lle y dylai plentyn o dan 16 oed gael ei roi mewn lleoliad heb ei reoleiddio. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod y DU wedi gwahardd lleoliadau heb eu rheoleiddio ar gyfer plant o dan 16 oed a'i bod yn awyddus i weld beth sy'n digwydd gyda hynny ac a oes unrhyw oblygiadau o wneud hynny."[341]

### Llety diogel a Gorchmynion Amddifadu o Ryddid (DoLs)

**197.** Gall plant gael eu hamddifadu o'u rhyddid am resymau lles neu oherwydd bod risgiau i'w diogelwch. Gorchymyn Amddifadu o Ryddid (DoL) yw'r enw ar hyn. Clywsom bryderon dro ar ôl tro fod nifer y DoLs yng Nghymru ar gynnydd. Yn bennaf, mae'n ymddangos mai prinder llety diogel addas sydd i gyfrif am hyn. Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew McFarlane, Llywydd yr Is-adran Deuluoedd, fod diffyg darpariaeth llety diogel i bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, a bod hwnnw'n brinder dybryd.[342] Roedd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn cytuno, gan ychwanegu bod rhai plant yn cael eu hystyried yn rhy 'heriol' i fod yn addas ar gyfer cartref diogel i blant. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y defnydd o awdurdodaeth gynhenid yr uchel lys i amddifadu plant o'u rhyddid mewn lleoliadau amgen meddent.[343] Awgrymodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y gallai awdurdodau lleol weithiau ffafrio DoL yn lle llety diogel oherwydd, o leiaf wrth ddefnyddio amddifadu o ryddid, y byddai plant yn cael eu cadw'n lleol ac yn eu cadw mewn amgylchedd sydd o bosibl yn fwy diogel, yn hytrach na'u bod yn gorfod mynd o bosibl i lety diogel yn Durham.[344]

**198.** Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant yn nodi bod ganddynt bryderon cynyddol am y defnydd o DoLs yng Nghymru, gan ddadlau nad yw'r defnydd o DoLs wedi'i gofnodi'n ddigonol. Mae'n annog y Pwyllgor i wneud 4 argymhelliad, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar y defnydd o DoLs yng Nghymru ac ar leoliadau priodol amgen ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, a bod yn rhaid i bob awdurdod

[340] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 153-155
[341] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 280
[342] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 149
[343] Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, 'What do we know about children and young people deprived of their liberty in England and Wales? An evidence review', 09/02/22
[344] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 106

lleol fynd ati ar unwaith i gyhoeddi data ar nifer y ceisiadau am orchmynion amddifadu o ryddid sy'n effeithio ar blant Cymru yn ganolog.[345]

**199.** Siaradodd Syr Nicholas Francis, Barnwr Cyswllt Is-adran Deuluoedd Cymru, â ni yn onest am y defnydd o DoLs yng Nghymru:

> *"I had one case recently where one of the Welsh Ministers attended court and the Children's Commissioner for Wales attended court. The Welsh Minister's view, as a matter of law is absolutely right, was this was for the local authorities to resolve. The local authorities were saying, 'We don't have any place to put them and we don't have the money to get the places'. And the children's commissioner says, 'If you put them in unregistered places, we're going to prosecute you' and Ofsted say, 'If you put them in unregistered places, we're going to prosecute you'*
>
> *… I had one particular case, which is still going on now, where this very troubled young woman—I think she's just 17 now—is moved every week from one secure placement to another secure placement, because there isn't anywhere that's registered to put her. And she's moved every week because if she stays in an unregistered place for more than a week, they're going to be prosecuted by either or both Ofsted and the children's commissioner… I think, for me, doing the job that I've been doing in Wales in recent years, this is the single biggest crisis point. It is absolutely desperate. You don't put somebody under a deprivation of liberty order unless you are absolutely at the extreme end of trouble, and I think it's a terrible problem."*[346]

**200.** Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog am ei barn am y defnydd cynyddol o DoLs yng Nghymru. Dywedodd wrthym:

> *"This is an issue of finding secure accommodation; it's one of the most difficult issues I've had to deal with since taking up this post. Because if the children are of a certain age, I have to agree to them going into secure accommodation, and it is very difficult to agree for relatively young children to go into secure accommodation. You have to feel absolutely convinced that there is no other alternative. That's been very difficult to do, but*

[345] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 14 Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant
[346] PPIA, 08/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 153-154

> *also it's made me aware that there are not enough places for children to have secure accommodation."*

Aeth ymlaen i nodi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £4.8 miliwn i ddatblygu darpariaeth amgen ar gyfer plant ag ymddygiadau arbennig o gymhleth. Mae'r gronfa integreiddio rhanbarthol (yr RIF) wedi dyrannu £14.5 miliwn i 13 prosiect, sydd wedi rhoi cymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal i atal hyn rhag digwydd. Ychwanegodd y bydd swyddogion yn mynychu gweithdy gyda Llywydd yr Is-adran Deuluoedd, Arolygiaeth Gofal Cymru, Ofsted a Llywodraeth y DU er mwyn deall sut y gallwn gefnogi awdurdodau lleol a'r system farnwrol er mwyn cefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn yn well.[347]

### Plant ar goll

**201.** Dywedodd Cymdeithas y Plant wrthym mai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal oedd 39% o'r holl achosion o blant ar goll yng Nghymru yn 2020, er eu bod yn cynrychioli llai na 2% o'r boblogaeth plant. Ychwanegodd y bydd naw o bob deg plentyn neu berson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n mynd ar goll yn cael eu riportio ar goll sawl gwaith yn yr un flwyddyn. [348]

**202.** Clywsom bryderon am blant sy'n mynd ar goll o ofal, ac i ba raddau y siaredir â nhw ar ôl iddynt ddychwelyd i gasglu gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod cyfweliadau dychwelyd adref yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc siarad am eu profiadau yn ystod cyfnod o fod ar goll. Fodd bynnag, mae'r dull o gynnal cyfweliadau dychwelyd adref yn amrywio ar draws Cymru. Roeddent yn galw am ymateb mwy cyson i gyfnodau lle mae plant yn mynd ar goll o ofal ledled Cymru.[349] Dywedodd NYAS Cymru wrthym:

> *"A child goes missing from care or from home in Wales every hour… Hopefully, most of them will be found safe and well, but of course, appalling abuses and exploitation can happen when children are reported missing. For most areas in Wales, there's a consistent return interview service. So, that's where someone, often independent of the child's care, will speak to the child about why they went missing… So, all of those things are really good at reducing the number of children that go missing in the future. The issue is that there's a very inconsistent practice across Wales. So, some areas commission services through police commissioners or through the police. In north Wales, it's*

[347] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 247-251
[348] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 43 Cymdeithas y Plant
[349] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 14

> *commissioned via local authorities or some have in-house services, and the criteria in which you're to interview a child are very, very different."*[350]

**203.** Galwodd Cymdeithas y Plant am i gyfweliadau dychwelyd annibynnol fod yn ofyniad statudol, am gryfhau canllawiau i ymarferwyr ar blant sydd ar goll, ac am gyhoeddi data ar blant coll gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol.[351]

## Ein barn ni

### Ysgolion

**204.** Mae gan ysgolion y potensial i fod yn angor i lawer o blant mewn gofal, gan ddarparu cysondeb a sefydlogrwydd i blant sy'n profi aflonyddwch a newid yn eu bywydau. Yn anffodus, mae'r hyn a glywsom gan bobl ifanc yn cyfaddawdu'r potensial hwnnw: straeon am weithwyr proffesiynol yn cynnal cyfarfodydd amdanynt yn yr ysgol ac yn gwisgo bathodynnau enw, gan ei gwneud yn amlwg i bawb eu bod mewn gofal, gan dreiddio i addysg y plant a'u gwneud yn gocyn hitio i fwlio. Straeon am gael eu trin yn wahanol: athrawon yn or-ofalus o'u cwmpas, yn ofni siarad â nhw am eu profiad gofal; straeon am gael eu tanbrisio, am ddiffyg ffydd ynddynt neu am gael eu camddeall.

**205.** Mae'r hyn rydym wedi ei glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc yn nodi nad yw polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal wedi cyflawni'r newid mawr sydd ei angen i sicrhau bod addysg ac ysgolion yn gwneud cyfraniad canolog at rianta corfforaethol. Ochr yn ochr â phrofiadau plant o ddydd i ddydd yn yr ysgol, mae cyrhaeddiad plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fod yn gyson ac yn annerbyniol is na chyrhaeddiad plant nad oes ganddynt brofiad o fod mewn gofal. Mae'r rhesymau dros y bwlch cyrhaeddiad hwn yn gymhleth ac mae modd priodoli llawer ohonynt i ffactorau y tu hwnt i reolaeth ysgolion unigol. Mae rhai - megis gorfodi plant i symud ysgolion, gyda'r holl darfu a cholli dysgu mae hynny'n ei olygu - yn amlwg. Mae eraill - megis y trawma mae llawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ei gario gyda nhw, ansawdd eu lleoliadau gofal, i ba raddau y maent yn dioddef stigma neu ddim yn cael eu clywed - yn llai amlwg. Ein gobaith yw y bydd y diwygiadau a'r argymhellion ar draws yr adroddiad hwn yn mynd beth o'r ffordd tuag at leihau effaith y llu o rwystrau mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu yn eu teithiau addysg.

---

[350] PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 181-183
[351] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 43 Cymdeithas y Plant

**206.** Cawsom ein taro gan y cyferbyniad rhwng profiadau pobl ifanc a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn 2017, 'Gwneud Gwahaniaeth'.[352] Mae'r canllawiau hynny'n mynd i'r afael yn benodol â llawer o'r pryderon mae pobl ifanc wedi'u codi gyda ni. Bydd ysgolion sy'n dilyn y canllawiau hynny'n fanwl yn gwneud camau sylweddol tuag at hybu lles ac addysg plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. O'r hyn a glywsom, mae'n amlwg nad yw'r canllawiau'n cael eu dilyn yn gyson.

**207.** Gofynnwn felly i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ymgynghori ag Estyn ac eraill i nodi i ni yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn pam nad yw profiadau nifer o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru, a'r hyn y mae ef ac eraill yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r bwlch gweithredu hwnnw.

**Argymhelliad 16.** Cyn gynted ag y bo modd, a heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag Estyn a rhanddeiliaid allweddol eraill i archwilio'r canlyniadau cyrhaeddiad diweddaraf sy'n ymwneud â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, canfod i ba raddau mae ysgolion yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn ei dogfen 2017 'Gwneud Gwahaniaeth', y rhwystrau mae ysgolion yn eu hwynebu wrth weithredu'r canllawiau hynny, a nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn gwella profiadau ysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

## Gofal preswyl

**208.** Deallwn y gall plant mewn cartrefi gofal preswyl fod yn arbennig o agored i niwed, oherwydd eu hanghenion unigol a hefyd yn sgil cael eu lleoli yn bell i ffwrdd o'u hardal enedigol weithiau. Nodwn farn pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol y gall y plant hynny deimlo nad ydynt yn cael yr un cyfleoedd â phlant mewn gofal maeth, gan gynnwys mynediad at y Cynllun Pan Fydda i'n Barod, a nodwn hefyd y pryderon am yr hyfforddiant a ddarperir i rai staff gofal preswyl, ac ansawdd y gofal a ddarperir i blant. Bydd cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant (gweler isod) yn cael effaith sylweddol ar y sector gofal preswyl; byddwn yn monitro gweithrediad y newid polisi hollbwysig hwn ar draws y Senedd.

## Gofal gan berthynas

**209.** Deallwn y galwadau gan rai i ofalwyr sy'n berthnasau gael yr un lefelau o gymorth – yn ariannol neu fel arall – â gofalwyr maeth. Credwn ei bod yn well i blant aros gydag aelodau o'r teulu sy'n barod ac yn abl - gyda chymorth - i ofalu amdanynt, yn hytrach na chael eu rhoi mewn lleoliadau gofal maeth neu breswyl.

[352] Llywodraeth Cymru, 'Gwneud gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion', Tachwedd 2017

Yn y cyd-destun hwnnw, cefnogwn y cynigion i ddiwygio'r rheoliadau maethu fel y gall gofalwyr sy'n berthnasau dderbyn yr un cymorth â gofalwyr maeth, heb orfod bodloni'r safonau asesu gwell sy'n ofynnol o ofalwyr maeth.

**210.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn ochelgar o'r dystiolaeth a gawsom sy'n dangos bod goblygiadau'r cynnydd mewn gofal gan berthynas i blant yn aneglur. Efallai na fydd rhai gofalwyr sy'n berthnasau, yn y pen draw, yn gallu darparu'r gofal y mae plant yn ei haeddu ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd pwysau yn cael ei roi arnynt wneud hynny. Mae angen mwy o waith i ddeall yn well brofiadau plant mewn gofal gan berthynas, yr heriau sy'n wynebu gofalwyr sy'n berthnasau a'r cymorth sydd ei angen arnynt (yn ariannol neu fel arall) i ddarparu gofal o ansawdd i blant. Os yw'r defnydd o ofal gan berthnasau yn cynyddu, fel y clywsom, dylai'r gwaith hwn ddechrau ar unwaith i sicrhau bod plant mewn gofal gan berthynas yn cael y cartrefi cariadus a gofalgar y maent yn eu haeddu, a bod gofalwyr sy'n berthnasau yn cael y cymorth i wneud hyn.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr sy'n berthnasau, sefydliadau'r trydydd sector, llywodraeth leol ac eraill i ddeall yn well i ba raddau mae gofal gan berthnasau yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel dewis amgen i leoli plant mewn gofal maeth neu breswyl, profiadau plant mewn gofal gan berthynas ac anghenion cymorth gofalwyr sy'n berthnasau. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r potensial o ddiwygio drwy reoliadau y meini prawf y mae'n ofynnol i ofalwyr sy'n berthnasau eu bodloni er mwyn bod â'r hawl i gael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth.

### Dileu elw preifat o ofal plant

**211.** Rydym yn llwyr gefnogi'r egwyddor o ddileu elw o ofal plant. Dylai cyllid ar gyfer lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal gael ei dargedu yn ei gyfanrwydd at wasanaethau gofal, yn hytrach na darparwyr sy'n gwneud elw. Croesawn hefyd y cyllid ychwanegol mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i helpu i gryfhau darpariaethau awdurdodau lleol a thrydydd sector.

**212.** Fodd bynnag, rydym wedi clywed galwadau brys dro ar ôl tro am fwy o leoliadau o ansawdd i blant. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn nodi y gallai'r agenda dileu waethygu digonolrwydd lleoliadau yng Nghymru yn y tymor byr, wrth i ddarparwyr preifat dynnu lleoliadau yn ôl heb fod lleoliadau trydydd sector neu awdurdodau lleol ar gael i gymryd eu lle. Bydd prinder lleoliadau pellach yn esgor ar ganlyniadau anfwriadol a hynod ddigroeso, megis mwy o blant yn cael eu hanfon y tu allan i'r sir, allan o Gymru, a/neu'n cael eu rhoi mewn lleoliadau sy'n gwbl amhriodol ar eu cyfer.

**213.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi sylw manwl i'r pryderon a godwyd gyda ni yn ystod yr ymchwiliad hwn, ac mae'n siŵr yn ei hymgynghoriadau ei hun, ac i gynllunio amserlen weithredu yn unol â hynny. Nid oedd modd i ni nodi unrhyw gapasiti yn y lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd i awdurdodau lleol allu amsugno unrhyw brinder pellach.

**Materion diogelwch a hawliau**

**214.** Mae'r dystiolaeth a gawsom am y defnydd o lety anghofrestredig, y defnydd o rai mathau o lety heb ei reoleiddio, y cynnydd mewn gorchmynion amddifadu o ryddid (DoLs) a chyfraddau plant mewn gofal sy'n mynd ar goll yn peri gofid mawr i ni. Mae'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y materion hyn yn debygol o fod yn rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn y wlad, a bydd llawer iawn ohonynt wedi profi trawma, esgeulustod a cham-drin sylweddol ac yn wynebu risg bellach o niwed sylweddol, er eu bod 'o fewn' y system gofal cymdeithasol.

**215.** Mae'r wladwriaeth yn methu'r plant hyn. Mae'n eu methu drwy eu rhoi mewn llety anghyfreithlon neu lety sy'n sylfaenol anaddas ac amhriodol, gyda lefelau gofal gwael - neu ddim gofal o gwbl. Mae'n methu â diwallu anghenion plant mewn ffordd mor sylfaenol fel eu bod yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid eu hunain ac yn amddifadu diogelwch eraill. Mae'n eu methu pan fyddant yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond mynd ar goll, weithiau dro ar ôl tro, ac nad ydynt bob amser yn cymryd yr amser i ofyn na darganfod pam.

**216.** Mae'r defnydd o lety anghofrestredig ar gyfer plant mewn gofal yn anghyfreithlon. Ond eto, mae'n dal i ddigwydd ac ar gynnydd. Dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod yr heriau o ran llety anghofrestredig yn ddigynsail. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod llety anghofrestredig yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng. Ond ychydig iawn a glywsom am yr hyn sy'n cael ei wneud i'w atal rhag digwydd. Yn syml - rhaid i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i roi diwedd ar y defnydd o lety anghofrestredig yng Nghymru. Rhaid iddynt nodi sut y bwriadant wneud hynny.

**Argymhelliad 18.** Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn atal y defnydd o lety anghofrestredig anghyfreithlon yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys dadansoddiad o'r troeon y mae wedi'i ddefnyddio yn ystod y 24 mis diwethaf, gydag amserlenni clir a dyraniadau cyllid i ddatblygu dewisiadau amgen diogel.

**217.** Deallwn y galwadau am wneud llety heb ei reoleiddio yn anghyfreithlon yng Nghymru ar gyfer plant mewn gofal. Yn ei hanfod, mae gan blant mewn gofal hawl i 'ofal' ac, yn ei hanfod, nid yw llety heb ei reoleiddio yn darparu'r gofal hwnnw. Fodd bynnag, gwelwn wahaniaeth amlwg rhwng llety heb ei reoleiddio cefnogol, o ansawdd uchel, fel yr un a ddarperir gan Llamau, GISDA, Barnardo's ac eraill, a llety cwbl amhriodol ac a allai fod yn beryglus, megis llety gwely a brecwast, AirBnBs, a hosteli.

**218.** Nid yw data cyhoeddedig ar gyfer plant mewn gofal yn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddau gategori hyn o lety heb ei reoleiddio. Nid yw'n nodi'n glir chwaith statws cyfreithiol neu oedran y plant mewn lleoliadau o'r fath (rydym yn trafod data yn fanylach o dudalen 4452). Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r bwlch data a thryloywder hollbwysig hwn, cyn nodi'n glir ei safbwynt polisi mewn perthynas â'r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar gyfer plant mewn gofal.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o'r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar draws Cymru ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 21 oed. Dylai'r dadansoddiad nodi nifer y plant a phobl ifanc mewn llety heb ei reoleiddio, a dosbarthu hynny rhwng llety y mae o'r farn sy'n darparu llety a chymorth o ansawdd (megis llety â chymorth y mae'n ofynnol iddo fodloni safonau tai), a llety nad yw'n gwneud hynny (megis llety gwely a brecwast, AirBnBs, hosteli ac ati). Dylai'r dadansoddiad rannu'r data hwnnw ymhellach yn ôl oedran a statws cyfreithiol y plant a'r bobl ifanc i ddangos yn glir faint sy'n destun gorchmynion gofal a faint sy'n gadael gofal. Ar ôl ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â llety heb ei reoleiddio, gan gynnwys y camau y mae'n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i leihau'r defnydd o lety heb ei reoleiddio amhriodol yng Nghymru.

**219.** Er nad yw maint y defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru yn glir (eto, oherwydd bylchau wrth gasglu a chyhoeddi data), nodwn eiriau Syr Nicholas Francis, Barnwr Cyswllt Is-adran Deuluoedd Cymru, a ddywedodd wrthym fod y defnydd o orchmynion amddifadu o ryddid yn arwydd o fod wedi cyrraedd y pen, ac yn awgrymu ein bod wedi cyrraedd tir peryglus dros ben. Yn amlwg, mae unrhyw ddefnydd o orchmynion amddifadu o ryddid yn cynrychioli methiant, neu fwy na thebyg, methiannau rhianta corfforaethol niferus mewn perthynas â'r person ifanc dan sylw. Mae'r diffyg data sydd ar gael ar y defnydd o orchmynion amddifadu o ryddid yng Nghymru yn destun pryder i ni, ynghyd â'r diffyg goruchwyliaeth a strategaeth glir i leihau eu defnydd yn y tymor byr gan naill ai awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddadansoddi'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf,

yn ôl awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn, a dylid ei gyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn lleihau'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys amserlenni a dyraniadau cyllid clir.

**220.** Clywsom ar wahanol adegau gydol yr ymchwiliad hwn fod rhai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond defnyddio ymddygiad afiach, anniogel neu beryglus i gael eu clywed. P'un a yw hynny i gael cymorth gan weithwyr cymdeithasol sydd dan bwysau, dianc rhag bwlio mewn ysgolion, neu i ddangos eu bod yn anhapus gyda'r lle maent yn byw. Gall rhedeg i ffwrdd fod yn gri am help, yn ddewis olaf neu'n rhywbeth arall yn llwyr. Ond mae hefyd yn beryglus, gan roi'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed neu gamfanteisio sylweddol. Bydd plant sy'n rhedeg i ffwrdd wedi cymryd y risgiau hynny am reswm. Mae'n amlwg y dylai rhywun sy'n annibynnol ar y system ofal siarad â'r person ifanc i geisio darganfod pam iddo wneud hynny, gyda'r nod o'i gynorthwyo gyda beth bynnag y mae'n mynd drwyddo, a'i gwneud yn llai tebygol y bydd yn rhedeg i ffwrdd eto. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth y byddem yn ei ddisgwyl gan unrhyw riant da.

**221.** Ychydig iawn o dystiolaeth a glywsom am blant a oedd ar goll, ond roedd yr hyn a glywsom - gan Gymdeithas y Plant a NYAS yn arbennig - yn rymus. Gofynnwn felly i Lywodraeth Cymru ymateb i'r pryderon a godwyd gan y rhanddeiliaid hynny yn eu tystiolaeth lafar (yn achos NYAS) a'r dystiolaeth ysgrifenedig helaeth (yn achos Cymdeithas y Plant), a nodi ei barn ar yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill yn eu hymateb i achosion o blant sydd ar goll o'r system ofal.

**Argymhelliad 21.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r pryderon a godwyd gan NYAS Cymru yn ei dystiolaeth lafar ar 15 Chwefror 2023, a chan Gymdeithas y Plant yn ei hymateb ysgrifenedig i'n hymgynghoriad, mewn perthynas ag achosion o blant sydd ar goll o ofal. Wrth wneud hynny, dylai nodi'n glir yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid statudol eraill yn eu hymateb i achosion o blant sydd ar goll, a'i barn ar eu galwadau am gyfweliadau dychwelyd adref statudol.

# 5. Ar ôl gofal

## Diwygiadau i'r cymorth parhaus y mae pobl ifanc yn ei chael pan fyddant yn gadael gofal

### Ymyl y dibyn

**222.** 'Y rhai sy'n gadael gofal' neu 'ymadawyr gofal' yw'r term a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio pobl ifanc 16 oed neu'n hŷn sydd wedi cael profiad o ofal pan yn blentyn, ond nad ydynt bellach mewn gofal. Mae gwahanol gategorïau o bobl sy'n gadael gofal, a nodir yn adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae dyletswyddau awdurdodau lleol i'r rhai sy'n gadael gofal wedi'u nodi yn y Ddeddf honno, mewn rheoliadau ac yng Nghod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)[353]. Heb gynnwys y budd-daliadau sydd ar gael i'r boblogaeth ehangach, yn fras, mae gan y rhai cymwys sy'n gadael gofal yr hawl i'r canlynol pan fyddant yn troi'n 18 oed[354] ac nad ydynt bellach yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' yn ôl y gyfraith:

- **Tai**: Gall rhai pobl ifanc mewn gofal maeth gael mynediad at gynllun Pan Fydda i'n Barod hyd at 21 oed (a hyd at 25 oed os ydynt mewn rhaglen addysg neu hyfforddiant). Fel arall, rhaid i'r awdurdod lleol gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i gael mynediad at dai addas hyd at 21 oed. Nid yw hyn yn golygu bod ganddynt hawl statudol i dai.

- **Cynghorwyr personol**: Rhaid i bawb sy'n gadael gofal fod â chynghorydd personol i gynnig cyngor a chymorth iddynt hyd at 21 oed (a hyd at 25 oed os ydynt mewn rhaglen addysg neu hyfforddiant).

- **Cynlluniau llwybr**: Dylai pobl ifanc sy'n paratoi i adael gofal a phawb sy'n gadael gofal hyd at 21 oed (a hyd at 25 oed os ydynt mewn rhaglen addysg neu hyfforddiant) fod â chynllun llwybr sy'n nodi'r cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt.

- Addysg a hyfforddiant: Mae gan bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed yr hawl i grant bwrsari Addysg Uwch, y grant cynhaliaeth uchaf posibl

[348] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)'
[354] Mae plant sy'n gadael gofal cyn 18 oed yn dod o dan gategori 2 o adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gan y plant hynny hawliau penodol. Rydym yn cyffwrdd â gwasanaethau ar gyfer y bobl ifanc hyn mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn (gweler '

Materion diogelwch a hawliau' ar dudalen 70).

(mae'r swm yn amrywio yn dibynnu ar ble maent yn byw), a chymorth ariannol dewisol i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i gael mynediad at addysg bellach neu addysg uwch.

**223.** Yn fras, mae rhai o'r hawliau a'r manylebau oedran ar gyfer gadael gofal yng Nghymru yn debyg i'r rhai yn Lloegr. Yn yr Alban, mae gan bob person sy'n gadael gofal yn 16-18 oed yr hawl i gael ei asesu a chael cymorth gan ei awdurdod lleol cyfrifol. Mae gan y rhai sy'n gadael gofal yn 19-26 oed yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol i ofyn am gael eu hasesu a chael cyngor, arweiniad a chymorth ar eu "hanghenion cymwys". Gallai hynny gynnwys cymorth ariannol i dalu costau llety a chynhaliaeth hanfodol; neu wybodaeth neu gyngor i helpu'r unigolyn i gael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, hamdden a sgiliau neu sy'n gysylltiedig â lles yr unigolyn.[355]

**224.** Nododd Voices from Care fod rhai o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw yng Nghymru wedi nodi bod ganddynt brofiadau cadarnhaol o adael gofal, eu bod wedi dechrau dysgu sgiliau bywyd, eu bod wedi gallu mynd i'r brifysgol neu fynd ymlaen i ddilyn prentisiaethau mewn sefydliadau sector cyhoeddus.[356]

**225.** Fodd bynnag, er gwaethaf hawliau a hawlogaethau'r rhai sy'n gadael gofal, roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod pobl ifanc mewn gofal yng Nghymru ar ymyl y dibyn o ran cymorth wrth droi'n 18 oed. Clywsom, mewn gwirionedd, fod lefel y cymorth a gânt ar ôl troi'n 18 oed, ac yn sicr ar ôl troi'n 21 oed, yn isel iawn, neu nad yw'n bodoli o gwbl, ac y gall pobl ifanc deimlo nad oes ganddynt unrhyw un y gallant droi ato.[357] Dywedodd Voices From Care fod gormod o bobl ifanc wedi dweud wrthynt nad oeddent wedi cael cymorth digonol i'w helpu i ddysgu i fyw'n annibynnol. Roedd rhai o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw wedi cael eu lletya mewn llety hostel annigonol heb gymorth, roedd rhai wedi troi at alcohol neu gyffuriau, a soniodd rhai am ffrindiau a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau anghyfreithlon, gan gynnwys llinellau cyffuriau.[358]

**226.** Roedd gweithwyr proffesiynol a gyflwynodd dystiolaeth i ni yn cytuno. Dywedodd Llamau wrthym fod gwasanaethau yn syml yn disgyn dros ymyl y dibyn wrth i berson ifanc droi'n 18 oed.[359] Dywedodd GISDA fod rhai pobl ifanc sydd efallai'n 22 neu'n 23 oed o bosibl wedi aeddfedu ac wedi setlo, ond bod

---

[355] Llywodraeth Yr Alban, 'Guidance on Part 10 (Aftercare) of the Children and Young People (Scotland) Act 2014', Tachwedd 2016
[356] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices from Care Cymru
[357] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 26; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 21
[358] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices from Care Cymru
[359] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 111 . Gweler hefyd: Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 8 Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)

angen help a chymorth arnynt yr un fath. Yn anffodus erbyn hynny nid oes fawr ddim ymgysylltu o du'r gwasanaethau statudol, meddent.[360] Roedd barn debyg gan Barnardo's, a argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid arbenigol a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ddatblygu cynnig cynhwysfawr i'r rhai sy'n gadael gofal.[361]

**227.** Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn awgrymu bod llawer o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gadael gofal heb fod wedi derbyn addysg ariannol ddigonol. Dywedodd Cyngor ar Bopeth wrthym fod lefel anhygoel o anwybodaeth ynghylch budd-daliadau a ffynonellau cymorth eraill ar draws eu holl gleientiaid, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.[362] Roedd Cyngor ar Bopeth am weld addysg ariannol a chyngor ar wneud yn fawr o incwm ac ar les cymdeithasol yn cael eu cynnwys ym mhob rhaglen gymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Gwnaeth eraill alwadau tebyg.[363] Nododd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau fod plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal eu hunain yn dweud mai rheolaeth ariannol yw un o'u prif bryderon. Roeddent yn galw am i blant a phobl ifanc gael addysg ariannol mor gynnar â phosibl:

> *"And then, what we can then do is build that financial support, that security, that confidence in children and young people, so when they do move on into independent living, they've got a good basis to start making those decisions on, going forward."* [364]

Roedd rhai o'r rhai sy'n gadael gofal a gweithwyr cymorth y bu i ni siarad â nhw yn cytuno bod llawer o bobl ifanc yn gadael gofal heb y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol yn llwyddiannus.[365]

**228.** Cawsom alwadau niferus am ymestyn y trothwyon oedran ar gyfer y cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal. Roedd llawer, megis TACT Cymru, Gweithredu dros Blant, academyddion ac ymgynghorwyr unigol - yn dadlau y dylai pawb sy'n gadael gofal - nid dim ond y rhai mewn addysg neu hyfforddiant - gael cymorth hyd nes eu bod yn 25 oed.[366] Awgrymodd rhai y dylai'r trothwy ar gyfer gadael gofal ei hun

[360] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 103
[361] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19, Barnardo's Cymru
[362] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 236
[363] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 28 Cyngor ar Bopeth Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 32 MyBnk; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 3 Unigolyn; PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 282; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 39 Tystiolaeth gan Blant yng Nghymru, gydag aelodau o'r Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol, ac ar eu rhan
[364] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 229 a 282
[365] CYPE, 'Engagement findings', March 2023, page 30
[366] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 10 Unigol; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 13 Canolfan Ymchwil a Datblygiad Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 26 Penny Jones, Cynghorydd Sir PPIA, 02/02/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 119-122

godi i 25 er mwyn atal y cylch rhag ailadrodd ei hun.[367] Pwysleisiodd eraill y dylai'r trothwy cymorth ddibynnu ar anghenion unigol y person ifanc. Anogodd Llamau ni i symud i ffwrdd o'r syniad hwn bod oedran cronolegol yn drech na gallu gwybyddol. Roedd ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn cytuno:

> *"But somebody doesn't stop becoming care experienced at 25; you don't stop having those kinds of barriers of not having somebody to fall back on, not having accommodation that you could go back to if things fall through."*[368]

**229.** Dywedodd y Comisiynydd Plant wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael i alluogi pobl ifanc i gael mynediad at Ymgynghorydd Personol hyd nes y byddant 25 oed. Fodd bynnag, er eu bod wedi derbyn yr argymhelliad yn 2017 i osod yr estyniad hwn ar sail statudol, nid ydym eto wedi gweld y gyfraith yn newid ar y mater hwn.[369]

**230.** Mae'r Dirprwy Weinidog yn cydnabod y bwlch enfawr sy'n wynebu plant wrth adael gofal. Dywedodd wrthym ei bod yn deall yn iawn y gallai rhai plant fod yn ofnus iawn wrth adael gofal. Ychwanegodd fod hawl statudol i gynnig cymorth hyd at 25 oed a'i bod yn meddwl y dylem fod yn darparu'r cymorth hwnnw. Yn ei barn hi, nid oedd angen deddfwriaeth i wneud i hynny ddigwydd ac y dylem fod yn rhoi cymorth i bobl ifanc tan eu bod yn 25 oed.[370]

**231.** Mae'r 'datganiad Diwygio Radical', a lofnodwyd gan y Prif Weinidog a phlant mewn gofal ym mis Mai 2023, yn cynnwys y 'weledigaeth' ganlynol:

> *"All care experienced young people will be supported by their corporate parents until they are 25. There will be support available to those young people who want it after that age."*[371]

Mae ein hargymhelliad isod yn gam pendant tuag at wireddu'r geiriau hyn.

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #11**

**Ymestyn y trothwy ar gyfer y cymorth statudol a ddarperir i bawb sy'n gadael gofal gan yr awdurdod lleol o 21 i 25, fel sy'n cael ei ddarparu i'r rhai sy'n gadael gofal mewn addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd.**

[367] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 20 Gweithredu dros Blant
[368] PPIA, 02/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraff 372
[369] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 30 Comisiynydd Plant Cymru
[370] PPIA, 09/03/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 266-269
[371] Llywodraeth Cymru, 'Uwchgynhadledd Diwygio Radical: Datganiad', 18/05/23, tudalen 7

Rydym yn synnu pa mor sydyn mae'r hawl gyfreithiol i gael cymorth yn cael ei dynnu yn ôl i lawer o blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal pan fyddant yn troi'n 21 oed. Ac o'r hyn a glywsom, mae cymorth i rai pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael ei dynnu'n ôl i bob pwrpas pan fyddant yn llawer iau. Mae llawer o bobl ifanc yn mynd trwy gyfnod o newidiadau pwysig, sydd yn aml yn heriol, rhwng 16 a 21 oed. Ac eto mae disgwyl i bobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal brofi'r un newidiadau hynny ar ôl profi, o bosibl,  llawer mwy o drawma, llawer llai o sefydlogrwydd gydol eu plentyndod a llawer llai o rwydweithiau cymorth o'u cwmpas i droi atynt am help. Ni fyddai unrhyw riant da yn rhoi'r gorau i gefnogi plentyn a thorri cysylltiad â'r plentyn hwnnw yn 21 oed neu iau, ac ni ddylai unrhyw riant corfforaethol wneud hynny chwaith.

Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a glywsom sy'n awgrymu bod 21 oed yn llawer rhy ifanc i lawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal golli eu hawl i gymorth o ran llety, cynghorwyr personol, cynllunio llwybrau, addysg a hyfforddiant.

Clywsom farn wahanol ynghylch pryd y dylai cymorth i bobl sy'n gadael gofal ddod i ben. Yr awgrym a roddwyd fwyaf oedd 25 oed. Ond clywsom hefyd ddadleuon argyhoeddiadol na ddylai fod trothwy oedran o gwbl, na ddylai oedran cronolegol fod yn drech nag anghenion y person ifanc, a bod trawma ac ansefydlogrwydd wedi effeithio gymaint ar blentyndod rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel y gallai fod angen llawer mwy o amser arnynt i ddod yn ddigon aeddfed i fyw'n annibynnol.

Fodd bynnag, heb drothwy statudol, mae perygl difrifol y gallai rhai pobl ifanc sydd â'r angen mwyaf am gymorth lithro drwy'r rhwyd. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym na fyddai angen deddfwriaeth i sicrhau y byddai cymorth yn cael ei ddarparu i bobl sy'n gadael gofal hyd nes eu bod yn 25 oed. Rydym yn anghytuno – pan ddaw'r ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth allweddol i bobl sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant i ben yn 21 oed, nid ydym yn argyhoeddedig y byddai unrhyw beth heblaw codi'r trothwy hwnnw yn gwarantu y byddai'r cymorth yn parhau hyd nes y byddent yn 25 oed.

Rydym felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i godi'r trothwy ar gyfer cymorth i bawb sy'n gadael gofal o 21 i 25, fel sy'n digwydd eisoes ar gyfer pobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg neu hyfforddiant.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i godi'r trothwy uchaf ar gyfer yr holl gymorth a gynigir i bobl sy'n gadael gofal hyd nes eu bod yn 21 oed (fel y nodir yn adrannau 103 i 118 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau cysylltiedig, canllawiau a chodau

ymarfer, gan gynnwys y cynllun Pan Fydda i'n Barod) i 25 oed ar gyfer pobl sy'n gadael gofal categori 3, categori 5 a chategori 6.

## Pan Fydda i'n Barod

**232.** Mae'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda'u gofalwr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed hyd nes y byddant yn 21 oed, neu'n 25 oed os ydynt mewn rhaglen addysg neu hyfforddiant. Mae cynlluniau tebyg ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Clywsom farn gadarnhaol am y bwriad polisi sydd wrth wraidd y cynllun.[372]

**233.** Mae cod ymarfer Llywodraeth Cymru yn dweud bod yn "rhaid" ystyried trefniadau Pan Fydda i'n Barod bob amser, ac mai dyna "fydd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n gadael gofal a fu mewn gofal maeth".[373] Fodd bynnag, mae ystadegau'n dangos mai dim ond 27.1% o'r rhai sy'n gadael gofal a arhosodd gyda'u gofalwyr maeth yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 o dan y cynllun Pan Fydda i'n Barod. Mae tua 69.4% o'r holl blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru mewn lleoliadau maethu, sy'n nodi nad yw'r mwyafrif o bobl sy'n gadael gofal sy'n gymwys ar gyfer Pan Fydda i'n Barod yn ymgymryd â lleoliad Pan Fydda i'n Barod.[374]

**234.** Clywsom gan nifer o wahanol ffynonellau bod y rheoliadau a'r cod ymarfer sy'n sail i Pan Fydda i'n Barod yn ddatgymhelliad i ofalwyr maeth. Eglurodd y Rhwydwaith Maethu:

> *"Young people [aged 18 or over] are no longer considered looked after. If the foster carer has no other children in foster care living with them, their fostering service may remove their approval status meaning foster carers can no longer foster unless they complete the approval process again (which can take many months) and could be resulting in some foster carers prematurely giving up fostering."*[375]

**235.** Mae gofalwyr maeth hefyd yn wynebu rhwystrau ariannol wrth gymryd rhan yn y cynllun. Mae canllaw arfer da Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai colli incwm o ffioedd maethu fod yn rhwystr i drefniant Pan Fydda i'n Barod. Mae'n

[372] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 7 Rhiant Maeth; PPIA, 'Trawsgrifiad o'r sesiwn gyda phobl ifanc ar 18 Ionawr 2023', tudalen 11; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 6 Steve Phillips; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 40 Plant yng Nghymru
[373] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)', tudalen 128
[374] StatsCymru, 'Cyfnodau'n dod i ben i blant sy'n derbyn gofal (16 oed neu'n hŷn) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a rheswm dros ddod i ben' a StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad'
[375] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Rhwydwaith Maethu

awgrymu y gallai awdurdodau lleol "ystyried talu swm ychwanegol i sicrhau y gall y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' fynd yn ei flaen."[376] Er hynny, dywedodd rhanddeiliaid wrthym nad yw rhai gofalwyr maeth yn teimlo y gallant ymrwymo i drefniant Pan Fydda i'n Barod oherwydd y bydd yn arwain at ostyngiad yn eu hincwm maethu.[377]

**236.** Clywsom hefyd fod rhwystrau i'r rhai sy'n gadael gofal eu hunain, gan gynnwys:

- Nid yw llawer o bobl sy'n gadael gofal yn gwybod am fodolaeth y cynllun.[378]
- Bydd pobl ifanc nad ydynt wedi bod mewn lleoliadau hirdymor yn llai tebygol o fod eisiau aros gyda'u gofalwr maeth.[379]
- Nid yw Pan Fydda i'n Barod yn berthnasol i bobl ifanc mewn gofal preswyl.[380]
- Mae'n rhaid i bobl ifanc wneud cais am fudd-daliadau i gyfrannu at gostau lleoliadau Pan Fydda i'n Barod, yna llofnodi cytundeb tenantiaeth gyda'r gofalwr maeth. Yng ngeiriau'r Rhwydwaith Maethu, mae'r person a fu'n rhiant iddynt yn cael ei orfodi i ddod yn landlord iddynt, ac na ddylem fod yn gofyn i bobl ifanc wneud hyn a'i labelu'n 'Pan Fydda i'n Barod'. I lawer o blant, mae'r newid hwn yn digwydd yn ystod blwyddyn olaf eu haddysg. Wrth frwydro am well dyfodol, mae disgwyl iddynt hefyd ddod yn ddibynnol ar fudd-daliadau wrth i lwfansau maethu ddod i ben.[381]

**237.** Clywsom alwadau am ailgynllunio Pan Fydda i'n Barod fel y gall gofalwyr maeth barhau i ddarparu gwasanaethau maethu i'r rhai sy'n gadael gofal heb golli statws cymeradwy nac incwm.[382] Clywsom hefyd y dylid codi'r terfyn oedran ar gyfer gadael gofal maeth o dan y cynllun i 25 oed.[383]

---

376 Llywodraeth Cymru, 'Pan Fydda i'n Barod: Canllaw Arfer Da', tudalen 29
377 PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 28; PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 127; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 15-16; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru
378 Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru
379 PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 28
380 PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 28; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru
381 Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Rhwydwaith Maethu
382 PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalennau 15-16; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 31 Rhwydwaith Maethu
383 Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 15 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 23 Rhian Carter; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 2 Matthew Lewis; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 4 TACT Fostering

**238.** Cydnabu'r Dirprwy Weinidog y pryderon ynghylch Pan Fydda i'n Barod. Dywedodd wrthym ei bod hi'n hollol anghywir gosod rhwystr i aros yn rhywle pan maent yn 18 oed, ac ymrwymodd i gynnal adolygiad o Pan Fydda i'n Barod i benderfynu a oes angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i gynnig sylfaen gadarnach.[384]

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #12**

**Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau maethu a chodau ymarfer a chanllawiau sy'n ymwneud â Pan Fydda i'n Barod i ymestyn y terfyn oedran i bawb sydd eisiau cyfranogi yn y cynllun i 25 oed, ac i gael gwared ar y rhwystrau ariannol a gweithredol y mae gofalwyr maeth yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau 'Pan Fydda i'n Barod'.**

Rydym yn llwyr gefnogi'r bwriad polisi sy'n sail i Pan Fydda i'n Barod. Mae'n cynnig sicrwydd a chefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal allu aros gyda gofalwr maeth dibynadwy yn ystod y cyfnod pontio i fod yn oedolion. Mae'n galondid gweld bod tua chwarter yr holl bobl sy'n gadael gofal eisoes yn manteisio ar y cynllun.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud llawer o waith i wella dyluniad a gweithrediad y cynllun. Yn y bôn, ni ddylai fod unrhyw rwystrau o gwbl i ofalwyr maeth ymrwymo i drefniant Pan Fydda i'n Barod. Mae hyn yn golygu y dylai gofalwyr maeth dderbyn yr un ffioedd a lwfansau o dan Pan Fydda i'n Barod â'r rhai a dderbynnir ganddynt pan fyddant yn maethu plant mewn gofal.

Mae hefyd yn golygu y dylid cydnabod gofalwyr maeth sy'n cefnogi pobl ifanc o dan leoliad Pan Fydda i'n Barod fel gofalwyr maeth at ddibenion cymeradwyaeth gan y panel maethu, hyd yn oed os nad oes ganddynt blant maeth eraill ar y pryd. Nid yw rheoliadau maethu yn nodi y bydd rhiant maeth yn colli ei gymeradwyaeth maethu yn awtomatig os yw mewn trefniant Pan Fydda i'n Barod. Fodd bynnag, gallai ymrwymo i gynllun Pan Fydda i'n Barod, mewn rhai amgylchiadau, olygu bod y gofalwr maeth yn colli ei statws cymeradwyaeth. Nid yw'n syndod os yw hyn yn peri i rai gofalwyr maeth beidio ag ymrwymo i drefniant Pan Fydda i'n Barod.

Rydym hefyd yn cytuno'n llwyr â'r dystiolaeth a gawsom yn galw ar bobl sy'n gadael gofal hyd at 25 oed i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun Pan Fydda i'n Barod. Mae hyn yn unol â'n cynigion i osgoi sefyllfa 'ymyl y dibyn, fel y trafodwyd ar dudalen 118. Rydym hefyd yn cytuno â'r pryderon a fynegwyd bod gofyn i bobl

[384] PPIA, 09/03/23, Cofnod, paragraffau 271-273

ifanc ymrwymo i gytundeb tenantiaeth gyda'u gofalwr maeth er mwyn cymryd rhan yn Pan Fydda i'n Barod yn ymddangos yn oeraidd ac yn ddiangen o ffurfiol. Yn sicr, mae byd o wahaniaeth rhwng hyn a'r newid meithringar a gofalgar i fod yn oedolyn y byddem yn gobeithio ei gynnig i'n plant ein hunain.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau, canllawiau[385] a'r cod ymarfer[386] sy'n ymwneud â chynllun Pan Fydda i'n Barod i:

- ymestyn y terfyn oedran ar gyfer pob person ifanc sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun i 25 oed; a
- dileu rhwystrau i'r cynllun, gan gynnwys y potensial i ddileu cymeradwyaeth gofalwyr maeth; y gostyngiad mewn taliadau i ofalwyr maeth; ac
- ystyried sut y gallai pobl ifanc ymuno â'r cynllun a derbyn yr holl gymorth sydd ar gael iddynt heb orfod ymrwymo i gytundebau tenantiaeth gyda'u gofalwyr maeth.

**239.** Mae rhai pobl ifanc wedi dweud wrthym fod plant mewn gofal preswyl yn gallu teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu o dan anfantais o gymharu â phlant mewn gofal maeth. Mae'r ffaith nad yw Pan Fydda i'n Barod ar gael i blant mewn gofal preswyl yn enghraifft glir o'r anfantais honno. Credwn y dylai pob plentyn mewn gofal gael yr hawl i'r un lefelau sylfaenol o gymorth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod cymhlethdod tebygol ymestyn Pan Fydda i'n Barod i blant mewn gofal preswyl, ac felly rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried y mater ymhellach.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad a chynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a rhanddeiliaid allweddol eraill i ganfod sut y gellir ymestyn Pan Fydda i'n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl, y rhwystrau ynghlwm wrth hynny a pha gamau y gellir eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny. Dylai'r adolygiad adrodd erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf.

**240.** Rydym yn cydnabod y bydd unrhyw estyniad i'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn arwain at ganlyniadau o ran nifer y lleoliadau sydd ar gael ar unrhyw un adeg pan mae lleoliadau o ansawdd uchel yn brin eisoes. Serch hynny, credwn fod yn rhaid i ni symud tuag at system sy'n gallu cynnig y dewisiadau y byddai unrhyw

[385] Llywodraeth Cymru, 'Pan Fydda i'n Barod: Canllaw Arfer Da'
[386] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)'

rieni da yn eu dymuno ar gyfer eu plant eu hunain i'n plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae hyn yn cynnwys llety y tu hwnt i 18 oed os oes angen llety arnynt.

## Tai

### Llety i'r rhai sy'n gadael gofal

**241.** O 16 oed, dylai cynllun gofal a chymorth person ifanc gael ei ymgorffori yn ei 'gynllun llwybr'. Dylai'r cynllun llwybr nodi'r camau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r person ifanc i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolyn ac i fod yn fwy annibynnol. Wrth i'r ddarpariaeth ariannol a llety greiddiol maent yn eu derbyn gan awdurdodau statudol fel 'plentyn sy'n derbyn gofal' gael eu tynnu'n ôl, dylai'r cynllun llwybr nodi pontio arfaethedig i'w llety nesaf, megis:

- parhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth o dan y cynllun Pan Fydda i'n Barod (gweler tudalen 123); neu
- symud i drefniadau byw lled-annibynnol, megis llety â chymorth a llety cynorthwyol.
- Fodd bynnag, mae ystadegau'n dangos nad dyma'r profiad i lawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 16 oed neu'n hŷn. Dim ond 27.1% oedd yn parhau i fyw gyda chyn-riant/cyn-rieni maeth mewn trefniant Pan Fydda i'n Barod, a dim ond 15.7% sy'n symud i drefniant "llety cynorthwyol sy'n darparu trefniadau cynghori/cynorthwyo ffurfiol."[387]

**242.** Clywsom bryder eang gan bobl ifanc bod dod o hyd i lety diogel a phriodol yn her sylweddol wrth adael gofal. Awgrymodd rhai y byddai wedi bod yn well cael system sy'n galluogi rhoi cynnig ar lety newydd cyn penderfynu a oeddent am fyw yno ai peidio. Roeddent hefyd eisiau gallu symud yn ôl i ble'r oeddent os nad oeddent yn ymgartrefu'n dda yn eu cartref newydd.[388] Dywedodd Llamau wrthym fod argaeledd llety a llety priodol yn broblem,[389] a galwodd GISDA y diffyg tai yn "greisis… ofnadwy".[390] Soniodd Cymorth Cymru fod rhai o'r bobl ifanc y buont yn siarad â nhw wedi cael eu rhoi mewn llety anniogel a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel, megis hosteli brys, llety gwely a brecwast a llety arall heb unrhyw gefnogaeth ar y safle.[391] Dywedodd gweithwyr proffesiynol eraill wrthym y dylai tai fod yn flaenoriaeth benodol i awdurdodau lleol, gan bwysleisio bod angen tai ar rieni geni â phrofiad o fod mewn gofal sy'n addas ar gyfer plentyn

[387] StatsCymru, 'Cyfnodau'n dod i ben i blant sy'n derbyn gofal (16 oed neu'n hŷn) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw a rheswm dros ddod i ben'
[388] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 28-29
[389] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 144; PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 157
[390] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 157
[391] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 22 Cymorth Cymru

newydd-anedig.[392] Dywedodd Arolygiaeth Gofal Cymru fod angen mwy o atebolrwydd amlasiantaethol y tu hwnt i'r gwasanaethau cymdeithasol yn y pen draw i ddarparu mwy o opsiynau llety i bobl ifanc.[393]

**243.** Dywed cod ymarfer Llywodraeth Cymru ei bod yn "ymarfer da" i awdurdodau lleol gomisiynu dewisiadau byw lled-annibynnol oherwydd bydd symud yn uniongyrchol i fyw'n annibynnol yn aml yn "gam rhy fawr i bobl ifanc."[394] Eglurodd Llamau a Gofal Cymdeithasol Cymru fod llety â chymorth yn cynnig amgylchedd cartref diogel a chefnogol i bobl ifanc, yn enwedig i bobl sy'n agored i gamfanteisio ariannol a rhywiol.[395] Fodd bynnag, clywsom fod heriau o ran datblygu a darparu llety â chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, yn enwedig y gost. Gall llety â chymorth fod yn ddrud. Mae'r gost yn cael ei thalu o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys grant cymorth tai Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cymdeithasol (os yw'r plentyn yn dal i fod yn destun gorchymyn gofal), a budd-daliadau pobl ifanc. Ond os yw'r person ifanc yn derbyn cyflog efallai y bydd angen iddo ddechrau talu ei rhent ei hun. Gall hyn naill ai ei orfodi i adael y llety â chymorth er ei fod yn dal ei angen, neu weithredu fel datgymhelliad i weithio.[396]

**244.** Mae'r prif bryderon a glywsom am lety rhent cymdeithasol a phreifat yn gysylltiedig ag annigonolrwydd cyffredinol y stoc tai cymdeithasol. Clywsom gan rai gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys staff awdurdodau lleol, fod prinder cenedlaethol o eiddo llai, fforddiadwy sy'n addas ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, megis fflatiau un ystafell wely/stiwdio.[397] Dywedodd Cymorth Cymru:

> *"There is not enough social housing available and the private rented sector is becoming increasingly unaffordable and inaccessible to people leaving care... Bevan Foundation research indicates that just 24 properties advertised in May were available at LHA rates."*[398]

**245.** Dywedodd rhai o'r rhai sy'n gadael gofal wrthym y gall hyd at 500 o bobl fod yn cystadlu am un eiddo, ac nad oes gan y rhai sy'n gadael gofal unrhyw flaenoriaeth awtomatig dros bobl eraill.[399] Gall pobl sy'n gadael gofal fod o dan anfantais hyd yn oed. Ar hyn o bryd, mae'r cysyniad o 'gysylltiad lleol' – y cysylltiad sydd gan berson ag ardal awdurdod tai penodol – fel arfer yn cael ei gynnwys fel

---

[392] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 9
[393] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[394] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)', tudalen 104
[395] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 146; PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 146
[396] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 29-30
[397] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 29 a 32
[398] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 22 Cymorth Cymru
[399] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 29-30

ffactor blaenoriaethu yng nghynlluniau dyrannu tai awdurdodau lleol.[400] Hyd yn oed pan fydd llety rhent preifat ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal, ac yn fforddiadwy iddynt, clywsom na fyddent yn gallu sicrhau cytundeb rhentu os nad oes ganddynt warantwr, ac nid oes gwarantwr gan lawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal.[401]

## Digartrefedd

**246.** Mae Crisis wedi dweud bod profiad o fod mewn gofal yn llwybr rhagweladwy i ddigartrefedd.[402] Mae erthygl yn y Guardian yn 2019 yn awgrymu bod cymaint ag 1 o bob 4 person sy'n gadael gofal yn ddigartref pan fyddant yn troi'n 18 oed.[403] Mae deddfwriaeth digartrefedd Cymru yn rhoi statws 'angen blaenoriaethol' i bobl ifanc hyd at 21 oed sy'n gadael gofal, ond nid ar ôl hynny. Gall pobl sy'n gadael gofal sydd wedi symud rhwng gwahanol awdurdodau lleol yn y gorffennol fod o dan anfantais. Mae'n bosibl trosglwyddo'r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety i berson digartref i awdurdod lleol arall os nad oes gan y person dan sylw gysylltiad lleol â'r ardal lle mae'n gwneud cais am gymorth.[404]

**247.** Rhannodd Cymorth Cymru farn debyg, gan ddweud bod un o bob tri pherson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi dod yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl gadael gofal. Roeddent yn galw am ddull cydweithredol ac amlasiantaethol i atal pobl sy'n gadael gofal sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, ac i gefnogi'r bobl ddigartref sydd wedi gadael gofal.[405] Dywedodd Llamau wrthym fod llawer o bobl sy'n gadael gofal yn wynebu digartrefedd oherwydd diffyg llety addas:

> *"… we know the system is failing those young people. We know that there are not enough supported accommodation services available for young people when they leave care, and there is still an expectation for many young people who are care experienced to have to go through the homelessness route, and that is wrong. There should be a really clear pathway."*[406]

**248.** Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog pam mae tai yn gymaint o her i'r rhai sy'n gadael gofal. Dywedodd wrthym y bydd Llywodraeth Cymru yn fuan yn cynhyrchu fersiwn newydd o'r fframwaith llety a chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal yng

[400] Legislation.gov.uk, 'Deddf Tai 1996', Adran 167(2A)
[401] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 29; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 19 Barnardo's Cymru
[402] Crisis, 'Everybody in: How to end homelessness in Great Britain', tudalen 14
[403] The Guardian, 'We are failing children in care – and they are dying on our streets', 11/11/19
[404] Legislation.gov.uk, 'Deddf Tai (Cymru) 2014', adran 80
[405] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 22 Cymorth Cymru
[406] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 110

Nghymru. Ychwanegodd fod angen cymorth ar y rhai sy'n gadael gofal gan eu rhieni corfforaethol, ac y bydd Llywodraeth Cymru:

- yn buddsoddi dros £197 miliwn eleni mewn gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai, a £310 miliwn mewn tai cymdeithasol;
- yn parhau i ddarparu cyllid o £3.7 miliwn drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid ar gyfer atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc; ac
- wedi sefydlu panel adolygu arbenigol i adolygu digartrefedd presennol a'r ddeddfwriaeth i'w atal, ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer diwygiadau, ac y bydd yn cyhoeddi adroddiad erbyn mis Awst 2023.[407]

## Ein barn ni

**DIWYGIAD RADICAL #3 (rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol)**

Mae'n amlwg bod prinder llety o ansawdd dybryd ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Rydym yn dod i'r casgliad uchod fod cynllun Pan Fydda i'n Barod Llywodraeth Cymru yn ffordd effeithiol o ddarparu llety mewn amgylchedd diogel a meithringar i rai pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Fodd bynnag, hyd yn oed o fynd i'r afael â'r trafferthion ymarferol sydd ynghlwm wrth y cynllun, ni fydd Pan Fydda i'n Barod byth yn ddewis iawn i bawb, gan gynnwys llawer o'n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'n feirniadaeth ysgytwol o effeithiolrwydd trefniadau rhianta corfforaethol cyfredol bod hyd at chwarter y rhai sy'n gadael gofal yn ddigartref yn 18 oed. Rhaid i rieni corfforaethol wneud mwy i amddiffyn y plant hynny, yn union fel y byddem yn disgwyl i unrhyw riant da ei wneud dros ei blentyn.

Dylai systemau fod ar waith fel nad yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gorfod adrodd eu bod yn ddigartref. Dylai deddfwriaeth tai sicrhau bod profiad o fod mewn gofal yn flaenoriaeth bennaf i bolisïau dyrannu awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Dylai adrannau tai awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cyfnod pontio'r rhai sy'n gadael gofal i fyw yn annibynnol, fel bod paratoi effeithiol ar gyfer annibyniaeth gyda chamau pwrpasol a chynaliadwy, yn dod yn realiti.

Fel arfer, ychydig iawn o ddewis – os o gwbl – sydd gan blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ynglŷn â ble maent yn cael eu lleoli. Mae bron yn sicr y bydd y rhai sy'n gadael gofal yn gwbl ddi-fai os nad oes ganddynt gysylltiad â'r ardal leol y maent am fyw ynddi.

[407] PPIA, 09/03/23, Cofnod, paragraffau 320-324

Mae'r rhain yn gamau cyntaf clir ac angenrheidiol i wella dewisiadau llety ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.

Fodd bynnag, yn y tymor byr o leiaf, bydd llawer o bobl sy'n gadael gofal yn dal i wynebu digartrefedd. Yma eto, gellir gwneud llawer mwy i helpu'r bobl ifanc hynny sy'n agored i niwed. Dylai'r angen blaenoriaethol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, sydd ar waith ar hyn o bryd hyd nes  y byddant yn 21 oed, gael ei ymestyn i gynnwys pobl sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Yn ogystal, ni ddylai awdurdodau lleol allu trosglwyddo eu dyletswydd i helpu i sicrhau llety i bobl ddigartref sydd wedi gadael gofal i awdurdod lleol arall, ar y sail nad oes gan y sawl sy'n gadael gofal 'gysylltiad lleol' â'r ardal lle mae'n gwneud cais am gymorth.

Fodd bynnag, yn y tymor byr o leiaf, bydd llawer o bobl sy'n gadael gofal yn dal i wynebu digartrefedd. Yma eto, gellir gwneud llawer mwy i helpu'r bobl ifanc hynny sy'n agored i niwed. Dylai'r angen blaenoriaethol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, sydd ar waith ar hyn o bryd hyd nes  y byddant yn 21 oed, gael ei ymestyn i gynnwys pobl sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Yn ogystal, ni ddylai awdurdodau lleol allu trosglwyddo eu dyletswydd i helpu i sicrhau llety i bobl ddigartref sydd wedi gadael gofal i awdurdod lleol arall, ar y sail nad oes gan y sawl sy'n gadael gofal 'gysylltiad lleol' â'r ardal lle mae'n gwneud cais am gymorth.

**Argymhelliad 25.** Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler Diwygiad Radical 3), ac fel rhan o'i diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth tai, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:

- Diwygio Deddf Tai 1996 i sicrhau mai pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd â'r brif flaenoriaeth wrth ddyrannu tai.
- Diwygio Deddf Tai 1996 i ddatgan y dylid diystyru 'cysylltiad lleol' ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod pobl dros 21 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cadw statws "angen blaenoriaethol" pan fyddant yn ddigartref.
- Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel na ellir cyfeirio pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail 'cysylltiad lleol' os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd.

## Materion pwysig eraill

### Cynghorwyr Pobl Ifanc (YPAs) a Chynlluniau Llwybr

**249.** Yn ôl y gyfraith, dylai pob person sy'n gadael gofal gael Cynghorydd Personol (YPA) rhwng 16 a 18 oed. Mae cod ymarfer Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *"Bydd y [YPA] yn gweithredu fel canolbwynt i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn derbyn y cymorth personol priodol. Dylai pawb sy'n gadael gofal wybod pwy eu [YPA] a sut i gysylltu ag ef, fel bod modd iddynt ddibynnu ar gymorth cyson gan eu gweithiwr proffesiynol allweddol unigol gydol y cyfnod pontio i fyd oedolion.*[408]

**250.** Clywsom bryderon gan nifer o wahanol ffynonellau am lwyth achosion a chapasiti YPA, gan adleisio peth o'r dystiolaeth a glywsom am y gweithlu gofal cymdeithasol. Dywedodd y bobl ifanc a siaradodd am Gynghorwyr Pobl Ifanc wrthym eu bod yn cael trafferth cael gafael arnynt, neu nad ydynt yn cynnig y cymorth sydd ei angen arnynt. Dywedodd un cyfranogwr wrthym nad oedd ganddi gynghorydd wedi'i enwi – cafodd ei rhoi ar 'restr heb gynghorydd wedi'i ddyrannu', a bu'n rhaid iddi ffonio'r brif swyddfa i ofyn am unrhyw gymorth, ar sail rota dyletswyddau dyddiol.[409] Dywedodd eraill wrthym nad yw Cynghorwyr Pobl Ifanc yn dda iawn yn eu swyddi, ei bod yn anodd cael gafael arnynt a'u bod yn amhroffesiynol.[410] Adroddodd Lleisiau o Ofal farn rhai pobl ifanc a oedd yn teimlo bod angen hyfforddi YPAs yn well ac y dylai eu cymorth fod ar gael y tu allan i oriau swyddfa.[411]

**251.** Roedd gan rai o'r gweithwyr proffesiynol y buom yn siarad â nhw safbwyntiau eithaf tebyg. Yn fwyaf cyffredin, dywedwyd wrthym nad oes gan YPAs gapasiti, naill ai oherwydd llwythi achosion uchel (o leiaf 30+ yr un) neu oherwydd nad oes digon o YPAs ar waith.[412] Dywedodd GISDA wrthym nad yw Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddigon clir am yr hyn y mae YPAs yn gyfrifol amdano. Cytunodd eraill y dylai rôl YPA wneud mwy i helpu pobl ifanc, a

[408] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)', tudalen 70, tudalen 85
[409] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeilaid', Mawrth 2023, tudalen 6; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 28
[410] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 28
[411] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru
[412] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 165; PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalen 28; Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)

dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol yn y trydydd sector wrthym, oherwydd capasiti, fod YPAs weithiau'n trosglwyddo eu cyfrifoldebau i sefydliadau eraill.[413]

**252.** Fodd bynnag, roedd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol safbwyntiau gwahanol. Yn eu hawdurdodau lleol nhw o leiaf, clywsom ganddynt fod cynghorwyr personol yn cael eu dyrannu i bob person ifanc, eu bod yn eu cefnogi hyd nes eu bod yn 25 oed a bod gan bobl ifanc berthynas dda â nhw i raddau helaeth.[414]

**253.** Mae Cynlluniau Llwybr yn gynlluniau gofal sy'n manylu ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl ifanc 16 i 21 oed. Maent yn edrych ar y cymorth y bydd ei angen ar berson ifanc i fyw'n annibynnol a'i baratoi ar gyfer y dyfodol. Maent yn cael eu cwblhau gan weithiwr cymdeithasol neu Gynghorydd Personol gyda'r person ifanc. Clywsom yn gyson gan bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol fod cynlluniau llwybrau yn annelwig neu nad oeddent yn bodoli, eu bod yn cael eu gweithredu'n wael, a bod penderfyniadau'n aml yn cael eu gorfodi ar bobl ifanc, weithiau am resymau ariannol. Dywedodd eraill wrthym na chawsant fawr ddim cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol ar ôl troi'n 16 oed.[415] Awgrymodd Barnardo's mai rhan o'r broblem yw'r broses cynllunio llwybr ei hun:

> *"And what we found, particularly post 18, was that a lot of young people started to back off from wanting to be part of that pathway planning process. I would say that what we need to look at is allowing personal advisers and leaving care services to have a menu of options of how they work with young people, to plan and to ensure that they've got the support around what their ambitions are post 18, rather than trying to have this really quite rigid pathway planning process that can follow them from 16 right the way through to 25."*[416]

**254.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod wedi gweld enghreifftiau da iawn o'r hyn y mae cynghorwyr personol yn ei wneud i helpu pobl ifanc, a'i bod wedi cyfarfod â rhai yn weddol ddiweddar yn y gogledd, yn benodol. Roedd o'r farn fod enghreifftiau da iawn o'r gwaith gwych y mae cynghorwyr personol yn ei wneud. Ond aeth ymlaen i gydnabod y "bwlch enfawr" i blant pan fyddant yn gadael gofal, ac aeth ati i ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau

[413] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 27-28; Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolygiaeth Gofal Cymru (gwybodaeth ychwanegol)
[414] PPIA, 09/03/23, Cofnod, paragraffau 109-111
[415] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 26 a 32; PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 6
[416] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 136

bod gan bob person sy'n gadael gofal hawl i gynghorydd personol hyd nes y bydd yn 25 oed.[417]

## Addysg uwch

**255.** Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu tangynrychioli mewn prifysgolion. Mae data gan Lywodraeth y DU am Loegr yn nodi mai dim ond 13% o ddisgyblion a oedd yn derbyn gofal yn barhaus am 12 mis neu fwy ar 31 Mawrth 2017 a aeth ymlaen i Addysg Uwch erbyn 19 oed erbyn 2020/21, o'i gymharu â 45% o'r holl ddisgyblion eraill (nid oes data cyfatebol ar gael yng Nghymru).[418] Roedd adroddiad diweddar gan UCAS yn dadansoddi data a ystyriwyd gan y Swyddfa i Fyfyrwyr, a daeth i'r casgliad bod myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn llai tebygol o fynychu darparwyr tariff uwch, yn fwy tebygol o adael, yn llai tebygol o ennill gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch, a'u bod ac yn cymryd mwy o amser i gwblhau eu hastudiaethau israddedig na chyfoedion heb brofiad o fod mewn gofal.[419]

**256.** Clywsom wahanol resymau pam y gallai hyn fod. Dywedodd pobl ifanc wrthym fod y stigma sy'n gysylltiedig â phrofiad o fod mewn gofal yn effeithio ar ddisgwyliadau gweithwyr proffesiynol o'r hyn y gallant ei gyflawni.[420] Rhannodd ymchwilydd o Brifysgol Caerdydd farn pobl ifanc a oedd yn teimlo nad oedd gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol yn gwybod digon am y cymorth – ariannol neu fel arall – a oedd ar gael i fyfyrwyr â phrofiad gofal. Ychwanegodd bod isafswm lefel o gymorth y bydd awdurdodau lleol yn ei rhoi i bobl sy'n gadael gofal sy'n mynd ymlaen i'r brifysgol, ond mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnig gwahanol lefelau o gymorth y tu hwnt i hynny, sydd wedi achosi dryswch.[421]

**257.** Dadleuodd pobl ifanc o Voices From Care fod angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal oherwydd y posibilrwydd nad oes ganddynt bobl yn eu bywydau sy'n gallu cael gafael ar wybodaeth a chyfleoedd am brifysgol fel sydd gan ddisgyblion eraill.[422] Awgrymodd Voices From Care a'r Rhwydwaith Maethu fod llety yn ystod y gwyliau yn rhwystr i fyfyrwyr sydd â phrofiad o ofal. Awgrymodd Gweithgareddau i Bobl sy'n Gadael Gofal a Chymorth i Fyfyrwyr (CLASS Cymru) fod llawer o bobl sy'n gadael gofal yn dewis mynd i'r brifysgol yn ddiweddarach, ac y gallai dileu cymorth yn 25 oed i bobl sy'n gadael

[417] PPIA, 09/03/23, Cofnod, paragraffau 266-267
[418] Gov.uk, 'Widening participation in higher education: Academic year 2020/21', Gorffennaf 2022
[419] UCAS, 'Next steps: what is the experience of students from a care background in education?', tudalen 5
[420] PPIA, 'Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid', Mawrth 2023, tudalen 21
[421] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 292
[422] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 1 Voices From Care Cymru

gofal mewn addysg neu hyfforddiant fod yn rhwystr (gweler 'Ymyl y dibyn' ar dudalen 118).[423]

**258.** Gwnaethom ofyn am farn ar y cymorth y mae prifysgolion yng Nghymru yn ei ddarparu i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym fod prifysgolion Cymru yn tueddu i weithredu trefn o dderbyniadau cyd-destunol, gan ystyried cefndir myfyrwyr ac unrhyw beth a allai effeithio ar y graddau maent yn eu cael yn eu harholiadau Safon Uwch, er enghraifft, ac mai'r tuedd yw cofio hynny wrth wneud cynnig.[424] Ar ôl i fyfyrwyr sicrhau lle yn y brifysgol, clywsom y gallant ddisgwyl darpariaeth gymharol gyson o ran cymorth sylfaenol, ond bydd y manylion penodol yn wahanol o un brifysgol i'r llall. Clywsom am enghreifftiau penodol o gymorth, gan gynnwys:

- Y cyfle i ddarpar fyfyrwyr ddod i'r brifysgol cyn cofrestru i weld beth sydd o'u blaenau o ran profiad ac i gyfarfod â'r bobl a fydd yn eu cefnogi.
- Cymorth cyfoedion, gan gynnwys cyfarfodydd mewn caffis i rannu llwyddiannau a heriau.
- Cymorth ariannol a lles i fyfyrwyr ar y gofrestr.
- Eitemau penodol ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrth gyrraedd, fel gobennydd, cyllyll a ffyrc, ac ati.
- Cynllun gwarantwr, i helpu gyda rhentu llety preifat.[425]

**259.** Mae cynrychiolwyr CLASS Cymru wedi gweithio gydag ymchwilwyr o CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd i nodi bylchau yn y cymorth a gynigir i fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru. Mae eu gwefan, classcymru.co.uk, yn fanc adnoddau penodol i Gymru wedi'i gynllunio i lenwi'r bwlch hwn.[426] Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd CLASS Cymru eu bod yn gobeithio y gall y wefan ehangu i gynnwys ysgolion a cholegau yn ogystal â phrifysgolion, er mwyn gallu mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn llawer yn gynt.[427]

**260.** Mae Cyngor Cyllido'r Alban wedi galw ar golegau a phrifysgolion i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig. Mae ei uchelgais cenedlaethol yn cynnwys sicrhau bod myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cynrychioli'n deg yn y coleg a'r brifysgol, bod colegau a phrifysgolion yn sicrhau canlyniadau cyfartal i'r myfyrwyr hynny, a bod data am fyfyrwyr â phrofiad

[423] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 25 CLASS Cymru
[424] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 367
[425] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraffau 317, 321 a 374
[426] Class Cymru, 'CLASS CYMRU Amdanom'
[427] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 25 CLASS Cymru

o fod mewn gofal yn cael ei fonitro a'i werthuso.[428] Clywsom y gellid mynd i'r afael â chymorth i fyfyrwyr â phrofiad gofal yn fwy strategol a chyson ledled Cymru hefyd, o bosibl drwy'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd (y Comisiwn). Dywedodd ymchwilydd CASCADE wrthym:

> *"Our fee and access plans as they have been, through HEFCW, are quite vague. In some ways, that's enabled universities to be able to really tailor towards their student bodies, but actually there isn't a huge amount of accountability there, and, whilst the last thing that I think we should be doing is putting up red tape… some kind of greater acknowledgement of those underrepresented groups as areas that do require investment would be helpful."*[429]

**261.** Roedd Prifysgolion Cymru yn cytuno, gan ddweud y byddent yn awyddus i weld bod pethau yn cael eu hymgorffori o fewn prosesau [y Comisiwn] yn hytrach nag atodi meincnodau ychwanegol neu agweddau eraill ar ymarfer. Aethant ymlaen i alw ar y Comisiwn i gynnig cymorth gyda data penodol i helpu prifysgolion.[430]

**262.** Fel rhan o'n hymchwiliad yn edrych ar gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, buom yn ystyried rhai o'r heriau penodol sy'n wynebu myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn yr adroddiad hwnnw, nodwyd bod angen i'r cymorth ariannol ac ymarferol ychwanegol sydd ar gael i'r garfan hon o fyfyrwyr fod yn fwy hwylus ac yn fwy hygyrch iddynt, gyda sefydliadau yn fwy rhagweithiol wrth gynnig y cymorth.[431]

### Cynllun peilot incwm sylfaenol

**263.** Mae Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

> *"Ar 28 Mehefin 2022, lansiwyd cynllun peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn ffurfiol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru. O 1 Gorffennaf 2022 ymlaen, bydd mwy na 500 o bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru, sy'n cyrraedd eu penblwydd yn 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, yn cael cynnig £1,600 bob mis (cyn treth) am ddwy flynedd i'w cynorthwyo wrth iddynt bontio i fywyd oedolyn. Ar ôl*

[428] Cyngor Cyllido'r Alban, 'SFC's National Ambition for Care-Experienced Students', 13/01/20, tudalen 12
[429] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 365
[430] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraffau 365-367
[431] Llywodraeth Cymru, 'Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch', Mawrth 2023, tudalen 45

> *treth, y swm y bydd pob derbynnydd yn ei gael bob mis yw £1,280. Gall y rhai sy'n gadael gofal sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot gael cyngor a chymorth ariannol hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am y cynllun, eu cyllid a'u dyfodol. Ar hyn o bryd mae 98% wedi ymuno â'r cynllun peilot (yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r rhai sy'n gymwys gan awdurdodau lleol)."*

Aeth y papur ymlaen i ddatgan "Bydd yr hyn a ddysgir o'r cynllun peilot, adolygiad clir a chyfres o argymhellion yn cael eu paratoi. Bydd hyn yn caniatáu i wersi gael eu dysgu, a fydd o fudd i'r rhai sy'n gadael gofal a phoblogaeth ehangach Cymru." [432]

**264.** Clywsom farn gymysg iawn am y peilot. Roedd dadleuon o blaid y peilot yn canolbwyntio'n gyffredinol ar botensial incwm sylfaenol i liniaru amlygiad pobl sy'n gadael gofal i dlodi ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau. Dadleuodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol fel a ganlyn:

> *"there are loads of different factors that can drive poverty, but, fundamentally, it's very simple: there are not enough resources for the children to live and to live well, and those young people who leave care often find themselves in that situation. So, a simple solution to it is to provide those resources".*[433]

Rhannwyd safbwyntiau tebyg gan Gofal Cymdeithasol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill.[434]

**265.** Fodd bynnag, roedd gan lawer o bobl eraill – gan gynnwys y bobl ifanc eu hunain – bryderon sylweddol am y peilot. Clywsom:

- Ni fyddai llawer o'r rhai sy'n gadael gofal yn gwybod sut i gyllidebu a gwario cymaint o arian yn dda, ac y byddent yn agored i'w gamddefnyddio neu gael eu hecsbloetio.
- Bydd yn rhaid i bobl ifanc sy'n derbyn yr incwm dalu am lety â chymorth eu hunain (gweler tudalen 127). Y gwir amdani yw na fyddant yn gallu ei fforddio. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc sy'n derbyn yr incwm

[432] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 47 Llywodraeth Cymru, tudalennau 8-9
[433] PPIA, 02/02/23, Cofnod, paragraffau 207
[434] Tystiolaeth ysgrifenedig, Gofal Cymdeithasol Cymru (gwybodaeth ychwanegol); Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 36 Iechyd Cyhoeddus Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 39 Tystiolaeth gan Plant yng Nghymru gydag aelodau Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol ac ar eu rhan; Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 16 Platfform

sylfaenol, sydd wedi bod yn gymharol ddiogel cyn hynny, yn mynd i fod allan yn y gymuned ar eu pen eu hunain a heb gymorth.

- Gall fod yn heriol i bobl ifanc pan ddaw'r taliadau incwm sylfaenol i ben.[435]
- Dywedodd un rhiant maeth wrthym mai cymorth ac arweiniad y mae pobl ifanc ei angen, nid arian yn cael ei daflu atynt, ac mai trwy gymhellion a chymorth y mae grymuso pobl ifanc.[436]

**266.** Clywsom fod gweithredu'r cynllun wedi bod yn mynd yn dda yn gyffredinol, ond bod angen goresgyn rhai heriau penodol. Dywedodd Cyngor ar Bopeth – sy'n cefnogi 82% o bobl ifanc ar y cynllun yn uniongyrchol, gyda 6 apwyntiad i bob person ifanc ar gyfartaledd[437] – mai cynllun peilot yw hwn, a bod anghytuno am rai pwyntiau. Roedd pa mor hir yr oedd unigolion yn cael aros mewn tai awdurdodau lleol yn un broblem a oedd wedi dod i'w sylw.[438] Soniodd y Comisiynydd Plant am faterion yr oedd hi'n ymwybodol ohonynt o ran bod yn gymwys i dderbyn cyllid myfyrwyr, mynediad at fudd-dal tai, a mynediad at gymorth cyfreithiol, gyda rhai o'r materion hynny'n arbennig o berthnasol i Bobl Ifanc ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches. Pwysleisiodd y dylai'r gwerthusiad o'r cynllun ystyried sut y gellir cryfhau ei weinyddiaeth i sicrhau bod pob person ifanc sy'n gymwys yn gallu cael gafael ar y cymorth mewn ffordd deg, a sut mae'r taliad Incwm Sylfaenol yn cysylltu â budd-daliadau hawliadwy eraill.[439]

**267.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y ffaith ein bod ni wedi gallu gwneud hyn i'w galluogi i gael rhywfaint o'r help a'r disgwyliadau y mae llawer o blant yn dibynnu ar eu rhieni amdanynt yn destun llawenydd. Cyfeiriodd at y cymorth a roddwyd i'r rhai cymwys sy'n gadael gofal gan Cyngor ar Bopeth i'w helpu i reoli eu cyllid, cyn ychwanegu ei bod yn siŵr y bydd y bobl hynny a fynegodd amheuon yn newid eu meddyliau yn fuan wrth weld cystal y mae pethau'n mynd mewn gwirionedd.[440]

## Ein barn ni

### Cynghorwyr Pobl Ifanc (YPAs) a Chynlluniau Llwybr

**268.** Rydym yn pryderu'n fawr am farn rhai pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol am y lefelau o gymorth a ddarperir i'r rhai sy'n gadael gofal gan eu cynghorwyr personol. Clywsom am amrywiadau eithafol o ran y defnydd a wneir o YPAs ledled

[435] PPIA, 'Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu', Mawrth 2023, tudalennau 30-31
[436] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 7 Rhiant Maeth
[437] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraffau 272-273
[438] PPIA, 02/03/23, Cofnod, paragraff 274
[439] Tystiolaeth ysgrifenedig, CEC 30 Comisiynydd Plant Cymru
[440] PPIA, 09/03/23, Cofnod, paragraffau 296-297

y wlad: pryderon am argaeledd, a hyfforddiant – gan y bobl ifanc eu hunain fel arfer – ochr yn ochr â sicrwydd bod gan YPAs berthynas dda â phobl ifanc a'u bod yn gwneud gwaith gwych gyda'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.

**269.** Mae'n amlwg i ni fod rhywbeth sylfaenol yn mynd o'i le os yw'r rhai sy'n gadael gofal yn dweud wrthym eu bod yn derbyn cymorth YPA ar sail rota o restr heb ei dyrannu. Ac os yw'r cymorth y mae pobl ifanc yn ei dderbyn gan eu YPAs yn anghyson, go brin ei bod yn syndod ein bod wedi clywed tystiolaeth yn awgrymu bod rhai cynlluniau llwybr yn amwys neu'n cael eu gweithredu'n wael.

**270.** Byddai rhai o'r diwygiadau radical yn yr adroddiad hwn, pe baent yn cael eu gweithredu, yn arwain at gynnydd sylweddol yn llwyth gwaith cyfunol YPAs, ac felly yn niferoedd yr YPAs sydd eu hangen ledled y wlad. Bydd angen amser a gwaith cynllunio i baratoi ar gyfer y newid hwnnw. Mae'n destun gofid ein bod ni'n synhwyro y gallai'r gweithlu hwn fod yn wynebu heriau tebyg i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn ehangach, megis llwythi achosion uchel a heriau recriwtio a chadw staff. Rydym felly yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o Gynghorwyr Pobl Ifanc yng Nghymru yng nghyd-destun y diwygiadau yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 26.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cymorth a gynigir i bobl ifanc gan Gynghorwyr Pobl Ifanc. Dylai'r adroddiad ystyried:

- y pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â Chynghorwyr Pobl Ifanc a'r broses cynllunio llwybr;
- yr effeithiau tebygol ar lwyth gwaith cyfunol Cynghorwyr Pobl Ifanc yn sgil y diwygiadau a nodir yn yr adroddiad hwn (yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â therfyn oedran uchaf ar gyfer cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal a'r rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau eiriolaeth optio allan ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal); ac
- unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen o ganlyniad.

### Addysg uwch

**DIWYGIAD RADICAL #3 (rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol)**

Mae'n arwydd pellach o fethiant rhianta corfforaethol bod llai nag un o bob pum person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn mynd i'r brifysgol, o'i gymharu â bron i hanner yr holl bobl ifanc. Mae'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwn yn gymhleth, yn ymwneud â sawl agwedd ar brofiadau plant cyn gofal, mewn gofal, ac wrth iddynt adael addysg orfodol. Ni all yr adroddiad hwn gynnig ymdriniaeth deilwng o'r cymhlethdodau hynny.

Roedd y dystiolaeth a gawsom yn canolbwyntio ar addysg uwch yn benodol. Wrth gwrs, mae llawer o gyfleoedd addysg drydyddol eraill ar gael i bobl ifanc ar draws addysg drydyddol yn ehangach, gan gynnwys addysg bellach a phrentisiaethau. Ni chawsom unrhyw dystiolaeth sylweddol am brofiadau pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal o addysg drydyddol yn ehangach, ac felly rydym yn cydnabod nad yw lleisiau pobl ifanc a sefydliadau mewn perthynas â'r sectorau hynny wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom mewn perthynas ag addysg uwch yn benodol yn awgrymu y dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn) fod â rôl rhianta gorfforaethol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai dyletswyddau'r Comisiwn fel rhiant corfforaethol ymestyn y tu hwnt i addysg uwch i addysg drydyddol yn ei chyfanrwydd.

Pe bai'n rhiant corfforaethol, gallai'r Comisiwn fod â chyfrifoldebau i wella ffocws darparwyr addysg drydyddol ar bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, symud tuag at gysoni'r cymorth i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, annog monitro a gwerthuso'r cymorth hwnnw'n well, ac wedi hynny dwyn sefydliadau i gyfrif am y camau sy'n cael eu cymryd ganddynt i annog pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gyfranogi – a llwyddo – mewn addysg drydyddol.

Ar hyn o bryd, mae adran 4 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i annog unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gyfranogi mewn addysg drydyddol. Dylid diwygio hyn i ymestyn y ddyletswydd honno i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn cydnabod cyfrifoldebau rhianta corfforaethol y Comisiwn.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus y mae'n rhaid i'r Comisiwn sicrhau eu bod yn cael eu bodloni tra bod darparwr addysg drydyddol wedi'i gofrestru gan y Comisiwn. Dylai Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau o dan adran 34 o'r Ddeddf i ychwanegu amod cofrestru parhaus gorfodol sy'n berthnasol i bob categori cofrestru, gan nodi bod yn rhaid i ddarparwyr addysg drydyddol cofrestredig gymryd camau i hyrwyddo cyfranogiad cynyddol, cadw dysgwyr, lleihau bylchau cyrhaeddiad a chymorth i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Ynghyd â'n diwygiadau arfaethedig eraill i rianta corfforaethol, bydd y cynigion hyn yn cryfhau ac yn ffurfioli'r cyfrifoldebau sydd gan gyrff cyhoeddus allweddol ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal gydol eu hoes.

**Argymhelliad 27.** Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i wneud y canlynol:

- gosod dyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol i bobl â phrofiad o fod mewn gofal; ac
- ychwanegu amod cofrestru gorfodol sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad, cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad a chymorth i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

**Peilot Incwm Sylfaenol**

**271.** Mae'r peilot Incwm Sylfaenol yn bolisi beidssdgar ac uchelgeisiol Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhesymau dros fod yn optimistaidd am y cynllun peilot, a'i effaith hirdymor ar fywydau'r bobl ifanc sy'n gymwys ar ei gyfer. Ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu materion o bryder gwirioneddol hefyd. Rhannwyd y pryderon hyn gyda ni gan bobl sy'n gadael gofal a phobl sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda phobl hynod o agored i niwed sy'n gadael gofal. Fe'u rhannwyd â ni yng nghyd-destun trafodaethau ynghylch camddefnyddio sylweddau a throseddu cyfundrefnol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i beidio â bychanu'r pryderon hynny.

**272.** Ar hyn o bryd, nid oes gennym farn ar y peilot Incwm Sylfaenol. Rydym yn croesawu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i werthusiad annibynnol cadarn, a byddwn yn ei ystyried pan gaiff ei gyhoeddi. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i roi sylw manwl i'r cynllun peilot.

# Atodiad 1: Rhestr ymgysylltu â dinasyddion

Cynhaliodd y Pwyllgor ymweliadau ar y dyddiadau a nodir isod. Mae crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliadau ymgysylltu ar gael ar-lein.

| Dyddiad | Mynychwyr a sefydliadau |
|---|---|
| **4 Tachwedd 2022** | **Rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal (a staff cefnogi)**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity, Torfaen |
| **14 Tachwedd 2022** | **Pobl sy'n gadael gofal**<br>Barnardo's Bloom, Llety â chymorth, Atal digartrefedd, Abertawe |
| **21 Tachwedd 2022** | **Staff y prosiect**<br>Barnardo's Bloom, Llety â chymorth, Atal digartrefedd, Abertawe |
| **21 Tachwedd 2022** | **Rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal (a staff cefnogi)**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity, Abertawe |
| **24 Tachwedd 2022** | **Rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal (a staff cefnogi)**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity, Blaenau Gwent |
| **24 Tachwedd 2022** | **Staff cyngor a'r trydydd sector**<br>Cyngor Sir Fynwy a Barnardo's, Teuluoedd yn Gyntaf, Brynbuga |
| **5 Rhagfyr 2022** | **Staff y prosiect**<br>Llamau Merthyr Housing First for Youth, Merthyr Tudful |
| **5 Rhagfyr 2022** | **Rhieni geni**<br>Barnardo's Reflect, Caerdydd |
| **8 Rhagfyr 2022** | **Staff y prosiect**<br>Gwasanaeth Gadael Gofal Cyfle Barnardo's, Yr Wyddgrug |
| **24 Chwefror 2023** | **Rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal (a staff cefnogi)**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity, Y Rhyl |

# Atodiad 2: Rhestr o ddigwyddiadau bord gron i randdeiliaid

Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o ddigwyddiadau bord gron i randdeiliaid ar y dyddiadau isod. Mae crynodeb o ganfyddiadau'r digwyddiadau ar gael ar-lein.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **Rhieni geni – 26 Ionawr** | **Rhieni geni (a staff cefnogi)**<br>Barnardo's, Babi a Fi<br>**Rhieni geni (a staff cefnogi)**<br>Barnardo's, Reflect<br>**Rhieni geni (a staff cefnogi)**<br>CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd<br>**Rhieni geni (a staff cefnogi)**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Eiriolaeth Rhieni<br>**Rhieni geni (a staff cefnogi)**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity |
| **Gweithwyr proffesiynol ac academyddion sy'n gweithio gyda rhieni geni – 26 Ionawr** | **Leah Wood**<br>Barnardo's<br>**Seren Howarth**<br>Barnardo's<br>**Dr Helen Hodges**<br>CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd<br>**Dr Louise Roberts**<br>CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd<br>**Nadia Lovell**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol<br>**Helen Parry**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol<br>**Dr Charlotte Edney**<br>Arsyllfa Cyfiawnder Teululol Nuffield<br>**Sarah Durrant**<br>Tros Gynnal Plant Cymru |
| **Gweithwyr proffesiynol ac academyddion sy'n gweithio gyda plant a** | **Suzanne Griffiths**<br>Adoption UK Cymru |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal – 2 Chwefror** | **Jason Baker**<br>Adoption UK Cymru<br>**Penny Jeffreys**<br>Adoption UK Cymru<br>**Lynette Lovell**<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>**Samantha Frith-Jones**<br>Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru<br>**Katie Anthony**<br>Barnardo's<br>**Josh David-Read**<br>Barnardo's<br>**Dr Helen Hodges**<br>CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd<br>**Sean O'Neill**<br>Plant yng Nghymru<br>**Kate Aubrey**<br>Plant yng Nghymru<br>**Tom Davies**<br>Cymdeithas y Plant<br>**Sarah Thomas**<br>Rhwydwaith Maethu Cymru<br>**Elizabeth Bryan**<br>Rhwydwaith Maethu Cymru<br>**Ann Bell**<br>Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru<br>**Elly Jones**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol<br>**Lisa Huish**<br>Lleisiau Rhieni yng Nghymru<br>**Gareth Thomas**<br>Lleisiau Rhieni yng Nghymru<br>**Sarah Durrant**<br>Tros Gynnal Plant Cymru |
| **Plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal – 15 Chwefror** | **Plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (a staff cefnogi)**<br>Hwyluswyd gan Voices From Care Cymru |

# Atodiad 3: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **17 Tachwedd 2022** | **Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru**<br>**Kirrin Spiby-Davidson, Pennaeth Dros Dro Polisi a Materion Cyhoeddus**<br>Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru<br>**Sara Jermin, Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad**<br>Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |
| **18 Ionawr 2023** | **Elisa Jenkins**<br>Cyfreithiwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal<br>**Rosie Squires**<br>Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru a etholwyd gan Voices From Care Cymru |
| **2 Chwefror 2023** | **Sarah Thomas, Cyfarwyddwr**<br>Rhwydwaith Maethu Cymru<br>**Elizabeth Bryan, Pennaeth Gweithrediadau yng Nghymru**<br>Rhwydwaith Maethu Cymru<br>**Matt Lewis, Rheolwr Gwasanaethau Maethu Therapiwtig Cymru**<br>Gweithredu dros Blant<br>**Rhian Carter, Rheolwr Tîm**<br>Gweithredu dros Blant<br>**Mike Anthony, Rheolwr**<br>TACT Cymru<br>**Helen Mary Jones, Pennaeth Polisi a Chyfathrebu Communications**<br>Voices From Care<br>**Emma Phipps-Magill, Cyfarwyddwr Gweithrediadau**<br>Voices From Care<br>**Sharon Lovell, Prif Swyddog Gweithredol**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol<br>**Ben Twomey, Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 8 Chwefror 2023 | **Daljit Kaur Morris, Rheolwr Gweithrediadau**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity<br>**Helen Perry, Rheolwr Gwasanaeth**<br>Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity<br>**Mark Carter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant**<br>Gwasanaeth Babi a Fi Barnardo's<br>**Amy Bainton, Uwch-arweinydd Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru**<br>Barnardos' Cymru<br>**Y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Mcfarlane**<br>Llywydd yr Is-adran Deuluoedd<br>**Yr Anrhydeddus Mr Ustus Francis**<br>Barnwr Cyswllt Is-adran Deuluoedd Cymru<br>**Vikki Morris, Dirprwy Gyfarwyddwr**<br>Y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder<br>**Peter Spinner, Rheolwr Tîm**<br>Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro<br>**Melissa Meindl, Cydymaith Ymchwil, Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE)**<br>Prifysgol Caerdydd<br>**David Westlake, Uwch Gymrawd Ymchwil, Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE)**<br>Prifysgol Caerdydd |
| 2 Mawrth 2023 | **Jane Shears, Pennaeth Datblygiad Proffesiynol**<br>Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)<br>**Christine Parry, Rheolwr Gwasanaethau Plant**<br>Barnardo's Cymru<br>**Sian Elen Tomos, Prif Swyddog Gweithredol**<br>GISDA<br>**Sam Austin, Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol**<br>Llamau<br>**Yvonne Connelly, Cyfarwyddwr Gweithredol Gorllewin a Gogledd**<br>Llamau<br>**Lee Phillips, Rheolwr Cymru**<br>Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a Chadeirydd Fforwm Addysg Ariannol Cymru<br>**Alan Davies, Pennaeth Gwasanaethau a Ariennir**<br>Cyngor ar Bopeth, Cymru a Lloegr<br>**Lena Smith, Cadeirydd**<br>Rhwydwaith CLASS Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Dr Hannah Bayfield, Cydymaith Ymchwil, Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE),** Prifysgol Caerdydd<br>**Dirprwy Is-Ganghellor yr Athro Jacqui Boddington** Prifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn cynrychioli Prifysgolion Cymru<br>**Sophie Douglas, Cynghorydd Polisi** Prifysgolion Cymru |
| **9 Mawrth 2023** | **Jan Coles, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Sir Gâr a Chadeirydd newydd Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS)**<br>**Taryn Stephens, Pennaeth Gwasanaeth Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Dirprwy Gadeirydd newydd Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS)**<br>**Sally Jenkins, Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol** Cyngor Dinas Casnewydd<br>**Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol** Llywodraeth Cymru<br>**Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru** Llywodraeth Cymru<br>**Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Galluogi Pobl** Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 4: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CEC 01** | Voices From Care |
| **CEC 02** | Matthew Lewis, ymgynghorydd therapiwtig a rheolwr gwasanaeth maethu |
| **CEC 03** | Unigolyn |
| **CEC 04** | TACT Fostering |
| **CEC 05** | Unigolyn |
| **CEC 06** | Steve Phillips, a fu mewn gofal, cadeirydd annibynnol ar baneli maethu |
| **CEC 07** | Rhiant Maeth |
| **CEC 08** | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol |
| **CEC 09** | Ms Davara Bennett, Dr Gabriella Melis, yr Athro David Taylor Robinson, ymchwilwyr iechyd y cyhoedd, Prifysgol Lerpwl |
| **CEC 10** | Unigolyn |
| **CEC 11** | Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol, Y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder |
| **CEC 12** | Grŵp Resilience CBC |
| **CEC 13** | Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) |
| **CEC 14** | Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru a'r Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant |
| **CEC 15** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **CEC 16** | Platfform |
| **CEC 17** | Gweithredu dros Blant Maethu Cymru |
| **CEC 18** | Unigolyn |
| **CEC 19** | Barnardo's Cymru |
| **CEC 20** | Gweithredu dros Blant |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **CEC 21** | Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru |
| **CEC 22** | Cymorth Cymru |
| **CEC 23** | Rhian Carter |
| **CEC 24** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| **CEC 25** | CLASS Cymru |
| **CEC 26** | Penny Jones, Cynghorydd Sir |
| **CEC 27** | Serenity Welfare |
| **CEC 28** | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| **CEC 29** | Volunteering Matters |
| **CEC 30** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **CEC 31** | Rhwydwaith Maethu |
| **CEC 32** | MyBnk |
| **CEC 33** | Llamau |
| **CEC 34** | Dyneiddwyr Cymru |
| **CEC 35** | Cymorth i Ferched Cymru |
| **CEC 36** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **CEC 37** | Anabledd Dysgu Cymru |
| **CEC 38** | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **CEC 39** | Plant yng Nghymru, gydag aelodau Grŵp Polisi Elusennau Plant Cenedlaethol ac ar eu rhan: Barnardo's Cymru, Comisiynydd Plant Cymru (sylwedyddion), Plant yng Nghymru, NSPCC Cymru, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a Chymdeithas y Plant |
| **CEC 40** | Plant yng Nghymru |
| **CEC 41** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **CEC 42** | Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) |
| **CEC 43** | Cymdeithas y Plant |
| **CEC 44** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **CEC 45** | Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) |
| **CEC 46** | CAFCASS Cymru |
| **CEC 47** | Llywodraeth Cymru |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol | 9 Chwefror 2023 |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | 16 Chwefror 2023 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Chwefror 2023 |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | 25 Chwefror 2023 |
| Llamau | 27 Chwefror 2023 |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | 15 Mawrth 2023 |
| Barnardo’s Cymru | 26 Mawrth 2023 |
| Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) | 24 Ebrill 2023 |
| Llywodraeth Cymru | 24 Ebrill 2023 |